



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

Dydd Mawrth 26 Mehefin 2001

Tuesday 26 June 2001

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru
Questions to the First Minister
- 23 Datganiad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar Araith y Frenhines
Statement by the Secretary of State for Wales on the Queen's Speech
- 66 Datganiad ar Galedi Myfyrwyr
Statement on Student Hardship
- 80 Datganiad Busnes
Business Statement
- 82 Pwynt o Drefn
Point of Order
- 83 Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion
Composite Motion: Approval of Orders

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru Questions to the First Minister

Effaith Clwy'r Traed a'r Genau (Gogledd Cymru) The Effect of Foot and Mouth Disease (North Wales)

Q1 Glyn Davies: What discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales about the co-ordination of UK environmental, economic and social policies to combat the effects of foot and mouth disease in north Wales? (OAQ12155)

The First Minister: I am grateful for that question. I discuss these matters regularly with the Secretary of State for Wales. There was a meeting of the rural taskforce this morning in London at which neither the Secretary of State nor I were present, but the Cabinet was represented by Mike German, the Deputy First Minister and Minister for Economic Development. There will be a meeting of the rural partnership's sub-group, which is chaired by Carwyn Jones, on 24 July.

Glyn Davies: Do you accept that the £12 million already allocated by the Minister for Finance, Local Government and Communities is inadequate to deal with the problem? In some areas not all the money has been taken up, while in others it has been over-subscribed. Will you assure us that any future allocation, and I am sure that you agree there must be one, will be targeted at those areas where need has been demonstrated by over-subscription, rather than distributed on a population or business presence basis, as it was last time?

The First Minister: Subject to value for money considerations, that would be a sensible, evidential basis on which to proceed. However, these are matters for the Minister for Finance, Local Government and Communities. If Glyn, others involved with this matter and those who represent people badly affected by foot and mouth disease can make a case for this, it will be

C1 Glyn Davies: Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cydlynu polisiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y DU i fynd i'r afael ag effaith clwy'r traed a'r genau yng ngogledd Cymru? (OAQ12155)

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn ddiolchgar am y cwestiwn hwnnw. Trafodaf y materion hyn yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod o'r tasglu gwledig y bore yma yn Llundain lle nad oeddwn i na'r Ysgrifennydd Gwladol yn bresennol, ond cynrychiolwyd y Cabinet gan Mike German, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Cynhelir cyfarfod o is-grŵp y bartneriaeth wledig, dan gadeiryddiaeth Carwyn Jones, ar 24 Gorffennaf.

Glyn Davies: A dderbyniwch fod y £12 miliwn a ddyrannwyd eisoes gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn annigonol i ymdrin â'r broblem? Mewn rhai ardaloedd, ni ddefnyddiwyd yr holl arian, tra bod gormod o alw mewn ardaloedd eraill. A roddwch sicrwydd i ni y caiff unrhyw ddyraniad yn y dyfodol, ac yr wyf yn siŵr y cytunwch y dylid cael un, ei dargedu tuag at yr ardaloedd hynny y dangoswyd bod angen amdano oherwydd maint y galw, yn hytrach na'i ddosbarthu ar sail poblogaeth neu fodolaeth busnesau, fel y gwnaethpwyd y tro diwethaf?

Prif Weinidog Cymru: Yn amodol ar ystyriaethau gwerth am arian, byddai hynny yn sail synhwyrol i symud ymlaen yn seiliedig ar dystiolaeth. Fodd bynnag, materion i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yw'r rhain. Os y gall Glyn, eraill sydd yn rhan o'r mater hwn a'r rhai sydd yn cynrychioli pobl a effeithiwyd yn ddrwg gan glwy'r traed a'r

sympathetically considered. I assure him of that.

Eleanor Burnham: A oedd dewis gan safle Astbury yn Llai ar y cychwyn ynglŷn â chymryd cyrff anifeiliaid a oedd wedi eu difa am resymau lles? Mae nifer y cyrff sydd wedi eu claddu yno 20,000 yn fwy na'r nifer y cytunwyd arno. Mae hynny yn achosi pryder. Yr wyf wedi siarad â Carwyn Jones am y mater hwn, ac yr wyf wedi anfon e-bost ato. A wnaiff y Prif Weinidog ymchwilio i'r mater hwn yn bersonol, i dawelu pryderon pobl Llai?

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn barod i ymchwilio i unrhyw honiad bod nifer y cyrff anifeiliaid sydd wedi eu claddu ar unrhyw safle yn uwch na'r nifer y cytunwyd arno'n wreiddiol. Ni allaf roi unrhyw resymau am hynny, gan nad yw'r manylion gennyf. Eich cwestiwn cyntaf oedd a roddwyd dewis i'r safle yn y mater hwn, a'r ateb yw fod y dewis hwnnw wedi ei roi mewn egwyddor. Fodd bynnag, mae gan y Llywodraeth y grym, os yw hynny'n angenrheidiol, i orfodi safleoedd i gymryd cyrff os yw'r safleoedd hynny yn weddus, yn addas ac yn lân, ac yn gallu delio'n broffesiynol â chyrff anifeiliaid. Fel arfer, y mae'n well gennym ddefnyddio safleoedd sydd yn cynnig cymryd cyrff yn wirfoddol.

Dafydd Wigley: Pwysaf ar Brif Weinidog Cymru i ystyried yr ateb a roddwyd gan Carwyn Jones i Cynog Dafis ddydd Iau diwethaf, pan awgrymodd y byddai'n 24 Gorffennaf cyn i is-grŵp y bartneriaeth wledig gyfarfod i drafod yr hyn sydd ei angen i ymdopi â sgil effeithiau clwy'r traed a'r genau. Yn sgil hynny, byddai'n fis Awst neu wedi hynny arno'n trafod pa adnoddau sydd eu hangen. Mae angen adnoddau yn awr. Mae cyfnod y £12 miliwn a ddyrannwyd yn wreiddiol yn dod i ben yr wythnos hon. Mae ar fusnesau yn y sectorau twristiaeth ac amaethyddiaeth angen gwybod bod arian ar gael. Mae angen canolbwynt ar gyfer yr arian hwnnw, ond mae'n rhaid cael sicrwydd. Pwysaf am ddatganiad yn ystod yr wythnos nesaf y bydd arian ar gael.

Prif Weinidog Cymru: Nid wyf yn gallu gwarantu y bydd arian ar gael. Fodd bynnag, gallaf ddweud ein bod am roi ystyriaeth

genau, gyflwyno achos dros hyn, caiff ei ystyried yn gydymdeimladol. Rhoddaf sicrwydd iddo o hynny.

Eleanor Burnham: Was the Astbury site in Llay given a choice as to whether animals culled for welfare reasons should be buried there? The number of carcasses buried there is now 20,000 more than the number agreed upon. That is a cause of concern. I have spoken to Carwyn Jones about this matter, and have sent him an e-mail. Will the First Minister personally look into this matter, to allay the concerns of the people of Llay?

The First Minister: I am willing to look into any claim that the number of carcasses buried on any site exceeds the number originally agreed upon. I cannot give any reason for that, as I do not have the details. Your first question was whether the site was given a choice in this matter, and the answer is that it was given that choice in principle. However, the Government has the power, if necessary, to compel sites to take carcasses if those sites are adequate, suitable and clean, and are able to deal professionally with animal carcasses. We usually prefer to use sites that volunteer to take carcasses.

Dafydd Wigley: I urge the First Minister to consider Carwyn Jones's answer to Cynog Dafis last Thursday, when he suggested that it would be 24 July before the rural partnership's sub-group meets to discuss what is needed to cope with the consequences of foot and mouth disease. As a result, it will be August or even later before it discusses what resources are needed. Resources are needed now. The period of the £12 million originally allocated comes to an end this week. Businesses in the tourism and agricultural sectors need to know that money is available. The money needs to be targeted, but a guarantee is essential. I press for a statement during the coming week that money will be made available.

The First Minister: I cannot guarantee that money will be available. However, we will give sympathetic consideration to any

gydymdeimladol i unrhyw gais a wneir am fwy o arian, neu i ddsbarthu arian mewn ffordd wahanol i'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl ddau neu dri mis yn ôl wrth inni siarad am gychwyn clwy'r traed a'r genau. Y dyddiad a roddais yn fy ateb i gwestiwn gwreiddiol Glyn Davies, sef 24 Gorffennaf, yw dyddiad cyfarfod nesaf y bartneriaeth wledig dan gadeiryddiaeth Carwyn Jones. Os oes rheswm brys dros ystyried unrhyw geisiadau am newidiadau yn y ffordd o wario arian neu o ddelio â cheisiadau, yr ydym yn hapus i edrych arnynt ymlaen llaw. Mae Dafydd yn sôn am faterion brys, felly dylai ysgrifennu ataf i neu Carwyn i ddweud na all y materion hynny aros tan 24 Gorffennaf. Byddwn ni wedi hynny yn ystyried ei gais.

Delyth Evans: A ydych chi'n ymwybodol o adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd ar ymateb Llywodraeth y DU i glwy'r traed a'r genau? Mae'r adroddiad yn rhoi canmoliaeth ddiamaheul i ymateb y Llywodraeth Lafur i'r clwyf, fel y clywodd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ym Mrwsel ddoe.

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn falch o glywed hynny, gan nad oeddwn yn gwybod am yr adroddiad hwnnw. Yr ydym ni yn y Cynulliad yn gorfod rhannu'r clod gyda Llywodraeth y DU. Yr ydym wedi gwneud ein rhan, ac nid oes gennym unrhyw reswm i beidio ag ymfalchïo yn y ffordd yr ydym wedi ymateb i argyfwng clwy'r traed a'r genau.

Canfyddiadau 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru Adroddiad Perfformiad 1999-2000' Findings of the 'National Assembly for Wales Performance Report 1999-2000'

C2 Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): A fydd unrhyw fesurau newydd yn cael eu cyflwyno yn dilyn canfyddiadau 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru Adroddiad Perfformiad 1999-2000'? (OAQ12145)

2:10 p.m.

Prif Weinidog Cymru: Mae'r adroddiad perfformiad yn trafod blwyddyn ariannol gyfan 1999-2000. Gan hynny, mae'n trafod cyfnod, yn rhannol o leiaf, cyn sefydlu'r Cynulliad. Mae'r mesurau sydd yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y Cynulliad wedi

application made for more money, or for money to be distributed differently to the methods anticipated two or three months ago when we were talking about the start of foot and mouth disease. The date that I gave in my answer to Glyn Davies's original question, namely 24 July, is the date of the next meeting of the rural partnership, chaired by Carwyn Jones. If there is an urgent need to consider any applications for changes in the way money is spent or in the way in which applications are dealt with, we are happy to consider them beforehand. Dafydd talks of urgent matters, so he should write to Carwyn or myself stating that those matters cannot wait until 24 July. We will then consider his request.

Delyth Evans: Are you aware of the European Commission's report on the UK Government's response to foot and mouth disease? The report undoubtedly praises the Labour Government's response to the disease, as the Agriculture and Rural Development Committee heard in Brussels yesterday.

The First Minister: I am pleased to hear that, as I was not aware of that report. We in the Assembly must share this praise with the UK Government. We have played our part, and we can be proud of our response to the foot and mouth disease crisis.

Q2 The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): Will there be any new measures introduced following on from the findings of the 'National Assembly for Wales Performance Report 1999-2000'? (OAQ12145)

The First Minister: The performance report covers the full 1999-2000 financial year. Consequently, it covers a period, at least partially, that predates the Assembly. The measures being introduced by the Assembly Government are set out clearly in the

eu nodi'n glir yn y cytundeb partneriaeth.

Ieuan Wyn Jones: Tynnaf eich sylw at gynnwys yr adroddiad, lle yr ydych yn nodi mai un o amcanion eich Llywodraeth yw sicrhau bod gennym economi iach, ffyniannus ac mai eich bwriad yw rhannu cyfoeth yn decach ar draws Cymru. Sut y gall pobl sydd yn gweithio yn y diwydiannau cynhyrchu rannu yn y ffyniant hwnnw os gall eu cyflogwyr eu diswyddo yn llawer haws nag yn unrhyw wlad arall yn Ewrop?

Prif Weinidog Cymru: Mae pawb yn disgwyl symudiadau sylweddol ar y mater hwn yng ngwledydd Ewrop yn sgîl cyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion cyn gwyliau'r haf.

Ieuan Wyn Jones: Gofynnaf ichi longyfarch Bill Morris, sydd yng Nghymru heddiw, ar ei sylwadau sydd yn condemnio'r Llywodraeth am beidio â chyflwyno rheoliadau Ewropeaidd newydd a fyddai wedi sicrhau, er enghraifft, amddiffyniad i weithwyr Corus yn erbyn y math o ddiswyddiadau a ddigwyddodd yn y cwmni hwnnw. Ni fyddai hynny wedi gallu digwydd yn yr Iseldiroedd.

Apelïaf arnoch hefyd i siarad â rheolwr Friction Dynamics Cyfyngedig yng Nghaernarfon, sydd yn bygwth diswyddo'r gweithwyr yno am 2 p.m. heddiw. A siaradwch ag ef heddiw ac apelïo arno i gynnal trafodaethau â'r undebau er mwyn cael setliad teg yng Nghaernarfon?

Prif Weinidog Cymru: Codasoch ddau fater gwahanol ond mae'r ddau yn bwysig. Mae Bill Morris yn hen ffrind imi ond nid yw hynny'n golygu na allaf anghytuno ag ef o bryd i'w gilydd ac ynglŷn â rhai manylion o'i sylwadau y bore yma.

Ni chredaf y byddai wedi gwneud llawer o wahaniaeth i'r hyn yr oedd Corus yn bwriadu ei wneud yn y diwydiant dur pe byddai'r gyfraith ar hawliau ymgynghori yr un peth ym Mhrydain Fawr ag ydyw yn yr Iseldiroedd. Nid oedd bygythiad i'r swyddi yn yr Iseldiroedd, felly nid yw'r gwahaniaeth yn y modd o ymgynghori yn berthnasol yn y cyswllt hwnnw.

Fodd bynnag, bydd yr egwyddor o barhau i

partnership agreement.

Ieuan Wyn Jones: I draw your attention to the contents of the report, where you state that one of your Government's aims is to ensure that we have a healthy, prosperous economy and that your intention is to share wealth more equitably across Wales. How can people working in the manufacturing industries share in that prosperity if, in comparison to any other country in Europe, it is so much easier for their employers to make them redundant?

The First Minister: Everyone expects significant moves on this issue in European countries as a result of Council of Ministers meetings before the summer recess.

Ieuan Wyn Jones: I ask you to congratulate Bill Morris, who is in Wales today, on his comments that condemn the Government for not introducing new European regulations that would have ensured, for example, protection for Corus workers against the kind of redundancies that occurred in that company. That could not have happened in the Netherlands.

I also appeal to you to speak to the manager of Friction Dynamics Limited in Caernarfon, who is threatening to sack the workers there at 2 p.m. today. Will you speak to him today and appeal to him to hold negotiations with the unions in order to get a fair settlement in Caernarfon?

The First Minister: You raised two different issues, but both are important. Bill Morris is an old friend of mine but that does not mean that I do not disagree with him from time to time and I do disagree with some of his comments this morning.

I do not believe that it would have made much difference to what Corus intended to do in the steel industry if the law on right of consultation was the same in Great Britain as it is in the Netherlands. There was no threat to the jobs in the Netherlands, so the difference in the means of consultation is not relevant in that respect.

However, the principle of continuing to press

wasgu ar Lywodraeth y DU a llywodraethau eraill yr Undeb Ewropeaidd i setlo'r mater hwn ac i sefydlu safon ar draws Ewrop yn parhau dros y chwe wythnos nesaf cyn y cyfarfod perthnasol o Gyngor y Gweinidogion.

O ran Friction Dynamics, mae'n bwysig nad ydym yn dychwelyd i ddyddiau'r Arglwydd Penrhyn a'r streic a'r *lock-out* enwog ym Methesda 100 mlynedd yn ôl. Mae sefyllfa Friction Dynamics yn peri ichi feddwl am y cyfnod hwnnw. Yr ydym yn byw mewn canrif newydd, pan na fydddech yn disgwyl cael y math hwnnw o gyflogwr. Mater i'r Gwasanaeth Ymgynghorol Cymodi a Chymrodeddu a'r Adran dros Waith a Phensiynau, yn hytrach nag i'r Cynulliad, yw hawliau gweithwyr, ond os gallaf ymyrryd mewn ffordd adeiladol, byddaf yn hapus i wneud hynny. Byddwn hefyd yn awyddus i siarad â Dafydd Wigley, yr Aelod Cynulliad lleol, cyn gwneud hynny.

David Davies: Do you agree that unacceptable levels of violence and intimidation aimed at health workers, doctors and nurses are making it more difficult to improve on the health targets in the performance report? Will you immediately introduce a red card scheme, similar to that operating in England, so that those who threaten our doctors and nurses are not allowed access to hospital premises?

The First Minister: This is an extremely sensitive issue and we must try to use the heaviest possible methods of discouragement against people who use the equivalent of road rage in hospitals to express their uncontrollable feelings. Occasionally, the problem is distinguishing between those who are displaying mental health problems and those who are what you might call unacceptably ill-tempered. In general practice surgeries, it is not uncommon for doctors to come across difficult drug addicts or people with mental health problems, with whom they cannot deal. However, they have to deal with them for six months, then they are passed on to another GP's surgery for another six months, and such people do the rounds in that way. Such violence is a result of a complex mixture of drug addiction, mental illness and bossiness and bullying,

the UK Government and the other European Union governments to settle this issue and to establish an Europe-wide standard will continue over the next six weeks, prior to the relevant Council of Ministers meeting.

On Friction Dynamics, it is important that we do not return to the days of Lord Penrhyn and the famous strike and lock-out in Bethesda 100 years ago. The Friction Dynamics situation evokes memories of that period. We live in a new century, when you would not expect to have that kind of employer. The rights of workers is a matter for the Advisory, Conciliation and Arbitration Service and the Department for Work and Pensions, rather than the Assembly, but if I can intervene constructively, I would be happy to do so. I would also be eager to talk to Dafydd Wigley, the local Assembly Member, before doing so.

David Davies: A gytnwch fod lefelau annerbyniol o drais a bygythiadau yn erbyn gweithwyr iechyd, meddygon a nyrsys yn ei gwneud yn fwy anodd gwella'r targedau iechyd yn yr adroddiad perfformiad? A gyflwynwch gynllun cerdyn coch, tebyg i'r un a weithredir yn Lloegr, ar unwaith fel na chaiff y rhai hynny sydd yn bygwth ein meddygon a'n nyrsys fynediad i eiddo ysbytai?

Prif Weinidog Cymru: Mae hyn yn fater sensitif iawn a rhaid inni geisio defnyddio'r dulliau trymaf posibl yn erbyn pobl a ddefnyddia'r hyn sydd yn debyg i ffyrnigrwydd ar y ffyrdd mewn ysbytai i ddangos eu teimladau afreolus. Weithiau, y broblem yw gwahaniaethu rhwng y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl a'r rhai y byddech yn eu hystyried yn afresymol o wyllt. Mewn meddygfeydd cyffredinol, nid yw'n anghyffredin i feddygon orfod wynebu pobl anodd eu trin sydd yn gaeth i gyffuriau neu sydd â phroblemau iechyd meddwl, na allant ymdrin â hwy. Fodd bynnag, rhaid iddynt ymdrin â hwy am chwe mis, a chânt eu cyfeirio i feddygfa meddyg teulu arall am chwe mis arall, ac mae pobl felly yn symud o'r naill le i'r llall yn y modd hwnnw. Mae trais o'r fath yn ganlyniad i gymysgedd cymhleth o fod yn gaeth i gyffuriau, salwch

which is unacceptable and must be stopped. meddwl, trahauster a bwlian, sydd yn annerbyniol a rhaid ei atal.

Darparu ac Ariannu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru Providing and Funding Public Services in Wales

Q3 Owen John Thomas: What discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales about methods of providing and funding public services in Wales? (OAQ12139)

The First Minister: I meet with the Secretary of State for Wales frequently to discuss this and other matters. My Cabinet colleagues also meet with their Westminster counterparts, and will soon meet with the new Cabinet members following the Cabinet changes that took place after the general election on 7 June.

Owen John Thomas: You will, no doubt, have read the paper produced yesterday by the Institute of Public Policy Research, which suggests that the use of long-term private finance initiative contracts is not the best way to finance public services. There is ample evidence that attempting to push down labour costs by using private contractors is likely to have a detrimental effect on the morale of public service workers adding to the problem of staff recruitment and retention in key areas. Is the Government of Wales prepared to declare its opposition to the line that has so far been taken by the Westminster Government? Is it also prepared to provide an alternative that will match the needs and aspirations of the people?

The First Minister: You should not be so hard on PFI. There will be differences of approach implied by devolution, but I do not think that the method of using a megaphone to blast against the Westminster Government for doing this or that is appropriate. Devolution means that circumstances in Wales are different to those in England, for example the abolition of the area health authorities and the retention of the community health councils in Wales, but not in England. Those matters arise from how we deal with issues after devolution. We are building the Raglan hospital and two new

C3 Owen John Thomas: Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch dulliau o ddarparu ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ12139)

Prif Weinidog Cymru: Byddaf yn cwrdd yn aml ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod hyn a materion eraill. Bydd fy nghyd-Weinidogion yn y Cabinet hefyd yn cwrdd â'u cymheiriaid yn San Steffan, ac yn fuan byddant yn cwrdd ag aelodau newydd y Cabinet o ganlyniad i'r newidiadau a wnaethpwyd i'r Cabinet ar ôl yr etholiad cyffredinol ar 7 Mehefin.

Owen John Thomas: Byddwch, mae'n debyg, wedi darllen y papur a gynhyrchwyd ddoe gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus sydd yn awgrymu nad defnyddio contractau mentrau cyllid preifat hirdymor yw'r ffordd orau o ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Mae digon o dystiolaeth fod ceisio cwtogi ar gostau llafur drwy ddefnyddio contractwyr preifat yn debygol o gael effaith andwyol ar forâl gweithwyr y sector cyhoeddus gan ychwanegu at broblem recriwtio a chadw staff mewn meysydd allweddol. A yw Llywodraeth Cymru yn fodlon datgan ei gwrthwynebiad i'r safiad a gymerwyd hyd yma gan Lywodraeth San Steffan? A yw hefyd yn fodlon cynnig dewis amgen a fydd yn cydweddu ag anghenion a dyheadau'r bobl?

Prif Weinidog Cymru: Ni ddylech fod mor llawdrwm ar y fenter cyllid preifat. Bydd datganoli yn llywio gwahanol ymagweddau, ond ni chredaf ei bod yn briodol defnyddio uchelseinydd i ladd ar Lywodraeth San Steffan am wneud hyn neu'r llall. Golyga datganoli fod amgylchiadau Cymru yn wahanol i rai Lloegr, er enghraifft diddymu awdurdodau iechyd ardal a chadw'r cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru, ond nid yn Lloegr. Deillia'r materion hynny o sut yr ymdriniwn â materion ar ôl datganoli. Yr ydym yn adeiladu ysbyty Rhaglan a dwy ysgol newydd yng Nghaerffili drwy PFI.

schools in Caerphilly using PFI. As far as I know, the Caerphilly Plaid Cymru-controlled council is enthusiastically embracing that principle. I am not sure what consultation you have had with your Caerphilly local authority colleagues on that, but root and branch opposition to all PFI schemes would result in a considerable dislocation in how some of our local authorities, including Plaid Cymru-led authorities, are attempting to improve education services for children in their area.

Alun Pugh: A key public service is the provision of prescriptions. Are you relaxed about the small number of under-25s from England popping over the border for prescriptions or do you think that English-based prescription tourism is a major threat to Welsh budgets?

The First Minister: No, it is not a threat. The sums of money involved are very small. I notice how the press is incapable of grasping the principle that it is probably a good thing for English people to come to Wales. They either come here to see the FA Cup Final in our beautiful Millennium Stadium or, if they are under-25 and are frequent prescription drug users, they come to gain access to the progressive policies introduced on 1 April. If the sums of money were large, we might have to reconsider the matter, but for the moment they are modest. I am amazed that that has not been accepted as an indication of a good policy initiative.

David Melding: I take this opportunity to tell your colleague, the Secretary of State for Wales who is present in the Chamber today and whom I welcome, that while PFI may need modification and development, it is an excellent system to introduce much-needed capital investment to improve our public services.

The First Minister: I am a great admirer of the IPPR and I will digest its report. I have not yet read it, but I noticed its press coverage, which stated that PFI works better in relation to roads. It worked well as regards the A55 across Anglesey, with which Ieuan Wyn Jones would agree, even if Owen John Thomas does not. It also works well in relation to prisons, for which we are not

Cyhyd ag y gwn i, mae cyngor Caerffili, a reolir gan Blaid Cymru, yn cofleidio'r egwyddor honno'n frwdfrydig. Nid wyf yn siŵr i ba raddau yr ydych wedi ymgynghori gyda'ch cyd-Aelodau yn awdurdod lleol Caerffili ynghylch hynny, ond byddai gwrthwynebiad o'r bon i'r brig i bob cynllun PFI yn arwain at anhrefn sylweddol yn y ffordd y ceisia rhai o'n hawdurdodau lleol, gan gynnwys y rhai dan arweiniad Plaid Cymru, wella gwasanaethau addysg i blant yn eu hardal.

Alun Pugh: Un gwasanaeth cyhoeddus allweddol yw darparu presgripsiynau. A ydych yn fodlon ynglŷn â'r nifer fechan o rai o dan 25 o Loegr sydd yn camu dros y ffin i gael presgripsiynau ynteu a gredwch fod twristiaeth presgripsiynau o Loegr yn fygythiad mawr i gyllidebau Cymru?

Prif Weinidog Cymru: Na, nid yw'n fygythiad. Mae'r symiau o arian dan sylw yn fach iawn. Sylwaf ar anallu'r wasg i ddeall yr egwyddor ei bod o bosibl yn beth da i bobl o Loegr ddod i Gymru. Naill ai deuant yma ar gyfer gêm derfynol Cwpan yr FA yn ein Stadiwm hardd neu, os ydynt dan 25 ac yn ddefnyddwyr cyffuriau presgripsiwn rheolaidd, deuant i gael mynediad i'r polisïau blaengar a gyflwynwyd ar 1 Ebrill. Pe bai'r symiau o arian yn fawr, efallai y byddai'n rhaid inni ailystyried y mater, ond ar hyn o bryd maent yn gymedrol. Synnaf na dderbyniwyd hynny fel arwydd o fenter polisi da.

David Melding: Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddweud wrth eich cyd-Aelod, Ysgrifennydd Gwladol Cymru sydd yn bresennol yn y Siambr heddiw, ac fe'i croesawaf, er efallai bod angen addasu a datblygu PFI, mae'n system wych i gyflwyno buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen yn ddifawr i wella ein gwasanaethau cyhoeddus.

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn un o edmygwyr mawr y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus a byddaf yn darllen ei adroddiad. Nid wyf wedi ei ddarllen eto, ond gwelais y sylw yn y wasg, a ddatganodd fod PFI yn gweithio'n well mewn perthynas â ffordd. Gweithiodd yn dda gyda'r A55 ar draws Ynys Môn, a chytuna Ieuan Wyn Jones â hynny, hyd yn oed os anghytuna Owen John

responsible, rather than for schools and hospitals. The key issues are who do you define as being members of the public service team and to whom do you attach the life-cycle management of the building? If you construct a building using PFI, you may include the building and boiler house engineers in the initiative but not the hospital cleaners. There have been attempts to include as many people as possible that could be defined as part of the clinical team because hospital cleaning reduces infection and so on. We are currently considering where to draw the dividing line.

Thomas. Mae hefyd yn gweithio'n dda mewn perthynas â charchardai, nad ydym yn gyfrifol amdanynt, yn hytrach nag ysgolion ac ysbytai. Y materion allweddol yw pwy a ddiffiniwch fel aelodau o'r tîm gwasanaethau cyhoeddus ac i bwy y rhoddwch reolaeth dros gylch-bywyd yr adeilad? Os adeiladwch adeilad gan ddefnyddio PFI, gallech gynnwys peirianwyr yr adeilad a'r bwylerdy yn y fenter ond nid glanhawyr yr ysbyty. Gwnaethpwyd ymdrechion i gynnwys cymaint o bobl â phosibl y gellid eu diffinio fel rhan o'r tîm clinigol oherwydd fod glanhau ysbytai yn lleihau heintiau ac ati. Yr ydym ar hyn o bryd yn ystyried ble i dynnu'r llinell.

Dyfodol yr Undeb Ewropeaidd The Future of the European Union

Q4 Phil Williams: Will the First Minister make a statement on the role of the National Assembly in relation to discussions on the future of the European Union, at the European Council meeting held at Gothenburg? (OAQ12149)

C4 Phil Williams: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar rôl y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â thrafodaethau ar ddyfodol yr Undeb Ewropeaidd yng nghyfarfod Cyngor Ewrop yn Gothenburg? (OAQ12149)

2:20 p.m.

The First Minister: I was not inside the building at Gothenburg nor was I outside throwing rocks at it, but the debate on the future of Europe is a medium to long-term issue. It will culminate at an intergovernmental conference around mid-2004. Widespread discussion will take place across the European Union; between the different levels of government within the UK; between Wales, Scotland and Northern Ireland to establish the views of what is referred to in Europe as 'the provincial tier'; and between Wales, Scotland, Northern Ireland and other governments—provinces and regions in Italy, Germany, Spain and France. Such horizontal and vertical contacts are necessary to establish the line that the UK will take. This is not a matter of pressing urgency but it requires a great deal of attention over the next two and a half years.

Prif Weinidog Cymru: Nid oeddwn y tu mewn i'r adeilad yn Gothenburg ac nid oeddwn y tu allan yn taflu cerrig ato, ond mae'r ddadl ar ddyfodol Ewrop yn fater tymor canolig i hirdymor. Yr uchafbwynt fydd cynhadledd ryng-lywodraethol tua chanol 2004. Cynhelir trafodaeth eang ar draws yr Undeb Ewropeaidd; rhwng y gwahanol lefelau o lywodraeth o fewn y DU; rhwng Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i ganfod safbwyntiau ar yr hyn y cyfeirir ato yn Ewrop fel 'yr haen daleithiol'; a rhwng Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a llywodraethau eraill—taleithiau a rhanbarthau yn yr Eidal, yr Almaen, Sbaen a Ffrainc. Mae cysylltiadau o'r fath ar bob lefel yn angenrheidiol er mwyn sefydlu safbwynt y DU. Nid yw hyn yn fater o bwys mawr ond mae angen rhoi llawer o sylw iddo dros y ddwy flynedd a hanner nesaf.

Phil Williams: The Belgian Government plans to use its presidency to advance the status of semi-autonomous regions within the European Union. Will you take advantage of this pressing opportunity to join your Labour

Phil Williams: Bwriada Llywodraeth Gwlad Belg ddefnyddio'i llywyddiaeth i ddatblygu statws rhanbarthau lled-annibynnol o fewn yr Undeb Ewropeaidd. A fanteisiwch ar y cyfle pwysig hwn i ymuno â'ch cyd-Aelod Llafur,

colleague, the First Minister of Scotland, Henry McLeish, in supporting the recent declaration of European regions demanding more direct involvement in the negotiations and full and direct access to the European Court of Justice?

The First Minister: That declaration followed the one made at the Barcelona meeting, which I attended. Henry McLeish was unable to attend due to matters arising following Donald Dewar's funeral. I was not part of the core group of six provinces, regions or small nations which made the declaration at Barcelona, but the Assembly has been invited to attend the Liège summit of the regions in November. I may not be able to attend, in which case Mike German will attend in my place.

Christine Chapman: Will you join me in condemning the actions of the Plaid Cymru Members of the European Parliament who voted in favour of an amendment to a directive that will make Aberthaw, Tower Colliery's biggest customer, economically non-viable? Some progress has been made on the matter, but it is still to be finalised. Do you agree that such an ongoing threat to Tower Colliery on the back of industrial closures in my constituency would be a huge blow to the local economy and to what is left of the south Wales mining industry?

The First Minister: You have raised an important issue, because it helps to explain how the conciliation procedure works in Europe. There was a difference of views between the European Parliament and its environment committee. Plaid Cymru MEPs, no doubt in ignorance, voted for an amendment which, if implemented, would threaten Aberthaw and Tower. The conciliation procedure has therefore begun. No agreement was reached by 3 a.m. this morning. There will be another meeting in Strasbourg next week. I hope that the Plaid Cymru leadership will indicate to its MEPs that Wales expects them to do their duty then.

Dafydd Wigley: Why did Labour abstain?

Jonathan Morgan: Thank you for standing up to the First Minister.

Prif Weinidog yr Alban, Henry McLeish, i gefnogi datganiad diweddar rhanbarthau Ewrop wrth fynnu mwy o ran uniongyrchol yn y negodiadau a mynediad llawn ac uniongyrchol i Lys Cyfiawnder Ewrop?

Prif Weinidog Cymru: Dilynodd y datganiad hwnnw yr un a wnaethpwyd yn y cyfarfod a fynychais yn Barcelona. Ni allai Henry McLeish fod yn bresennol oherwydd materion a gododd o ganlyniad i angladd Donald Dewar. Nid oeddwn yn rhan o'r grŵp craidd o chwe thalaith, rhanbarth neu genhedloedd bach a wnaeth y datganiad yn Barcelona, ond gwahoddwyd y Cynulliad i fynychu uwchgynhadledd y rhanbarthau yn Liège fis Tachwedd. Efallai na allaf fod yn bresennol, ond, os felly, bydd Mike German yn mynychu ar fy rhan.

Christine Chapman: A ymunwch â mi i gondemnio gweithgareddau Aelodau Plaid Cymru yn y Senedd Ewropeaidd a bleidleisiodd o blaid gwelliant i gyfarwydddeb a fydd yn gwneud Aberddawan, cwsmer mwyaf Glofa'r Tŵr, yn economaidd anymarferol? Gwnaethpwyd peth cynnydd ar y mater, ond mae'n parhau heb ei gwblhau. A gytunwch y byddai bygythiad parhaol o'r fath i Lofa'r Tŵr ar ôl cau gweithfeydd diwydiannol yn fy etholaeth yn dolc enfawr i'r economi leol ac i'r hyn sydd yn weddill o ddiwydiant glo de Cymru?

Prif Weinidog Cymru: Codasoch fater pwysig, gan ei fod yn helpu i egluro sut y mae'r drefn gymodi yn Ewrop yn gweithio. Yr oedd gwahaniaeth barn rhwng Senedd Ewrop a'i phwyllgor amgylcheddol. Pleidleisiodd ASEau Plaid Cymru, mewn anwybodaeth mae'n siŵr, o blaid gwelliant a fyddai, pe'i gweithredwyd yn fygythiad i Aberddawan a'r Tŵr. Mae'r drefn gymodi felly wedi dechrau. Nid oedd cytundeb am 3 a.m. y bore yma. Bydd cyfarfod arall yn Strasbourg yr wythnos nesaf. Gobeithiaf y bydd arweinyddiaeth Plaid Cymru yn dangos i'w ASEau fod Cymru yn disgwyl iddynt wneud eu dyletswydd yr adeg honno.

Dafydd Wigley: Pam yr ymataliodd Llafur?

Jonathan Morgan: Diolch ichi am herio Prif Weinidog Cymru.

The Presiding Officer: Order.

Y Llywydd: Trefn.

Jonathan Morgan: I return to the subject of intergovernmental conferences and summits. Recognising the important role that Wales has to play, and that of the Assembly in particular, in ensuring that the interests of Wales are put to the front, does the Government intend to table debates on the positions we adopt before intergovernmental conferences take place?

Jonathan Morgan: Dychwelaf i bwnc y cynadleddau ac uwchgynadleddau rhynglywodraethol. Wrth gydnabod rôl bwysig Cymru, ac yn arbennig y Cynulliad, wrth sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i fuddiannau Cymru, a yw hi'n fwriad gan y Llywodraeth gyflwyno dadleuon ar y safbwyntiau a fabwysiadwn cyn i gynadleddau rhynglywodraethol gael eu cynnal?

The First Minister: Certainly. The Assembly as a whole will take a view on those matters. I shall not attend conferences without prior consultation; I hope that we will have a debate and either secure the Assembly's agreement to the position put to it by the Cabinet or amend it suitably. The kick-off for the process will be the Laeken summit during the Belgian presidency later this year. The Belgian ambassador is attending the meeting of the Committee on European Affairs later this week and will set out the priorities of the Belgian presidency. That shows that the Assembly is fully involved in the presidency before the six-month presidency actually commences. I am sure that the same process is happening in Scotland, Northern Ireland and with the UK Government. That will undoubtedly include the point made by Phil Williams: at what level do you incorporate the regions, small nations or provinces of Europe into the overall decision-making process, and will that happen prior to enlargement? Otherwise it will be impossible to achieve a reasonable model constitution which Poland, the Tsiec Republic and Hungary can follow when enlargement occurs in the middle of this decade.

Prif Weinidog Cymru: Yn sicr. Bydd gan y Cynulliad cyfan safbwynt ar y materion hynny. Ni fynychaf gynadleddau heb ymgynghori ymlaen llaw; gobeithiaf y cawn ddadl a naill ai sicrhau cytundeb y Cynulliad ar y safbwynt a gyflwynir iddo gan y Cabinet neu ei wella fel y bo'n addas. Man cychwyn y broses fydd uwchgynhadledd Laeken yn ystod arlywyddiaeth Gwlad Belg yn ddiweddarach eleni. Mae llysgennad Gwlad Belg yn mynychu cyfarfod o Bwyllgor Materion Ewropeaidd yn ddiweddarach yr wythnos hon a bydd yn nodi blaenoriaethau arlywyddiaeth Gwlad Belg. Dengys hynny fod y Cynulliad yn chwarae rhan lawn yn yr arlywyddiaeth cyn i'r arlywyddiaeth chwe-mis ddechrau o ddifrif. Yr wyf yn siŵr fod yr un broses yn digwydd yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a chyda Llywodraeth y DU. Bydd hynny yn ddiamau yn cynnwys y pwynt a wnaethpwyd gan Phil Williams: ar ba lefel yr ymgorfforwch ranbarthau, cenedloedd bach neu daleithiau Ewrop i'r holl broses o wneud penderfyniadau, ac a ddigwydd hynny cyn ehangu? Fel arall, bydd yn amhosibl cyflawni model o gyfansoddiad rhesymol y gall Gwlad Pŵyl, Gweriniaeth Tsiec a Hwngari ei ddilyn pan ddigwydd yr ehangu yng nghanol y degawd hwn.

**Perthynas rhwng 'Gwellcymru.com' a 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'
Relationship between 'Betterwales.com' and 'Putting Wales First'**

Q5 Brian Hancock: Will the First Minister give an update on the relationship between proposals contained in 'Betterwales.com' and the programme outlined in 'Putting Wales First'? (OAQ12144)

C5 Brian Hancock: A wnaiff Prif Weinidog Cymru amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf am y berthynas rhwng y cynigion yn 'Gwellcymru.com' a'r rhaglen a amlinellir yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ12144)

The First Minister: 'Betterwales.com' was released earlier than 'Putting Wales First', but the latter built on the former. The 'Putting

Prif Weinidog Cymru: Cyhoeddwyd 'Gwellcymru.com' cyn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' ond adeiladodd yr ail ar y cyntaf.

Wales First' commitments are set out in 'Betterwales.com', but go further in increasing the funds available. We plan to produce a new strategic plan later this year to replace 'Betterwales.com', incorporating what is contained in the partnership agreement.

Brian Hancock: Bearing in mind the importance to the Welsh economy of manufacturing industries—which we seem to be losing at a faster rate than furious—and the 153,335 small and medium-sized enterprises, what will the relationship be between the anticipated national economic development strategy document, 'Betterwales.com' and 'Putting Wales First'?

The First Minister: The documents will form part of the guiding, overarching principles by which the Assembly and the Cabinet attempt to run Wales. Your point about the loss of manufacturing jobs is true. There is currently enormous pressure on the manufacturing sector. The deputy governor of the Bank of England said last week that a problem exists in balancing the sector exposed to international competition—which is having a difficult time, mostly the manufacturing sector—with the sector that is growing, such as retail sales. Maintaining a balance between those two sectors is not a matter for us but for the Bank of England. They must be balanced to assist the economy. We have a healthy economy. However, it could be healthier if the euro had not collapsed to 20 to 25 per cent below its launch rate. That means that the exposed sector of the economy, particularly commodity export manufacturing such as steel or television sets, finds it difficult to sell at a profit.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): A key objective in 'Putting Wales First' was to ensure the exploitation of Objective 1 opportunities. Why is it that in its first year, less than 1 per cent of Objective 1 money has been spent? This is not satisfactory. What are you doing to remedy that situation?

The First Minister: That implies a severe criticism of the actual projects. You must

Nodir ymrwymiadau 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yn 'Gwellcymru.com', ond ânt ymhellach wrth gynyddu'r arian sydd ar gael. Bwriadwn gynhyrchu cynllun strategol newydd yn ddiweddarach eleni i ddisodli 'Gwellcymru.com', gan ymgorffori'r hyn sydd yn y cytundeb partneriaeth.

Brian Hancock: Gan gofio pwysigrwydd y diwydiannau cynhyrchu i economi Cymru—yr ydym fel pe baem yn eu colli yn gyflymach a chyflymach—a'r 153,335 o fusnesau bach a chanolig, beth fydd y berthynas rhwng y ddogfen strategaeth datblygu economaidd genedlaethol arfaethedig, 'Gwellcymru.com' a 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'?

Prif Weinidog Cymru: Bydd y dogfennau yn ffurfio rhan o'r egwyddorion arweiniol, trosfwaol a ddefnyddia'r Cynulliad a'r Cabinet i redeg Cymru. Mae eich pwynt ynglŷn â cholli swyddi gweithgynhyrchu yn wir. Mae pwysau anferth ar y sector gweithgynhyrchu ar hyn o bryd. Dywedodd dirprwy lywodraethwr Banc Lloegr yr wythnos diwethaf fod problem o ran cydbwysu'r sector sydd yn agored i gystadleuaeth ryngwladol—sydd yn mynd drwy gyfnod anodd, sef y sector gweithgynhyrchu yn bennaf—â'r sector sydd yn tyfu, megis manwerthu. Nid mater i ni yw cadw cydbwysedd rhwng y sectorau hynny ond mater i Fanc Lloegr. Rhaid iddynt gydbwysu er mwyn cynorthwyo'r economi. Mae gennym economi iach. Fodd bynnag, gallai fod yn iachach pe na bai gwerth yr ewro wedi gostwng 20 neu 25 y cant yn is na'i gyfradd adeg ei lansio. Golyga hynny fod y sector o'r economi sydd wedi'i amlygu ei hun, yn arbennig y sector sy'n cynhyrchu nwyddau allforio megis dur neu setiau teledu, yn ei chael yn anodd gwneud elw.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Un o amcanion allweddol 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' oedd sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd Amcan 1. Pam bod llai nag 1 y cant o arian Amcan 1 wedi ei wario yn ei flwyddyn gyntaf? Nid yw hyn yn foddhaol. Beth a wnewch i unioni'r sefyllfa honno?

Prif Weinidog Cymru: Awgryma hynny feirniadaeth lem ar y prosiectau eu hunain.

understand that payments are made in arrears. We have committed £187 million for Objective 1 projects and £13 million for Objective 3 projects, a total of £200 million. That is a good record. I was pleased to hear Elisabeth Slavkoff, a senior EU official, say in Wales last week that she regarded Wales as a model for other regions.

The people running the projects must decide the issue of payments. Payments are made in arrears. They must determine how the money is spent and then make the claims in arrears. I do not want to criticise people involved with projects, as the system is new to them. We have played our part in being a model to other regions.

Nick Bourne: That may be what officials are telling you, but it is not what people on the ground are experiencing. I speak with authority, as I was in west Wales at a meeting concerning this issue last week. When you were Secretary for Economic Development you pledged that you would hit the ground running on these matters. Under your successor in that post, all we have done is hit the ground. He has only heard half the message. More money has been committed than spent. That will be the case. However, following the high expectations that were built up, people throughout Wales are disappointed in Objective 1 projects. What are we doing to remedy that situation?

The First Minister: I do not accept that. Elisabeth Slavkoff's point last week was that you could spend money quickly but lose sight of the strategic approach. Alternatively, you can spend much time perfecting the strategic approach but destroy people's expectations by not getting anything up and running. Elisabeth Slavkoff said that Wales was a model of how to do both together. We are ahead of the three English Objective 1 regions in making commitments, and are regarded as a model. That is the message that Nick should be conveying to the country.

Rhaid ichi ddeall mai ôl-daliadau a wneir. Yr ydym wedi ymrwymo £187 miliwn i brosiectau Amcan 1 a £13 miliwn i brosiectau Amcan 3, cyfanswm o £200 miliwn. Mae hynny yn dda. Yr oeddwn yn falch o glywed Elisabeth Slavkoff, uwch swyddog yn yr UE, yn dweud yng Nghymru yr wythnos diwethaf ei bod yn gweld Cymru fel model ar gyfer rhanbarthau eraill.

Rhaid i'r bobl sydd yn rhedeg y prosiectau benderfynu ar daliadau. Telir mewn ôl-daliadau. Rhaid iddynt benderfynu sut y caiff yr arian ei wario a gwneud ceisiadau amdano wedyn. Nid wyf am feirniadu pobl sydd yn ymwneud â phrosiectau, gan fod y system yn newydd iddynt. Yr ydym wedi cyflawni ein rhan ni wrth fod yn fodel i ranbarthau eraill.

Nick Bourne: Efallai mai dyna a ddywed swyddogion wrthyhych, ond nid dyna brofiad pobl ar lawr gwlad. Siaradaf ag awdurdod, gan y bûm mewn cyfarfod ynglŷn â'r mater hwn yng ngorllewin Cymru yr wythnos diwethaf. Pan oeddech yn Ysgrifennydd Datblygu Economaidd, bu ichi addo y byddech yn rhoi'r materion hyn ar waith yn ddiymdroi. Ers i'ch olynydd gymryd y swydd honno, y cyfan a wnaethom oedd troi yn ein hunfan. Dim ond hanner y neges a glywodd. Ymrwymwyd mwy o arian nag a wariwyd. Felly y bydd. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r disgwyliadau uchel a grëwyd, mae pobl ledled Cymru wedi eu siomi gan brosiectau Amcan 1. Beth a wnawn i unioni'r sefyllfa honno?

Prif Weinidog Cymru: Ni dderbyniaf hynny. Pwynt Elisabeth Slavkoff yr wythnos diwethaf oedd y gallwch wario arian yn gyflym ond colli gafael ar yr ymagwedd strategol. Ar y llaw arall, gallwch dreulio amser maith yn perffeithio'r ymagwedd strategol ond chwalu disgwyliadau pobl drwy fethu â rhoi unrhyw beth ar waith. Dywedodd Elisabeth Slavkoff fod Cymru yn fodel o sut i wneud y ddau gyda'i gilydd. Yr ydym ar y blaen i'r tri rhanbarth Amcan 1 yn Lloegr o ran gwneud ymrwymadau, ac fe'n gwelir fel model. Dyna'r neges y dylai Nick fod yn ei chyfleu i'r wlad.

Rôl Cymru mewn Materion Rhyngwladol Role of Wales in International Affairs

Q6 John Griffiths: What recent discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales on the role of Wales in international affairs? (OAQ12157)

The First Minister: I have ongoing discussions with the Secretary of State for Wales and his officials on the question of Wales in the world and the UK Government's role in assisting us to promote Wales abroad. We will return to this theme at greater length in our debates later this week. The issue is whether we punch above our weight. During the past year, with the co-operation of the UK Government, we have been invited to be part of representations or, occasionally, to represent the UK in Council of Ministers meetings many more times than I or other Members expected. That has continued during June. Likewise, it can be seen from the way that ambassadors to the UK are coming to the Assembly to see what is happening in Wales. This month alone we have been visited by the Polish and Czech ambassadors, and the Belgian ambassador will address the Assembly's Committee on European Affairs this week. This did not happen prior to devolution.

2:30 p.m.

John Griffiths: I agree that it is of benefit that the Assembly has raised Wales's international profile, as other benefits such as trade accrue from that. Do you consider that there is scope for the Assembly to make its views known on international issues, such as debt relief for developing countries and, if so, what avenues might be available to us?

The First Minister: It would be for the Llywydd to decide what is in order in terms of Assembly business outside Wales. We had a statement at the beginning of this year on the earthquake in Gujarat. However, I can see that, from the way we dealt with that, we might be stretching our Standing Orders to discuss such issues. However, there is no reason why Members cannot choose such topics for short debates. Several Members have managed, through that medium, to raise

C6 John Griffiths: Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael yn ddiweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar rôl Cymru mewn materion rhyngwladol? (OAQ12157)

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn cael trafodaethau parhaus ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'i swyddogion o ran safle Cymru yn y byd a rôl Llywodraeth y DU wrh ein cynorthwyo i hyrwyddo Cymru dramor. Dychwelwn at y thema hon yn fanylach yn ein dadleuon yn ddiweddarach yr wythnos hon. Mae'r mater yn ymwneud â pha mor uchelgeisiol y dylem fod. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda chydweithrediad Llywodraeth y DU, fe'n gwahoddwyd i fod yn rhan o gynrychiolaethau neu, yn achlysurol, i gynrychioli'r DU yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion yn llawer amlach nag y byddwn i neu Aelodau eraill wedi ei ddisgwyl. Parhaodd hynny yn ystod Mehefin. Yn yr un modd, gellir gweld hynny yn y modd y daw llysgenhadon i'r DU i'r Cynulliad i weld yr hyn sydd yn digwydd yng Nghymru. Y mis hwn yn unig daeth llysgenhadon Gwlad Pwyl a'r Weriniaeth Tsiec i ymweld â ni, a bydd llysgenhad Gwlad Belg yn cyfarch Pwyllgor Materion Ewropeaidd y Cynulliad yr wythnos hon. Ni ddigwyddodd hyn cyn datganoli.

John Griffiths: Cytunaf ei bod yn fanteisiol bod y Cynulliad wedi codi proffil rhyngwladol Cymru, gan fod manteision eraill megis masnach yn deillio o hynny. A ystyriwch fod cyfle i'r Cynulliad wneud ei farn ar faterion rhyngwladol yn hysbys, megis lleddfu dyledion ar gyfer gwledydd datblygol ac, os hynny, pa lwybrau allai fod ar gael inni?

Prif Weinidog Cymru: Y Llywydd ddylai benderfynu beth sydd mewn trefn o ran busnes y Cynulliad y tu allan i Gymru. Cawsom ddatganiad ddechrau'r flwyddyn ar y daeargryn yn Gujarat. Fodd bynnag, gwelaf, o'r modd y bu inni ymdrin â hynny, y byddem efallai yn ymestyn ein Rheolau Sefydlog er mwyn trafod materion o'r fath. Fodd bynnag, nid oes unrhyw reswm pam na all Aelodau ddewis pynciau o'r fath ar gyfer dadleuon byr. Mae nifer o'r Aelodau wedi

issues of interest to Wales, but where the material at hand was a matter that was not perhaps considered part of the Assembly's domestic agenda.

Rhodri Glyn Thomas: To return to your remarkable international statement earlier on Aberthaw and the legislation to control power station emissions, are you saying that the Assembly, as a champion of sustainable development, is in favour of dirty power stations that will undermine Aberthaw and lead to the loss of jobs when European enlargement is completed?

The Presiding Officer: This question relates to discussions with the Secretary of State for Wales on international affairs. Your question was out of order.

Rod Richards: Will the First Minister give us an update on bilateral relationships between Wales and Egypt?

The First Minister: We do not have proposals for bilateral relationships between Wales and Egypt. However, we would welcome any country, large or small, that chooses, in order to progress its dealings with the National Assembly, to follow the example set by the Republic of Ireland and the United States of America by establishing a consular office in Wales. Those are the only two full consular offices in Cardiff. However, there are about 25 in Edinburgh. It would be unrealistic to expect Wales to have the same number immediately, but we would like to see an enhancement of the number of consular offices of other countries, of which Egypt may be one.

Richard Edwards: Four distinguished and genuinely independent scientists are present in the Assembly today to discuss genetically-modified organisms. Do you agree that the Assembly's aspiration for a GM-free Wales and determined pursuit of that aspiration will mean that Wales will take a leading role in flagging up concerns about GMOs on the international stage?

llwyddo, drwy'r cyfrwng hwnnw, i godi materion sydd o ddiddordeb i Gymru, pan nad efallai yr ystyriwyd y mater dan sylw yn rhan o agenda ddomestig y Cynulliad.

Rhodri Glyn Thomas: I ddychwelyd at eich datganiad rhyngwladol rhyfeddol yn gynharach ynglŷn ag Aberddawan a'r ddeddfwriaeth i reoli gollyngiadau gorsafoedd pŵer, a ddywedwch fod y Cynulliad, fel arweinydd ar ddatblygu cynaliadwy, o blaid gorsafoedd pŵer budr a fydd yn tanseilio Aberddawan ac yn arwain at golli swyddi pan gwblheir yr ehangu Ewropeaidd?

Y Llywydd: Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â thrafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â materion rhyngwladol. Yr oedd eich cwestiwn allan o drefn.

Rod Richards: A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi'r newyddion diweddaraf inni ynglŷn â'r berthynas ddwyffordd rhwng Cymru a'r Aifft?

Prif Weinidog Cymru: Nid oes gennym gynigion ar gyfer perthynas ddwyffordd rhwng Cymru a'r Aifft. Fodd bynnag, byddem yn croesawu unrhyw wlad, boed yn fawr neu'n fach, sydd, er mwyn datblygu eu busnes â'r Cynulliad Cenedlaethol, yn dewis dilyn yr esiampl a osodwyd gan Weriniaeth Iwerddon ac Unol Daleithiau America drwy sefydlu swyddfa conswl yng Nghymru. Hwyl yw'r unig ddwy swyddfa conswl lawn yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, mae tua 25 yng Nghaeredin. Byddai'n afrealistig disgwyl i Gymru fod â'r un nifer ar unwaith, ond hoffem weld mwy o swyddfeydd conswl gan wledydd eraill, a gallai'r Aifft fod yn un ohonynt.

Richard Edwards: Mae pedwar gwyddonydd blaenllaw a gwirioneddol annibynnol yn bresennol yn y Cynulliad heddiw er mwyn trafod organebau a addaswyd yn enetig. A gytunwch fod dyhead y Cynulliad i weld Cymru'n rhydd o addasu genetig a'r ymdrech benderfynol i wireddu'r uchelgais honno'n golygu y bydd Cymru yn chwarae rhan flaenllaw wrth dynnu sylw at bryderon ynglŷn ag organebau a addaswyd yn enetig ar y llwyfan rhyngwladol?

The First Minister: It is entirely as a consequence of the skilful way in which Carwyn Jones and the Assembly handled the question of appropriate distances between GM crop trials and organic or other types of farms that may be polluted by wind-borne pollen that this issue has been placed back on the European agenda.

Prif Weinidog Cymru: Rhoddwyd y mater hwn yn ôl ar yr agenda Ewropeaidd yn sgîl y modd deheuig y mae Carwyn Jones a'r Cynulliad wedi ymdrin â'r mater o bellteroedd rhwng treialon cnydau a addaswyd yn enetig a ffermydd organig neu fathau eraill o ffermydd a allai gael eu heintio gan baill a gludir gan y gwynt.

Cynrychioli'r Cynulliad Cenedlaethol mewn Uwchgynadleddau Tramor Representing the National Assembly at Overseas Summits

Q7 Janet Ryder: Will the First Minister be representing the National Assembly in any overseas summits in the next year? (OAQ12140)

C7 Janet Ryder: A fydd Prif Weinidog Cymru yn cynrychioli'r Cynulliad Cenedlaethol mewn unrhyw uwchgynadleddau tramor yn ystod y flwyddyn nesaf? (OAQ12140)

The First Minister: No. This question follows on in an interesting way from Dafydd Wigley's reference during a Plenary session just before the general election to *jolihoetio*, as he called it, abroad. Now that the general election has passed, the concerns about the cost of travelling abroad seem to have been forgotten. If you mean overseas summits in terms of meetings with presidents of other countries, I met with the presidents of Chile and Argentina and the governor of Chubut province two weeks ago in South America. As I said earlier to Phil, the Assembly has received an invitation to attend the summit meeting of the regions, provinces and small nations that are not nation states of the European Community. It will take place in Liège and Assembly representatives are expected to be present. Finally—and this would keep Rhodri Glyn happy were he still in the Chamber—the Assembly has agreed, with warm encouragement, to send representatives to the sustainable development summit in 2002.

Prif Weinidog Cymru: Na fyddaf. Mae'r cwestiwn hwn yn dilyn yn ddiddorol o gyfeiriad Dafydd Wigley yn ystod Cyfarfod Llawn cyn yr etholiad cyffredinol tuag at jolihoetio, fel y galwai ef y peth, dramor. Gan fod yr etholiad cyffredinol wedi bod bellach, ymddengys yr anghofiwyd am y gost o deithio dramor. Os golygwch uwchgynadleddau tramor o ran cyfarfod ag arlywyddion gwledydd eraill, cyfarfum ag arlywyddion Chile a'r Ariannin a llywodraethwr talaith Chubut bythefnos yn ôl yn Ne America. Fel y dywedais yn gynharach wrth Phil, derbyniodd y Cynulliad wahoddiad i fynychu cyfarfod uwchgynhadledd o'r rhanbarthau, taleithiau a'r cenedloedd bach nad ydynt yn aelod wladwriaethau o'r Gymuned Ewropeaidd. Fe'i cynhelir yn Liège a disgwylir i gynrychiolwyr o'r Cynulliad fod yn bresennol. Yn olaf—a byddai hyn yn cadw Rhodri Glyn yn hapus pe byddai yn dal yn y Siambr—mae'r Cynulliad, gydag anogaeth frwd, wedi cytuno i anfon cynrychiolwr i'r uwchgynhadledd ar ddatblygu cynaliadwy yn 2002.

Janet Ryder: Do you intend to introduce a transparent system to identify at which summits your attendance would be of benefit to Wales? Will you go a little further and explain what criteria you use in choosing which summits you attend?

Janet Ryder: A ydych yn bwriadu cyflwyno system eglur er mwyn nodi ym mha uwchgynadleddau y byddai eich presenoldeb o'r budd mwyaf i Gymru? A ewch gam ymhellach ac egluro pa feini prawf a ddefnyddiwch wrth ddewis pa uwchgynadleddau a fynychwch?

The First Minister: As we only propose to attend one international summit—that is,

Prif Weinidog Cymru: Gan mai dim ond un uwchgynhadledd ryngwladol y bwriadwn ei

beyond Europe—you could say that we are being fairly sparing in our ambitions. Summits within Europe are a different ballgame. The Assembly has a specific, ongoing interest in those summits, as we must ensure that we get what we need in order to sustain jobs in Wales. That is why having considerable influence in Europe will be critical next week when the issues surrounding Aberthaw and Tower colliery will be raised again. How much influence you have in Europe depends on how good your networks are, and networks cannot be developed unless you attend summits. Therefore, over the next five years, we want to attend different kinds of European meetings, including summit meetings and meetings of the Council of Ministers, more frequently. To date, we have done better than I thought that we would.

mynychu—hynny yw, y tu hwnt i Ewrop—gallech ddweud ein bod yn weddol ddarbodus yn ein huchelgeisiau. Mae uwchgynadleddau o fewn Ewrop yn faes gwahanol. Mae gan y Cynulliad ddiddordeb penodol, parhaus yn yr uwchgynadleddau hynny, gan fod rhaid inni sicrhau y cawn yr hyn sydd ei angen arnom er mwyn cynnal swyddi yng Nghymru. Dyna pam y bydd meddu ar gryn ddylanwad yn Ewrop yn hanfodol yr wythnos nesaf pan godir materion yn ymwneud ag Aberddawan a glofa'r Tŵr unwaith eto. Mae maint y dylanwad sydd gennych yn Ewrop yn dibynnu ar safon eich rhwydweithiau, ac ni ellir datblygu rhwydweithiau oni bai eich bod yn mynychu uwchgynadleddau. Felly, yn ystod y pum mlynedd nesaf, yr ydym eisiau mynychu gwahanol fathau o gyfarfodydd Ewropeaidd yn amlach, gan gynnwys cyfarfodydd uwchgynhadledd a chyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion. Hyd yma, gwnaethom yn well nag y byddwn wedi tybio.

Cyflawni Polisiâu ('Rhoi Cymru'n Gyntaf') **Fulfilling Policies ('Putting Wales First')**

Q8 Nick Bourne: How is the First Minister keeping the public informed on the progress of his administration in fulfilling the policies contained in 'Putting Wales First'? (OAQ12138)

C8 Nick Bourne: Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn hysbysu'r cyhoedd am y camau ymlaen y mae ei weinyddiaeth yn eu cymryd o ran cyflawni'r polisiâu a nodir yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ12138)

The First Minister: A statement on progress so far on the partnership agreement was made in Plenary on 20 March 2001. We will provide updates periodically on our achievements.

Prif Weinidog Cymru: Gwnaethpwyd datganiad ar gynnydd y cytundeb partneriaeth hyd yma yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mawrth 2001. Byddwn yn darparu'r newyddion diweddaraf ar ein cyflawniadau.

Nick Bourne: One commitment in the partnership agreement was to press the UK Government to designate St David's Day a national bank holiday for Wales. Will you give an update on that?

Nick Bourne: Un ymrwymiad yn y cytundeb partneriaeth oedd rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i bennu Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl y banc genedlaethol ar gyfer Cymru. A roddwch y newyddion diweddaraf inni ynglŷn â hynny?

The First Minister: That matter should be addressed during the statement that will be made later by the Secretary of State for Wales. However, I understand that discussions are continuing and that this is not a closed issue.

Prif Weinidog Cymru: Ymdrinnir â'r mater hwnnw yn y datganiad a wneir yn ddiweddarach gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Fodd bynnag, deallaf fod trafodaethau'n parhau ac nad yw'r mater hwn wedi'i ddatrys.

Karen Sinclair: On keeping the public informed of the administration's progress,

Karen Sinclair: O ran hysbysu'r cyhoedd am gynnydd y weinyddiaeth, a allwch

can you announce a decision following Peter Black's recent question on the publication of Cabinet papers?

The First Minister: Following Peter Black's recent question, I am pleased to announce that Cabinet papers, by and large, will be published six weeks after each Cabinet meeting, as currently happens with Cabinet minutes. Exceptions will be made for commercially confidential information and, for obvious reasons, that may apply to most, if not all, financial documents. Apart from that, we are extending the principle of freedom of information from Cabinet minutes only to include Cabinet papers and Cabinet sub-committee papers.

Janet Davies: 'Putting Wales First' includes policies on community regeneration. However, I have met many people who are unconvinced that money will ever reach the grassroots level. What action are you taking to ensure that money does not stop at an intermediate level before it reaches the grassroots?

The First Minister: During a recent Plenary statement on Communities First—when I, unfortunately, was in South America—Edwina announced that £83 million would be spent over the next three years. That money is not for intermediaries to disperse; community groups will have direct access to it. In order for communities to be successfully regenerated, the approach must be bottom-up, not top-down. Community leadership must also be encouraged. That involves people living and working in the community, not intermediaries. I hope that your question and my answer will dispel any beliefs that a top-down mechanism will be used to spend Communities First resources.

gyhoeddi penderfyniad yn dilyn cwestiwn diweddar Peter Black ynglŷn â chyhoeddi papurau'r Cabinet?

Prif Weinidog Cymru: Yn dilyn cwestiwn diweddar Peter Black, yr wyf yn falch o gyhoeddi y bydd papurau'r Cabinet, at ei gilydd, yn cael eu cyhoeddi chwe wythnos ar ôl pob cyfarfod Cabinet, yn yr un modd â chofnodion y Cabinet. Gwneir eithriadau ar gyfer gwybodaeth fasnachol gyfrinachol ac, am resymau amlwg, ar gyfer y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o ddogfennau ariannol. Ar wahân i hynny, byddwn yn ymestyn yr egwyddor o ryddid gwybodaeth o gofnodion y Cabinet yn unig i gynnwys papurau Cabinet a phapurau is-bwyllgorau'r Cabinet.

Janet Davies: Mae 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yn cynnwys polisiâu ar adfywio cymunedau. Fodd bynnag, cyfarfum â llawer o bobl nad ydynt yn argyhoeddedig y bydd yr arian yn cyrraedd llawr gwlad. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd er mwyn sicrhau nad yw'r arian yn dod i ben ar lefel ganolradd cyn iddo gyrraedd llawr gwlad?

Prif Weinidog Cymru: Yn ystod datganiad yn ddiweddar mewn Cyfarfod Llawn ar 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf'—pan oeddwn i, yn anffodus, yn Ne America—cyhoeddodd Edwina y byddai £83 miliwn yn cael ei wario yn ystod y tair blynedd nesaf. Nid diben yr arian hwnnw yw i ganolwyr ei wasgaru; bydd gan grwpiau cymunedol fynediad uniongyrchol iddo. Er mwyn adfywio cymunedau'n llwyddiannus, rhaid i'r ymagwedd ddod o'r bôn i'r brig, ac nid o'r brig i'r bôn. Rhaid annog arweinyddiaeth gymunedol hefyd. Mae hynny'n cynnwys pobl sydd yn byw ac yn gweithio yn y gymuned, ac nid canolwyr. Gobeithiaf y bydd eich cwestiwn a'm ateb yn dileu unrhyw gred y defnyddir dull o'r brig i'r bôn i wario adnoddau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

Cyfraniad y Cynulliad i Araith y Frenhines Assembly's Contribution to the Queen's Speech

Q9 Peter Black: What discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales about the Assembly's contribution to the Queen's Speech? (OAQ12151) [R]

C9 Peter Black: Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cyfraniad y Cynulliad i Araith y Frenhines? (OAQ12151) [R]

The First Minister: I discussed this issue with the Secretary of State for Wales at the weekend, yesterday and this morning. No doubt, I will discuss it again with him later. More importantly, the Secretary of State will discuss this with the Assembly shortly. He has informed me that nine Bills in the Queen's Speech confer additional powers on the Assembly. That is not a bad record.

Peter Black: Do you share my concern that, four years after it was first published in a Labour manifesto, there is nothing in the Queen's Speech about the licensing of housing in multiple occupation? I take advantage of the Secretary of State for Wales's presence to stress the importance of that legislation for the Assembly's housing agenda. Will you continue to press that issue with Her Majesty's Government?

The First Minister: Yes. The Homelessness Bill, in which I know that you have a particular interest, will return shortly to the House of Commons.

David Lloyd: I declare an interest as a general practitioner. Do you not agree that the NHS (Wales) Bill, which involves structural reform, represents a missed opportunity to tackle health inequalities in Wales? Furthermore, do you not feel that Wales's single legislative opportunity should have concentrated on achieving something that would make a difference to the health of the people of Wales?

2:40 p.m.

The First Minister: That question implies that the NHS (Wales) Bill has been dropped. It has not been dropped. It was mentioned in the Queen's Speech. I would not like anybody in Wales to imagine, as a result of Dai's question, that the NHS (Wales) Bill is not included in the Queen's Speech. It was included in draft form—in common with one other Bill—so we have the opportunity for what you might call double scrutiny: scrutiny in the Assembly and then in the House of Commons. Double scrutiny is not double jeopardy. It means that the Bill will be improved by our efforts, combined with the

Prif Weinidog Cymru: Trafodais y mater hwn gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ystod y penwythnos, ddoe a bore heddiw. Yn ddi-os, byddaf yn trafod y mater ag ef eto yn ddiweddarach. Yn bwysicach, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn trafod hyn â'r Cynulliad maes o law. Fe'm hysbysodd y bydd naw Mesur yn Araith y Frenhines yn rhoi pwerau ychwanegol i'r Cynulliad. Nid yw honno'n record wael.

Peter Black: A rannwch fy mhryder nad oes unrhyw beth ynglŷn â thrwyddedu tai aml-ddeliadaeth yn Araith y Frenhines, bedair blynedd wedi ei gyhoeddi gyntaf ym maniffesto'r Blaid Lafur? Manteisiaf ar bresenoldeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn pwysleisio pwysigrwydd y ddeddfwriaeth honno ar gyfer agenda tai'r Cynulliad. A wnewch chi barhau i roi pwysau ar Lywodraeth Ei Mawrhydi ynglŷn â'r mater hwnnw?

Prif Weinidog Cymru: Gwnaf. Bydd y Mesur Digartrefedd, y gwn bod gennych ddi-ddordeb arbennig ynddo, yn dychwelyd yn fuan i Dŷ'r Cyffredin.

David Lloyd: Datganaf fuddiant fel meddyg teulu. Oni chytunwch bod Mesur NHS (Cymru), sydd yn cynnwys diwygio strwythurol, yn arwydd o gyfle a gollwyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru? Ymhellach, oni theimlwch y dylai unig gyfle deddfwriaethol Cymru fod wedi canolbwyntio ar gyflawni rhywbeth a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i iechyd pobl Cymru?

Prif Weinidog Cymru: Awgryma'r cwestiwn hwnnw bod Mesur NHS (Cymru) wedi ei roi o'r neilltu. Nid yw wedi ei roi o'r neilltu. Soniwyd amdano yn Araith y Frenhines. Ni hoffwn i unrhyw un yng Nghymru ddychmygu, o ganlyniad i gwestiwn Dai, na chafodd Mesur NHS (Cymru) ei gynnwys yn Araith y Frenhines. Cafodd ei gynnwys ar ffurf drafft—ynghyd ag un Mesur arall—felly mae cyfle gennym i gael yr hyn y gallech ei alw'n graffu dwbl: craffu yn y Cynulliad a chraffu wedyn yn Nhŷ'r Cyffredin. Nid erlyniad dwbl yw craffu dwbl. Golyga y bydd y Mesur yn cael

efforts of the House of Commons, resulting in the best and most relevant Bill for putting 75 per cent of NHS resources into frontline services.

William Graham: Will you confirm your desire to strengthen the economic and social development of Wales, as expressed in the Queen's Speech, but also your dismay that the increased bureaucracy for our industries, national health service, schools and police forces—the result of legislation proposed in the Queen's Speech—will strangle this development?

The First Minister: I am not sure what increased bureaucracy you are referring to, or in which way that relates to the content of the Queen's Speech. Are you referring to the leader in this morning's *The Western Mail*? Is that the line that you are taking?

William Graham: No.

The First Minister: I am sorry. You will have to write to me because I fail to attribute any meaning to your question.

ei wella gan ein hymdrechion ni, ynghyd ag ymdrechion Tŷ'r Cyffredin, gan arwain at y Mesur gorau a'r mwyaf perthnasol ar gyfer rhoi 75 y cant o adnoddau'r NHS i wasanaethau rheng flaen.

William Graham: A wnewch chi gadarnhau eich dyhead i atgyfnerthu datblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru, fel y mynegwyd yn Araith y Frenhines, ond hefyd eich siom y bydd y cynnydd mewn biwrocratiaeth ar gyfer ein diwydiannau, y gwasanaeth iechyd gwladol, ein hysgolion a'n heddluoedd—canlyniad y ddeddfwriaeth a gynigir yn Araith y Frenhines—yn llesteirio'r datblygiad hwn?

Prif Weinidog Cymru: Nid wyf yn sicr at ba gynnydd mewn biwrocratiaeth y cyfeiriwch, na'r modd y mae'n ymwneud â chynnwys Araith y Frenhines. A gyfeiriwch at y prif bennawd yn *The Western Mail* y bore yma? Ai dyma'r safbwynt a gymerwch?

William Graham: Nage.

Prif Weinidog Cymru: Mae'n ddrwg gennyf. Bydd yn rhaid i chi ysgrifennu ataf gan nad wyf yn deall ystyr eich cwestiwn.

Cydlynu Polisi yng Ngogledd Cymru Co-ordinating Policy in North Wales

Q10 Peter Rogers: How has Anglesey benefited from the First Minister's decision to take special responsibility for co-ordinating policy in north Wales? (OAQ12152)

The First Minister: Anglesey has benefited from my decision to take personal responsibility for policy co-ordination in north Wales. I took a question and answer session at Holyhead during a meeting of the North Wales Regional Committee, which was packed out. It was a healthy sign that our experiment in democracy is working. In terms of projects on the ground, a practical demonstration is the personal interest that I have taken in ensuring, to the best of our ability, that the gas fired power station at Rhosgoch will proceed, in addition to the democratic imperatives that I enjoyed so much when the Assembly's North Wales Regional Committee met at Holyhead and

C10 Peter Rogers: Ym mha ffordd y mae Ynys Môn wedi cael budd o benderfyniad Prif Weinidog Cymru i gymryd cyfrifoldeb arbennig dros gydlynu polisi yng ngogledd Cymru? (OAQ12152)

Prif Weinidog Cymru: Mae Ynys Môn wedi elwa ar fy mhenderfyniad i gymryd cyfrifoldeb presenoldeb dros gydlynu polisi yng ngogledd Cymru. Cynhaliais sesiwn cwestiwn ac ateb yng Nghaergybi yn ystod cyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd, a oedd dan ei sang. Yr oedd yn arwydd iach bod ein harbrawf mewn democratiaeth yn gweithio. O ran prosiectau ar lawr gwlad, un enghraifft ymarferol yw'r diddordeb personol a gymerais er mwyn sicrhau, hyd orau ein gallu, y bydd yr orsaf bŵer nwy yn Rhosgoch yn mynd yn ei blaen, yn ogystal â'r hanfodion democrataidd a fwyneais gymaint pan gyfarfu Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd y Cynulliad yng Nghaergybi a phan fu mor

was kind enough to give me the opportunity to hold a question and answer session.

Peter Rogers: We have heard this afternoon about the new A55 road across the island, which is an impressive achievement. Do you agree, however, that there is a risk of this road acting as a bypass between the port and the mainland, and that it is already having a significant impact on many businesses on that route, particularly because of the lack of signage? This morning, a caravan site owner who had suffered a 99 per cent reduction in trade contacted me. Will you ensure that this serious problem, caused by the lack of signage, is recognised, and will you indicate ways in which the new road could generate and regenerate businesses across that corridor?

The First Minister: That is a constructive question. Sue Essex and I discussed this issue when we officially opened the road. No bypass, dual carriageway or motorway has ever been built without causing a short-term loss of business in the town centre through which the traffic used to go. Business people still think that it is a good idea to have a bypass, but there is a short-term dislocation to their business. To resolve this, they could perhaps relocate to a business park on the edge of town to access the passing trade, but there is no way of building a bypass or dual carriageway without having this effect. Signage, to minimise this consequence, is the issue that Sue Essex and I discussed when we officially opened the road. I am happy to supply you with details of progress.

Ieuan Wyn Jones: Following on from that point, will you confirm that the local authority has submitted proposals to Sue Essex about signage, particularly for the village of Gaerwen and other communities, and for some caravan sites? Will you confirm that Sue Essex's office is actively looking at ways in which these signs can be put in place and that discussions are ongoing with the local authority with a view to resolving this matter?

garedig â rhoi'r cyfle imi gynnal sesiwn cwestiwn ac ateb.

Peter Rogers: Clywsom y prynhawn yma am ffordd newydd yr A55 ar draws yr ynys, sydd yn gamp aruthrol. Fodd bynnag, oni chytunwch bod perygl y bydd y ffordd hon yn gweithredu fel ffordd osgoi rhwng y porthladd a'r tir mawr, a'i bod eisoes yn cael effaith sylweddol ar nifer o fusnesau ar y llwybr hwnnw, yn arbennig oherwydd y diffyg arwyddion? Y bore yma, cysylltodd perchennog safle carafannau â mi a ddiodefodd ostyngiad o 99 y cant mewn masnach. A wnewch chi sicrhau bod y broblem ddifrifol hon, a achosir gan ddiffyg arwyddion, yn cael ei chydnabod, ac a nodwch ddulliau y gallai'r ffordd newydd greu ac ailgreu busnesau ar draws y coridor hwnnw?

Prif Weinidog Cymru: Dyna gwestiwn adeiladol. Trafodais y mater hwn gyda Sue Essex pan agorasom y ffordd yn swyddogol. Ni welwyd ffordd osgoi, ffordd ddeuol neu draffordd yn cael ei hadeiladu erioed heb i ganol y dref yr arferai'r drafnidiaeth fynd trwyddi golli busnes yn y byrdymor. Mae pobl fusnes yn parhau i feddwl ei bod yn syniad da cael ffordd osgoi, ond bydd eu busnesau yn dioddef anrhefn yn y byrdymor. Er mwyn datrys hyn, efallai y gallent adeoli i barc busnes ar gyrion y dref er mwyn cael y masnach gan gwsmeriaid sydd yn mynd heibio, ond nid oes modd adeiladu ffordd osgoi neu ffordd ddeuol heb gael yr effaith hon. Er mwyn lleihau'r effaith hon, arwyddion oedd y mater a drafodais i a Sue Essex pan agorasom y ffordd yn swyddogol. Yr wyf yn fwy na pharod i roi manylion y cynnydd ichi.

Ieuan Wyn Jones: Yn dilyn ymlaen o'r pwynt hwnnw, a wnewch chi gadarnhau bod yr awdurdod lleol wedi cyflwyno cynigion i Sue Essex ynglŷn ag arwyddion, yn arbennig ar gyfer pentref y Gaerwen a chymunedau eraill, ac ar gyfer rhai safleoedd carafannau? A wnewch chi gadarnhau bod swyddfa Sue Essex yn edrych o ddifrif ar ffyrdd o osod yr arwyddion hyn a bod trafodaethau'n parhau gyda'r awdurdod lleol gyda'r nod o ddatrys y mater hwn?

The First Minister: I am grateful for your contribution. It almost answers the question at the same time as asking it. Sue is happy to confirm that a meeting with the local authority and some of the operators and yourself to discuss the Gaerwen problem has taken place. We are happy to proceed to try to ensure that any loss of business from the fact that vehicles no longer travel directly past either a shop or a garage or a caravan site or a tourist attraction is kept to a minimum by sufficient signage.

Lorraine Barrett: Do you agree with me that Anglesey has benefited by returning a Labour Member of Parliament recently?

The Presiding Officer: Order. The First Minister does not need to answer that question.

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn ddiolchgar am eich cyfraniad. Mae bron yn ateb y cwestiwn ar yr un pryd ag y caiff ei ofyn. Mae Sue yn fodlon cadarnhau y cynhaliwyd cyfarfod rhwng yr awdurdod lleol a rhai o'r gweithredwyr a chithau er mwyn trafod problem y Gaerwen. Yr ydym yn fodlon mynd yn ein blaenau er mwyn ceisio sicrhau y collir cyn lleied o fusnes â phosibl yn sgil y ffaith nad yw cerbydau bellach yn teithio'n uniongyrchol heibio siop neu garej neu safle carafannau neu atyniad twristiaid drwy godi arwyddion digonol.

Lorraine Barrett: Oni chytunwch â mi bod Ynys Môn wedi elwa'n ddiweddar drwy ethol Aelod Seneddol Llafur?

Y Llywydd: Trefn. Nid oes angen i Brif Weinidog Cymru ateb y cwestiwn hwnnw.

Datganiad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar Araith y Frenhines Statement by the Secretary of State for Wales on the Queen's Speech

The Secretary of State for Wales (Paul Murphy): Presiding Officer, thank you for your kind welcome. Assembly Members, it is a great pleasure to be back in the Assembly, though at a different time of year to the usual State Opening of Parliament, and the report that I must then make to you some weeks later. This is the third time I have fulfilled my duty under Section 31 of the Government of Wales Act 1998 to participate in your proceedings in relation to the Government's legislative programme for this session.

On the corresponding occasion to this one last Autumn, we discussed what is now the Children's Commissioner for Wales Act 2001. It is a real example of how the UK Government and the Assembly can work together for Wales. The fact that there was no division—not even in Committee—during the Bill's passage through Parliament is an indication of the consensus over this measure. I doubt whether all Assembly-inspired legislation will have such an easy passage, but I believe that it sets an excellent precedent.

Over the last two years the Assembly has

Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Paul Murphy): Lywydd, diolch ichi am eich croeso caredig. Aelodau'r Cynulliad, mae'n bleser mawr bod yn ôl yn y Cynulliad, er ar adeg wahanol o'r flwyddyn i Agoriad Swyddogol arferol y Senedd, a'r adroddiad y mae'n rhaid imi ei roi ichi ychydig wythnosau wedi hynny. Dyma'r trydydd tro imi gyflawni fy nyletswydd o dan Adran 31 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 i gymryd rhan yn eich gweithrediadau mewn perthynas â rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer y sesiwn hon.

Ar yr achlysur cyfatebol yn yr hydref y llynedd, buom yn trafod yr hyn sydd bellach yn Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001. Mae'n enghraifft wirioneddol o sut y gall Llywodraeth y DU a'r Cynulliad gydweithio dros Gymru. Mae'r ffaith na fu unrhyw wahaniaeth barn—hyd yn oed yn y Pwyllgor—tra bod y Mesur yn mynd drwy'r Senedd yn arwydd o'r consensws ar y mesur hwn. Mae'n amheus gennyf a gaiff pob darn o ddeddfwriaeth sydd yn deillio o'r Cynulliad hynt mor rhwydd, ond credaf ei fod yn rhoi cynsail wych.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf cymerodd

made great strides on behalf of the people of Wales: more money for rural buses and rail transport; free entry to the eight sites of the National Museums and Galleries of Wales, one in my own constituency, I am glad to say; free local bus travel in future for Welsh pensioners; NHS Direct available throughout Wales, and the FA Cup final held in Cardiff. All this and more thanks to the efforts of Assembly Members. As you will know better than I do, the Assembly did not have an easy first few months. However, you have shown daily that the Assembly can deliver vital services for the people of Wales, and as a result it has become an indispensable part of Welsh life.

We are all agreed that it is for you, the Assembly Members, to make your own decisions about your policies and direction. I am sure that we would also agree that an effective partnership is the key to the success of devolution. Our work together takes many forms and today we are focusing on what my party's 2001 election manifesto called

'the already successful legislative partnership with the Assembly.'

Reform of the public services is the focus of our programme for this session. The electorate has given us a clear message. We have secured economic stability, but we must now use that stability to deliver further improvements to our public services. It is important to recognise that we would not be moving forward in this way unless we had managed the economy in the way that we have. We have created a new macroeconomic framework based on transparency, accountability and responsibility. This has provided the platform of economic stability on which our reforms must be based if they are to be sustained. As a result, we have low inflation, low interest rates, reduced public borrowing, over 30,000 more people in work in Wales and a growing economy. We have been able to increase the resources available to the Assembly from £8 billion to £10 billion over the period of the current comprehensive

y Cynulliad gamau breision ar ran pobl Cymru: mwy o arian i fysiau yng nghefn gwlad a thrafnidiaeth rheilffordd; mynediad am ddim i wyth safle Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, un yn fy etholaeth i fy hun, yr wyf yn falch o nodi; teithio am ddim ar fysiau lleol ar gyfer pensïynwyr Cymru yn y dyfodol; Galw Iechyd Cymru ar gael ym mhob rhan o Gymru, a chynnal Cwpan yr FA yng Nghaerdydd. Y cyfan oll a mwy oherwydd ymdrechion Aelodau'r Cynulliad. Gwyddoch yn well na mi na chafodd y Cynulliad gyfnod hawdd yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf. Fodd bynnag, yr ydych wedi dangos yn feunyddiol y gall y Cynulliad ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl Cymru, ac o ganlyniad mae wedi dod yn rhan annatod o fywyd Cymru.

Yr ydym oll yn gytûn mai chi, Aelodau'r Cynulliad sydd yn gyfrifol am wneud eich penderfyniadau eich hun ynglŷn â'ch polisïau a'ch cyfeiriad. Yr wyf yn siŵr y byddem hefyd yn cytuno mai partneriaeth effeithiol yw'r allwedd i lwyddiant datganoli. Mae sawl ffurf i'r gwaith a wnawn gyda'n gilydd a heddiw yr ydym yn canolbwyntio ar yr hyn a alwodd maniffesto etholiad 2001 fy mhlaidd yn

Diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus fydd canolbwynt ein rhaglen ar gyfer y sesiwn hon. Rhoes yr etholwyr neges glir inni. Yr ydym wedi sicrhau sefydlogrwydd economaidd, ond rhaid inni ddefnyddio'r sefydlogrwydd hwnnw yn awr i sicrhau gwelliannau pellach yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bwysig cydnabod na fyddem yn symud ymlaen yn y ffordd hon oni bai ein bod wedi rheoli'r economi fel y gwnaethom. Yr ydym wedi creu fframwaith macro-economaidd newydd sydd yn seiliedig ar dryloywder, atebolrwydd a chyfrifoldeb. Mae hwn wedi darparu'r llwyfan o sefydlogrwydd economaidd y mae'n rhaid inni ei ddefnyddio fel sail ar gyfer ein diwygiadau er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy. O ganlyniad, ceir chwyddiant isel, cyfraddau llog isel, llai o fenthyca cyhoeddus, dros 30,000 yn fwy o bobl mewn gwaith yng Nghymru ac economi sydd yn tyfu. Yr ydym wedi llwyddo i gynyddu'r adnoddau sydd ar gael i'r

spending review. We will continue to take a firm approach to economic management so that we can sustain the economic stability that we have worked so hard to achieve.

2:50 p.m.

I believe that, for Wales, the prospects for the future are brighter than for a generation. Our focus must now be on improving our public services, getting even more of our people into work, having a welfare state that gives a hand-up and not just a handout and, of course, giving the people of Wales a direct say in their future.

The Assembly is approaching the second anniversary of devolution, on 1 July. As I have said, you have achieved much in those two years. However, the settlement for which the people of Wales voted is sustained within a framework of economic stability and primary legislation that comes from the UK Government and from Parliament in Westminster. The settlement is a partnership between you and us.

Over the last two years, we have tried a number of different formats for outlining the legislative programme for you. We now agree that a statement from me is the right way to handle that. You will debate the Queen's Speech in a few weeks. The motion for that debate has not yet been tabled, so I do not know whether you will follow last year's pattern and remit discussion of the Bills to the relevant Committees. If you do, either I or my deputy, Don Touhig, would be happy—within the obvious practical constraints of time—to come and discuss those Bills with those Committees.

First, there are the Bills that relate to the UK Government's responsibilities, but which have a strong resonance in Wales. I make no excuse for mentioning these, even when they do not confer any additional responsibilities or powers on the Assembly. As elected

Cynulliad o £8 biliwn i £10 biliwn dros gyfnod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant cyfredol. Byddwn yn parhau i fabwysiadu ymagwedd gadarn tuag at reoli economaidd er mwyn inni allu cynnal y sefydlogrwydd economaidd yr ydym wedi gweithio mor galed i'w gyflawni.

Credaf fod y rhagolygon ar gyfer y dyfodol, i Gymru, yn fwy disglair nag y buont ers cenhedlaeth. Rhaid inni ganolbwyntio yn awr ar wella ein gwasanaethau cyhoeddus, sicrhau bod hyd yn oed mwy o'n pobl mewn gwaith, sicrhau gwladwriaeth les sydd yn rhoi help llaw ac nid dim ond elusen ac, wrth gwrs, rhoi llais uniongyrchol i bobl Cymru ynglŷn â'u dyfodol.

Mae'r Cynulliad yn nesáu at ail ben-blwydd datganoli, ar 1 Gorffennaf. Fel y dywedais, cyflawnwyd cryn dipyn gennyech yn y ddwy flynedd hynny. Fodd bynnag, cynhelir y setliad y pleidleisiodd pobl Cymru drosto o fewn fframwaith o sefydlogrwydd economaidd a deddfwriaeth sylfaenol sydd yn deillio o Lywodraeth y DU a'r Senedd yn San Steffan. Mae'r setliad yn bartneriaeth rhyngoch chi a ni.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, yr ydym wedi rhoi cynnig ar nifer o ddulliau gwahanol o amlinellu'r rhaglen ddeddfwriaethol ichi. Erbyn hyn, yr ydym wedi cytuno mai datganiad gennyf fi yw'r ffordd briodol o ymdrin â hynny. Byddwch yn cynnal dadl ar Araith y Frenhines ymhen ychydig wythnosau. Ni chyflwynwyd y cynnig ar gyfer y ddadl honno eto, felly ni wn a fyddwch yn dilyn patrwm y llynedd a throsglwyddo'r gwaith o drafod y Mesurau i'r Pwyllgorau perthnasol. Os gwnewch hynny, byddai naill ai Don Touhig, fy nirprwy, neu minnau yn falch—o fewn y cyfyngiadau amser ymarferol amlwg—o ddod i drafod y Mesurau hynny gyda'r Pwyllgorau hynny.

Yn gyntaf, mae'r Mesurau sydd yn ymwneud â chyfrifoldebau Llywodraeth y DU, ond a fydd yn taro tant yng Nghymru. Nid ymddiheuraf o gwbl am grybwyll y rhain, hyd yn oed lle nad ydynt yn rhoi unrhyw gyfrifoldebau neu bwerau ychwanegol i'r

representatives of the people of Wales—we as Welsh Members of Parliament and you as Members of the National Assembly—we all share a duty to take an interest in those matters that affect our constituents' daily lives.

The Criminal Justice Bill and the Proceeds of Crime Bill are a vital part of our agenda to make Wales a safer place in which to live. By making the criminal justice system more effective, we will increase the likelihood of criminals being brought to book. We will make it much more difficult for them to hang on to their unlawful gains. The Proceeds of Crime Bill will establish a criminal assets recovery agency with powers to sue for the recovery of criminal assets, a pledge we made in our manifesto for Wales for the general election.

Unemployment has fallen, of course, but there are still too many people who do not have the jobs that will take them out of poverty. The Welfare Reform Bill will complement the new Jobcentre Plus agency to provide a new, work-focused service for all benefit recipients of working age. That will make it possible for everyone who can work to do so.

The Pension Credit Bill will ensure, for the first time, that those who have saved for their old age are rewarded for so doing. It will provide for an extra cash addition for those with modest savings. It will also set an income limit below which no pensioner should fall.

The Commonhold and Leasehold Reform Bill has been reintroduced. That is welcome news for Wales as we have some areas where this is a huge issue, for example, west and central Cardiff as well as Llandudno.

There are also Bills that relate to the Assembly's responsibilities where there is no need or wish for substantial difference between Wales and England. The Adoption

Cynulliad. Fel cynrychiolwyr etholedig pobl Cymru—yn Aelodau Seneddol o Gymru neu'n Aelodau o'r Cynulliad Cenedlaethol—mae dyletswydd arnom oll i ymddiddori yn y materion hynny sydd yn effeithio ar fywydau beunyddiol ein hetholwyr.

Mae'r Mesur Cyfiawnder Troseddol a'r Mesur Enillion Troseddu yn rhan hanfodol o'n hagenda i sicrhau bod Cymru yn lle mwy diogel i fyw ynddo. Drwy sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithiol, byddwn yn ei gwneud yn fwy tebygol y caiff troseddwyr eu haeddiant. Byddwn yn ei gwneud yn llawer anos iddynt gadw eu gafael ar eu henillion anghyfreithlon. Bydd y Mesur Enillion Troseddu yn sefydlu asiantaeth adennill asedau troseddol â phwerau i erlyn troseddwyr er mwyn adennill asedau troseddol, addewid a wnaethom yn ein maniffesto i Gymru yn yr etholiad cyffredinol.

Mae diweithdra wedi gostwng, wrth gwrs, ond mae llawer gormod o bobl o hyd heb swyddi a fydd yn eu rhyddhau rhag tloidi. Bydd y Mesur Diwygio Lles yn ategu'r asiantaeth newydd, Canolfan Byd Gwaith, er mwyn darparu gwasanaeth newydd yn canolbwyntio ar waith i bob un o oedran gwaith sydd yn derbyn budd-daliadau. Bydd hynny'n ei gwneud yn bosibl i bawb a all weithio wneud hynny.

Bydd Mesur Credyd Pensiwn yn sicrhau, am y tro cyntaf, y bydd y rhai sydd wedi cynilo arian ar gyfer eu henaint yn cael eu gwobrwyo am wneud hynny. Bydd yn darparu arian ychwanegol i'r rhai sydd wedi cynilo rhywfaint o arian. Bydd hefyd yn pennu terfyn incwm na ddylai unrhyw bensiynwr fynd oddi tano.

Ailgyflwynwyd y Mesur Daliadaeth ar y Cyd a Diwygio Prydles. Mae hynny'n newyddion da i Gymru gan fod sawl ardal yma lle y mae hyn yn broblem enfawr, er enghraifft, yng ngorllewin a chanol Caerdydd yn ogystal ag yn Llandudno.

Ceir Mesurau hefyd sydd yn ymwneud â chyfrifoldebau'r Cynulliad lle nad oes angen nag awydd am wahaniaeth sylweddol rhwng Cymru a Lloegr. Mae'r Mesur Mabwysiadu a

and Children Bill is an excellent illustration of how lessons learned in Wales can benefit other parts of the UK. The Bill is the result of work by the Ministerial Group, which the Prime Minister announced the day after I presented the Waterhouse Report to Parliament and of which I was a member. The Bill will put the child's needs at the centre of the adoption process and encourage more people to adopt children in care. It will also improve the legal controls on inter-country adoption—an issue highlighted by the case of the Kilshaws from north Wales.

The Communications Bill will be published in draft. This is an important Bill for Wales, establishing OFCOM to act as a single regulator. I know that the Assembly has some concerns about the proposals in the White Paper. BBC Wales and S4C have also discussed the issue with me. Publication of the Bill in draft will enable us—both Assembly Members and myself—to see exactly how the proposals pan out in legislation. That will enable you to suggest changes without the pressure of needing to get through the parliamentary stages in a reasonable time.

Next, there are Bills that cover the Assembly's responsibilities where the Assembly may want to operate differently from England. The Education Bill is vital to our commitment to raising standards throughout the education system, but particularly in secondary schools. It will promote diversity and increase schools' freedom to innovate. Our aim is to make it possible to tailor educational provision to the talents of each pupil from the age of 14. In Wales, the method of doing that is, of course, for you to decide. We are talking to Jane Davidson about how to frame the provisions concerning Wales to give you the freedom to proceed in the way that suits the needs of Welsh people. When we see what this Bill delivers for Wales, we will consider what provisions still need to be made, possibly in a Wales-only Bill.

Phlant yn enghraifft wych o sut y gall rhannau eraill o'r DU elwa o wersi a ddysgwyd yng Nghymru. Mae'r Mesur yn deillio o waith gan Grŵp y Gweinidogion, a gyhoeddwyd gan Brif Weinidog y DU y diwrnod ar ôl imi gyflwyno Adroddiad Waterhouse i'r Senedd. Yr oeddwn yn aelod o'r grŵp hwnnw. Bydd y Mesur yn sicrhau bod anghenion plant yn ganolog yn y broses fabwysiadu ac yn annog mwy o bobl i fabwysiadu plant sydd mewn gofal. Bydd hefyd yn gwella'r rheolaethau cyfreithiol o ran mabwysiadu rhwng gwledydd—mater a amlygwyd gan achos teulu'r Kilshaws o ogledd Cymru.

Caiff y Mesur Cysylltiadau ei gyhoeddi ar ffurf ddrafft. Mae hwn yn Fesur pwysig i Gymru, gan ei fod yn sefydlu OFCOM, a fydd yn gweithredu fel corff rheoleiddio sengl. Gwn fod gan y Cynulliad rai pryderon ynglŷn â'r cynigion yn y Papur Gwyn. Mae BBC Cymru ac S4C wedi trafod y mater gyda mi hefyd. Bydd cyhoeddi'r Mesur ar ffurf ddrafft yn ein galluogi—Aelodau'r Cynulliad a minnau—i ganfod yn union sut y bydd y cynigion yn datblygu'n ddeddfwriaeth. Bydd hynny'n eich galluogi i awgrymu newidiadau heb y pwysau o orfod mynd drwy'r camau seneddol o fewn amser rhesymol.

Yn nesaf, mae Mesurau sydd yn cwmpasu cyfrifoldebau'r Cynulliad lle y bydd y Cynulliad o bosibl am weithredu'n wahanol i Loegr. Mae'r Mesur Addysg yn holl bwysig i'n hymrwymiad i godi safonau ar draws y system addysg, ond yn arbennig mewn ysgolion uwchradd. Bydd yn hyrwyddo amrywiaeth ac yn rhoi mwy o ryddid i ysgolion arbrofi. Ein nod yw ei gwneud yn bosibl i addasu darpariaeth addysgol i dalentau pob disgybl o 14 oed ymlaen. Yng Nghymru, chi, wrth reswm, fydd yn penderfynu ar y ffordd o wneud hynny. Yr ydym yn siarad â Jane Davidson ynghylch sut i lunio'r darpariaethau sydd yn ymwneud â Chymru er mwyn rhoi rhyddid ichi weithredu yn y ffordd sydd yn gweddu ag anghenion pobl Cymru. Pan welwn yr hyn y bydd y Mesur hwn yn ei ddarparu dros Gymru, byddwn yn ystyried pa ddarpariaethau pellach y bydd angen eu gwneud, mewn Mesur i Gymru yn unig o bosibl.

The NHS Reform and Decentralisation Bill will enable us to place 75 per cent of NHS spending power directly in the hands of frontline health professionals. They know what patients need and want and they are best placed to determine the most effective way of providing it. The Bill will also give patients greater influence in running the NHS and it will reform professional self-regulation. That will include modernising the way that the General Medical Council is run and it has already consulted on options.

Finally, there is your own NHS (Wales) Bill, which will be published in draft. By publishing the Bill in draft form, we have found the right way to allow you to debate the issues in the Assembly before the Bill is formally presented to Parliament. Now that the Assembly is well into its stride in the policy making process, Rhodri is able to come to me with proposals for legislation that are not immediate. If we can develop the practice of publishing legislation that is distinctive to Wales in advance, you as Assembly Members will have the right to make a full contribution to its development before it goes to Parliament. However, there may be some matters in relation to the health service in Wales that are time-sensitive and cannot wait until another session. Jane Hutt is discussing with Alan Milburn how such provisions might be incorporated, if necessary, in the NHS Reform and Decentralisation Bill for England and Wales.

In conclusion, I emphasise three points. First, although this is the first public statement of how the Government's new legislative programme affects Wales, we have talked to the Assembly Cabinet about these issues for some time under the terms of the concordat between it and the UK Government. Some matters, such as education and communications, have been the subject of consultation documents that have been in the public domain. This is not a case of the UK Government forging ahead, often renewing its mandate with no input from the Assembly. It is only now, after the election,

Bydd y Mesur Diwygio a Datganoli'r NHS yn ein galluogi i roi 75 y cant o wariant yr NHS yn uniongyrchol yn nwylo gweithwyr proffesiynol rheng-flaen. Gwyddant beth sydd ei angen a'i eisiau ar gleifion a hwy sydd yn y sefyllfa orau i bennu'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu hynny. O dan y Mesur hwn, bydd gan gleifion fwy o ddylanwad ar y ffordd y caiff yr NHS ei redeg hefyd a bydd yn diwygio hunan-reoleiddio ymhlith gweithwyr proffesiynol. Bydd hynny'n cynnwys moderneiddio'r ffordd y mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn gweithredu ac mae eisoes wedi ymgynghori ar opsiynau.

Yn olaf, mae'ch Mesur NHS (Cymru) chi, a gaiff ei gyhoeddi ar ffurf ddrafft. Drwy gyhoeddi'r Mesur ar ffurf ddrafft, daethom o hyd i'r ffordd briodol o ganiatáu ichi gynnal dadl ar y materion yn y Cynulliad cyn cyflwyno'r Mesur yn ffurfiol i'r Senedd. Gan fod y Cynulliad bellach wedi ymgyswrtu â'r broses llunio polisi, gall Rhodri ddod â chynigion imi ar gyfer deddfwriaeth nad oes rhaid eu rhoi ar waith ar unwaith. Os gallwn ddatblygu'r arfer o gyhoeddi deddfwriaeth sydd yn unigryw i Gymru ymlaen llaw, bydd yr hawl gennych fel Aelodau'r Cynulliad i wneud cyfraniad llawn yn ei datblygiad cyn iddi gyrraedd y Senedd. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai materion mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru lle y mae amser yn hollbwysig ac na allant aros tan sesiwn arall. Mae Jane Hutt yn trafod gydag Alan Milburn sut y gellid ymgorffori darpariaethau o'r fath, os bydd angen, ym Mesur Diwygio a Datganoli'r NHS ar gyfer Cymru a Lloegr.

I gloi, pwysleisiof dri phwynt. Yn gyntaf, er mai hwn yw'r datganiad cyhoeddus cyntaf ar y ffordd y bydd rhaglen ddeddfwriaethol newydd y Llywodraeth yn effeithio ar Gymru, buom yn trafod y materion hyn gyda Chabinet y Cynulliad ers tro o dan amodau'r concordat rhyngddo ef a Llywodraeth y DU. Cyhoeddwyd dogfennau ymgynghorol, a fu'n eiddo cyhoeddus, ar rai materion, megis addysg a chysylltiadau. Nid yw Llywodraeth y DU yn hwylio ymlaen gan adnewyddu ei mandad yn aml heb unrhyw fewnbwn gan y Cynulliad. Dim ond yn awr, wedi'r etholiad, y mae Aelodau'r Cynulliad a Thŷ'r Cyffredin

that Assembly Members and the new House of Commons are in a position to debate these matters formally. However, their views have been clear throughout the process of policy making in these areas. That breaks new ground constitutionally.

Secondly, the Bills announced so far are the main framework around which the whole programme will be built. However, the Queen told Parliament that,

‘Other measures will be laid before you’.

One of those, the Homelessness Bill, not mentioned in the Queen’s Speech, has already been published and will be before the House of Commons in a matter of weeks. I know that the Assembly will welcome the return of that legislation. This is, after all, the first Queen’s Speech of what could be four or five in total. It is too soon to say what the others might be. Much will depend on the progress of those Bills that have been announced. When there are new announcements, I will inform the Assembly—as I am bound to do—and I will be happy to discuss them with you in Plenary or in Committees, if that would be helpful.

Thirdly, the most effective way of giving you the tools that you need to do your job is not always necessarily separate legislation for Wales or a separate Welsh Bill. Sometimes it can be a Wales-only Bill, such as the Children’s Commissioner for Wales Act 2001 and the NHS (Wales) Bill. Sometimes it is a Welsh part or clauses within a larger Bill, such as the Learning and Skills Bill. Thirty seven clauses of that Bill related entirely to Wales. We must remember that the Children’s Commissioner for Wales was not established by the Children’s Commissioner for Wales Bill but the Care Standards Act 2000, because of the timing of that Act in Parliament and the need, which the Assembly had expressed, for an early appointment in that particular case.

3:00 p.m.

In many cases, it may be most effective to

newydd etholedig mewn sefyllfa i drafod y materion hyn yn ffurfiol. Fodd bynnag, bu eu safbwyntiau yn eglur drwy gydol y broses o lunio polisiau yn y meysydd hyn. Mae hynny’n torri tir newydd o safbwynt cyfansoddiadol.

Yn ail, bydd y Mesurau a gyhoeddir hyd yma yn llunio’r prif fframwaith a fydd yn sail i’r holl raglen. Fodd bynnag, dywedodd y Frenhines wrth y Senedd,

Cafodd un o’r rhain, sef y Mesur Digartrefedd, na chyfeiriwyd ato yn Araith y Frenhines, ei gyhoeddi eisoes a bydd gerbron Tŷ’r Cyffredin ymhen ychydig wythnosau. Gwn y bydd y Cynulliad yn croesawu’r ffaith bod y ddeddfwriaeth honno’n dychwelyd. Wedi’r cyfan, hon yw’r Araith y Frenhines gyntaf o blith hyd at bedair neu bump o areithiau o bosibl. Mae’n rhy fuan dweud beth fydd cynnwys y lleill. Bydd llawer yn dibynnu ar y cynnydd a wna’r Mesurau hynny a gyhoeddwyd. Pan fydd cyhoeddiadau newydd, byddaf yn hysbysu’r Cynulliad—fel yr wyf wedi ymrwymo i wneud—a byddaf yn fodlon eu trafod gyda chi mewn Cyfarfod Llawn neu yn y Pwyllgorau, pe byddai hynny o gymorth.

Yn drydydd, nid deddfwriaeth ar wahân i Gymru neu Fesur Cymreig ar wahân yw’r ffordd fwyaf effeithiol o reidrwydd o roi’r offer sydd eu hangen arnoch i wneud eich gwaith. Weithiau, mae Mesur i Gymru yn unig, megis Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a Mesur NHS (Cymru), yn addas. Weithiau, mae rhan neu gymalau am Gymru o fewn Mesur mwy, megis y Mesur Dysgu a Sgiliau, yn addas. Yn y Mesur hwnnw, yr oedd 37 o gymalau yn ymwneud yn gyfan gwbl â Chymru. Rhaid inni gofio mai gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 y sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru, yn hytrach na chan Fesur Comisiynydd Plant Cymru, oherwydd amseriad y Ddeddf honno yn y Senedd a’r angen, a fynegwyd gan y Cynulliad, am benodiad cynnar yn yr achos penodol hwnnw.

Mewn llawer o achosion, gallai fod yn fwy

give the Assembly permissive secondary legislative powers to enable it to act in a way that is right for Wales within a broad framework of primary legislation. That is the nature of the partnership between us; a partnership that must operate for the good governance of all our people in Wales. In the United Kingdom Government, our priorities remain securing the gains of economic stability and providing the Assembly with the legislative framework needed to reform and modernise our public services.

As the elected representatives of the Welsh people, we all share a common desire to achieve a renaissance of status and quality for public services and their staff. More money for public services is essential for that process. However, I am sure that you will agree that money alone is not enough. Better public services require reform, better management, a focus on delivering for the people who matter—the public—and the willingness to concede that just because we have always done something a certain way, that does not mean that it is always right. In all this, it will be the staff, who are in the frontline of delivering public services, who will be in the lead. We all recognise how important the dedication, professionalism, enterprise and endeavour of those who work in the public sector are to transforming public services.

In the Assembly, I know that you all want to continue to act for the benefit of the people of Wales, as the United Kingdom Government does in respect of those functions that have not been transferred. I hope that, over the life of this Parliament, the partnership between Assembly Members and Members of Parliament, the Assembly Cabinet, the United Kingdom Government Ministers and the Assembly and Whitehall officials will work more effectively. Wales needs us all. I wish you well in the coming year.

Ieuan Wyn Jones: Secretary of State, I welcome you to the National Assembly to

effeithiol rhoi pwerau is-ddeddfwriaethol caniatol i'r Cynulliad i'w alluogi i weithredu mewn modd sydd yn briodol i Gymru o fewn fframwaith cyffredinol deddfwriaeth sylfaenol. Dyna natur y bartneriaeth rhyngom; rhaid i bartneriaeth weithredu er mwyn llywodraethu holl bobl Cymru yn dda. O fewn Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sicrhau manteision sefydlogrwydd economaidd a rhoi i'r Cynulliad y fframwaith deddfwriaethol sydd ei angen arno i ddiwygio a moderneiddio ein gwasanaethau cyhoeddus fydd ein blaenoriaethau o hyd.

Fel cynrychiolwyr etholedig pobl Cymru, yr ydym oll yn awyddus i weld dadeni mewn statws ac ansawdd gwasanaethau cyhoeddus a'u staff. Mae rhoi mwy o arian i'r gwasanaethau cyhoeddus yn hanfodol er mwyn cyflawni'r broses honno. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno nad arian yn unig yw'r ateb. Yr hyn sydd ei angen ar gyfer gwell gwasanaethau cymdeithasol yw diwygio, gwell rheoli, canolbwyntio ar ddarparu ar gyfer y bobl sydd o bwys—sef y cyhoedd—a pharodrwydd i gyfaddef nad yw ffordd o wneud rhywbeth bob amser yn gywir am ein bod wedi ei wneud felly erioed. Yn hynny o beth, y staff sydd ar y rheng flaen wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a fydd yn cymryd yr awenau. Yr ydym oll yn cydnabod pa mor bwysig yw ymroddiad, proffesiynoldeb, menter ac ymdrech y rhai sydd yn gweithio yn y sector cyhoeddus er mwyn trawsnewid y gwasanaethau cyhoeddus.

Yn y Cynulliad, gwn eich bod chi oll am barhau i weithredu er budd pobl Cymru, fel y gwna Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny nas trosglwyddwyd. Gobeithiaf, yn ystod cyfnod y Senedd hon, y bydd y bartneriaeth rhwng Aelodau'r Cynulliad a'r Aelodau Seneddol, Cabinet y Cynulliad, Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig a swyddogion y Cynulliad a Whitehall yn gweithio'n fwy effeithiol. Mae angen pob un ohonom ar Gymru. Dymuniadau da ichi yn ystod y flwyddyn nesaf.

Ieuan Wyn Jones: Ysgrifennydd Gwladol, fe'ch croesawaf i'r Cynulliad Cenedlaethol i

make your statement on the United Kingdom Government's programme for the forthcoming parliamentary session. I also take this opportunity to congratulate you on your reappointment as Secretary of State for Wales.

I wish to raise several points regarding your statement. You naturally put a positive gloss on the events of the last five years. However, I ask you to reflect on the fact that although you said that over 30,000 more people are in employment in Wales, 20,000 manufacturing jobs were lost during that period. Many of those jobs required high levels of skill and paid high wages. What are the new Government's proposals to ensure that we have replacement jobs of equal value and skills? What opportunities will there be to draw up legislation to protect the interests of workers in Wales, who can be sacked in a way that is not possible in other European countries? What new regulations will be introduced to protect Welsh workers from unscrupulous employers who can throw them on the scrap heap in a way that other countries cannot?

I welcome several measures in the Queen's Speech, such as the Adoption and Children Bill, on which there is considerable consensus. The Assembly will consider the Communications Bill with great interest, because it has long-term significant implications for Wales, particularly on broadcasting. You mentioned S4C and BBC Wales. It is important for us to consider the implications of those measures.

As you indicated, the first session of a new Parliament is always longer and, invariably, contains more proposals than other parliamentary sessions. It sets out the UK Government's priorities in terms of its legislative proposals. Do you agree, therefore, that we need to scrutinise these proposals much more carefully than we did last November, when we had what amounted, frankly, to nothing more than an election wish list? This will be the first full Parliament of the post-devolution era. Therefore, we will see over the lifetime of a UK Parliament how the UK Government

wneud eich datganiad ar raglen Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y sesiwn seneddol nesaf. Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i'ch llongyfarch ar eich ail-benodiad yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Hoffwn godi nifer o bwyntiau ynglŷn â'ch datganiad. Yn naturiol ddigon, rhoesoch ddarlun cadarnhaol o ddigwyddiadau'r pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, gofynnaf ichi ystyried y ffaith, er ichi ddweud bod dros 300,000 yn fwy o bobl mewn gwaith yng Nghymru, y collwyd 20,000 o swyddi gweithgynhyrchu yn ystod y cyfnod hwnnw. Yr oedd llawer o'r swyddi hynny yn gofyn am lefelau uchel o sgil ac yn rhai â chyflog uchel. Beth yw cynigion y Llywodraeth newydd i sicrhau bod gennym swyddi newydd o'r un gwerth a sgiliau yn lle'r swyddi a gollwyd? Pa gyfleoedd a fydd i lunio deddfwriaeth sydd yn diogelu buddiannau gweithwyr Cymru, y gellir eu diswyddo mewn modd nad yw'n bosibl mewn gwledydd eraill yn Ewrop? Pa reoliadau newydd a gaiff eu cyflwyno i ddiogelu gweithwyr yng Nghymru rhag cyflogwyr diegwyddor a all eu rhoi ar y clwt mewn modd na all gwledydd eraill ei wneud?

Croesawaf sawl mesur yn Araith y Frenhines, megis y Mesur Mabwysiadu a Phlant, y mae cryn gonsensws yn ei gylch. Bydd y Cynulliad yn ystyried y Mesur Cysylltiadau â diddordeb mawr, am fod iddo oblygiadau hirdymor sylweddol i Gymru, yn arbennig o ran darlledu. Soniasoch am S4C a BBC Cymru. Mae'n bwysig inni ystyried goblygiadau'r mesurau hynny.

Fel y nodasoch, mae sesiwn gyntaf tymor newydd y Senedd bob amser yn hwy ac, yn amlach na pheidio, yn cynnwys mwy o gynigion na'r sesiynau seneddol eraill. Noda flaenoriaethau Llywodraeth y DU o ran ei chynigion deddfwriaethol. A gytunwch, felly, fod angen inni graffu ar y cynigion hyn yn llawer manylach nag a wnaethom fis Tachwedd diwethaf, pryd na chawsom, mewn gwirionedd, ddim ond rhyw restr o ddymuniadau etholiadol? Hwn fydd y tymor Seneddol llawn cyntaf ers datganoli. Felly, gwelwn dros oes Senedd y DU sut y bydd Llywodraeth y DU yn ymdrin â'r cyrff

deals with the devolved bodies in the countries of Britain. In other words, to test the rather bland phrase used in this year's Queen's Speech, how does the Government intend to maintain its commitment to devolution in Scotland and Wales? How can we assess how the United Kingdom Government responds to the aspirations of the people of Wales? Several questions arise from this.

First, can you confirm that the Assembly Cabinet requested that four Bills be included in this year's legislative programme—on health, education, the census and making St David's Day a bank holiday? Can you confirm that you presented these proposals for inclusion in the programme? If the answer to both these questions is 'yes', why were three of the four proposals rejected? Is it, for example, that a strong enough case was not made for their inclusion? In that case, does the problem lie with the Assembly Cabinet or with your office? Or is it that the UK Government simply did not listen, or did not regard these Bills as sufficiently important to be included this year? In any event, whatever the reason, does this not demonstrate yet again how difficult it is for the Assembly to make progress on its agenda?

Can you confirm that, if this pattern is repeated throughout this Parliament's lifetime, the Assembly will be lucky to get five Bills through the legislative programme, and that it will find that 15 of its Bills will fall by the wayside? Will you look again at the fast-track procedure, particularly for those Bills on which there is consensus in the Assembly, such as the census, and making St David's Day a bank holiday? Why is it not possible, if consensus exists, to use the Welsh Grand Committee to drive through this kind of non-contentious legislation? Why do we have to wait in the queue year after year for that kind of legislation to be presented to us?

The other issue on which I wish to question you is increased private sector involvement in our public services. I read with great interest your carefully chosen words about public services. You said:

datganoledig yng ngwledydd Prydain. Hynny yw, er mwyn profi'r ymadrodd llipa braidd a ddefnyddiwyd yn Araith y Frenhines eleni, sut y bwriada'r Llywodraeth gynnal ei ymrwymiad i ddatganoli yn yr Alban a Chymru? Sut y gallwn asesu sut y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymateb i ddyheadau pobl Cymru? Cyfyd sawl cwestiwn o hyn.

Yn gyntaf, a allwch gadarnhau i Gabinet y Cynulliad wneud cais i bedwar Mesur gael eu cynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol eleni—ym meysydd iechyd, addysg ac ar y cyfrifiad a phennu Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl y banc? A allwch gadarnhau ichi gyflwyno'r cynigion hyn i'w cynnwys yn y rhaglen? Os mai 'gallaf' yw'r ateb i'r ddau gwestiwn hyn, pam y gwrthodwyd tri o'r pedwar cynnig? Ai'r rheswm, er enghraifft, yw na roddwyd achos digon cryf dros eu cynnwys? Os felly, ai Cabinet y Cynulliad ynteu eich swyddfa chi sydd ar fai? Neu ai'r rheswm yn syml yw na wrandawodd Llywodraeth y DU, neu nad ystyriodd fod y Mesurau hyn yn ddigon pwysig i'w cynnwys eleni? Fodd bynnag, ac am ba reswm bynnag, onid yw hyn yn profi unwaith eto pa mor anodd ydyw i'r Cynulliad ddatblygu ei agenda?

A gadarnhewch y bydd y Cynulliad yn ffodus os caiff bum Mesur drwy'r rhaglen ddeddfwriaethol, os ailadroddir y patrwm hwn yn ystod cyfnod y Senedd hon, ac y bydd yn canfod y bydd 15 o Fesurau a gynigir ganddo yn methu? A wnewch ailystyried y weithdrefn gyflym, yn arbennig ar gyfer y Mesurau hynny y mae consensws yn eu cylch o fewn y Cynulliad, megis y cyfrifiad, a phennu Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl y banc? Pam nad oes modd, os oes consensws, defnyddio'r Uwch Bwyllgor Cymreig i lywio'r math hwn o ddeddfwriaeth annadleuol? Pam bod yn rhaid inni aros ein tro flwyddyn ar ôl blwyddyn cyn y cyflwynir y math hwnnw o ddeddfwriaeth inni?

Y mater pwysig arall yr hoffwn eich holi yn ei gylch yw cyfranogiad ehangach y sector preifat yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Darllenais â diddordeb mawr, eich geiriau gofalus iawn ynglŷn â'r gwasanaethau cyhoeddus. Dywedaso:

'However, I am sure that you will agree that money alone is not enough. Better public services require reform, better management, a focus on delivering for the people who matter—the public—and the willingness to concede that just because we have always done something, that does not mean that it is always right.'

Are those not other words for privatisation? Why did you not utter that word? The Prime Minister has no qualms about the private sector's involvement in our public services. Do you support the private sector's involvement in public services? Do you want to see, for example, private facilities used to deliver NHS care? [CONSERVATIVE ASSEMBLY MEMBERS: 'Hear, hear.']

Is it not interesting that we have this right wing agenda, this new axis, appearing in politics in Wales? Do you think that it is right to involve the private sector in the NHS, or do you agree with the General Secretary of Unison, who said that it is creeping privatisation within public services? Do you support the creation of specialist schools and sponsorship in schools and would you be happy for schools to be run by private companies? Do you want that to happen? Can you give firm guarantees that the legislation that will be framed will allow the National Assembly the greatest degree of flexibility on how those regulations are introduced? Secretary of State, is there not a danger now that a gulf is appearing between a right-wing agenda, pursued by the UK Government in Westminster, and the aspirations of the people of Wales, who want to see public money invested in decent public services? Is it not true that a great divide exists between the right-wing Westminster Government and the people of Wales, who want to see something different?

3:10 p.m.

Glyn Davies: Knock the socialists down.

The Presiding Officer: Order. Glyn Davies,

'Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno nad arian yn unig yw'r ateb. Yr hyn sydd ei angen ar gyfer gwell gwasanaethau cymdeithasol yw diwygio, gwell rheoli, canolbwyntio ar ddarparu ar gyfer y bobl sydd o bwys—sef y cyhoedd—a pharodrwydd i gyfaddef nad yw ffordd o wneud rhywbeth bob amser yn gywir am ein bod wedi ei wneud felly erioed.'

Onid yw'r geiriau hyn yn aralleiriad am breifateiddio? Pam na ddefnyddiasoch y gair hwnnw? Nid oes gan Brif Weinidog y DU unrhyw amheuan ynglŷn â chyfranogiad y sector preifat yn ein gwasanaethau cyhoeddus. A gefnogwch gyfranogiad y sector preifat yn y gwasanaethau cyhoeddus? A hoffech, er enghraifft, weld cyfleusterau preifat yn cael eu defnyddio i ddarparu gofal NHS? [AELODAU CEIDWADOL O'R CYNULLIAD: Clywch, clywch.']

Onid yw'n ddiddorol bod gennym yr agenda adain dde hon, yr echel newydd hon, yn ymddangos yng ngwleidyddiaeth Cymru? A gredwch ei bod yn briodol cynnwys y sector preifat yn yr NHS, neu a gytunwch ag Ysgrifennydd Cyffredinol Unsain, a ddywedodd ei fod yn breifateiddio graddol o fewn y gwasanaethau cyhoeddus? A gefnogwch y cynnig i greu ysgolion arbenigol a nawdd mewn ysgolion ac a fydddech yn fodlon i ysgolion gael eu rhedeg gan gwmnïau preifat? A ydych am i hynny ddigwydd? A allwch roi sicrwydd cadarn y bydd y ddeddfwriaeth a lunnir yn caniatáu'r hyblygrwydd mwyaf i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran sut y caiff y rheoliadau hynny eu cyflwyno? Ysgrifennydd Gwladol, onid oes perygl yn awr bod agendor yn agor rhwng agenda adain dde, a ddilynir gan Lywodraeth y DU yn San Steffan, a dyheadau pobl Cymru, sydd am weld arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus safonol? Onid yw'n wir bod rhwyg mawr rhwng Llywodraeth adain dde San Steffan a phobl Cymru, sydd am weld rhywbeth gwahanol?

Glyn Davies: Lloriwch y sosialwyr.

Y Llywydd: Trefn. Glyn Davies, os hoffech

if you wish to be called later I would ask you to remain in order.

The Secretary of State for Wales: I thank Ieuan for his congratulations on my becoming the Secretary of State for Wales in this new Parliament. A great deal was contained in his speech. I will start by referring to the points he raised about jobs. It is important that we reflect on the last few years in Wales and recognise that we have had to manage a huge change in how some of our people earn their living. I represent a constituency that is almost entirely based on manufacturing. It has received good and bad news. The bad news was for the 500 Corus employees, who were constituents of mine and who lost their jobs. We are all united in condemning the company's short-term decision to close down its plants or parts of its plants. In the same week that those job losses were announced, I opened two factories that will employ six or seven hundred people in high technology. The number of employed people in Wales is much higher now compared to four or five years ago. I do not underestimate the impact of those redundancies on those who lost their jobs and their families. On the other hand, I must emphasise that there has been a change in the Welsh economy and we must ensure that we manage that. We must, in particular, use Objective 1 funding, and the skills of Assembly officials to ensure that people are trained. In partnership with the Assembly, I believe that we are taking advantage of the new economy.

I accept your point on the Adoption and Children Bill and the Communications Draft Bill. It is important that the latter is in draft as it gives Assembly Members, as well as Members of the House of Commons, the opportunity to consider it in detail and see how it would affect Wales.

You are correct in saying that this is the first full post-devolution Parliament and that we must work out how we assess the success, or otherwise, of the United Kingdom Government. I believe that in the last three-and-a-half weeks the people of Wales gave a resounding 'Yes' to the success of the last

gael eich galw yn nes ymlaen, gofynnaf ichi gadw mewn trefn.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Diolch i Ieuan am ei longyfarchiadau ar fy mhenodiad yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gyfer y tymor Seneddol newydd hwn. Yr oedd cryn dipyn yn ei araith. Dechreuaf drwy gyfeirio at y pwyntiau a gododd ynglŷn â swyddi. Mae'n bwysig inni ystyried yr ychydig flynyddoedd diwethaf yng Nghymru a chydabod y bu'n rhaid inni reoli newid mawr yn y ffordd y mae rhai o'n pobl yn ennill eu bywoliaeth. Cynrychiolaf etholaeth sydd wedi'i seilio bron yn gyfan gwbl ar weithgynhyrchu. Cafodd newyddion da a newyddion drwg. I'r 500 o weithwyr yn Corus, sydd yn fy etholaeth i, a gollodd ei swyddi yr oedd newyddion drwg. Yr ydym yn unfrydol yn ein beirniadaeth o benderfyniad byrdymor y cwmni i gau ei weithfeydd neu rannau o'i weithfeydd. Yn yr un wythnos ag y cyhoeddwyd y diswyddiadau hynny, agorais ddwy ffatri a fydd yn cyflogi 600 neu 700 o bobl ym maes uwchdechnoleg. Mae nifer y bobl mewn gwaith yng Nghymru yn llawer uwch ar hyn o bryd o gymharu â'r nifer bedair neu bum mlynedd yn ôl. Nid wyf yn dibrisio effaith y diswyddiadau hyn ar y rhai a gollodd eu swyddi ynghyd â'u teuluoedd. Ar y llaw arall, rhaid imi bwysleisio bod economi Cymru wedi newid a rhaid inni sicrhau ein bod yn rheoli hynny. Rhaid inni, yn arbennig, ddefnyddio arian Amcan 1, a sgiliau swyddogion y Cynulliad i sicrhau y caiff pobl hyfforddiant. Mewn partneriaeth â'r Cynulliad, credaf ein bod yn manteisio ar yr economi newydd.

Derbyniaf eich pwynt ar y Mesur Mabwysiadu a Phlant a'r Mesur Cysylltiadau Drafft. Mae'n bwysig bod yr olaf ar ffurf ddrafft am ei fod yn rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad, yn ogystal ag Aelodau Tŷ'r Cyffredin, ei ystyried yn fanwl a gweld sut y byddai'n effeithio ar Gymru.

Mae'n wir, fel y dywedasoch mai hwn fydd y tymor llawn cyntaf o'r Senedd wedi datganoli a bod yn rhaid inni benderfynu sut yr ydym yn asesu llwyddiant, neu fethiant, Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Credaf i bobl Cymru yn ystod y tair wythnos a hanner diwethaf roi 'Ie' pendant i lwyddiant y

Labour Government by voting us back into office with a majority of over 160 seats.

Owen John Thomas: But you received around 200,000 votes less.

The Secretary of State for Wales: Whatever the number of votes, we cannot pick and choose the nature of our democracy. It is only the second time in this country's history that a Labour Government has been elected with a majority of that size. I must say to Ieuan that there is a mandate for improved public services and I agree that no-one can be complacent. However, whatever the election result, funding is available because of the strong economy, which means that we must ensure that we deliver on public services.

Ieuan asked about other Bills. There is no question of rejecting Bills. It is a question of not being able to include everything in the first session. Many of my colleagues have made bids for a variety of Bills: the Tobacco Advertising and Promotion Bill, the Bill dealing with licensing, the Local Government Finance Bill and so on. All of these are important and all apply specifically to the people of Wales. It is a question of passing Bills in the first session and then building on others.

My other point to Ieuan is that it is not only through Wales-only Bills that we can achieve primary legislation for Wales. I indicated that the whole post-16 education system in Wales was transformed because of a Bill that was not Wales-only, but which included 37 Welsh clauses. We had the provisions for the Children's Commissioner for Wales in the Care Standards Bill—in an English Bill, if you like—but it was, nevertheless, an English and Welsh Bill. We do not achieve primary legislation just through single Bills; we can do so in other ways.

You touched upon two matters, the census and St David's Day. Making St David's Day a public holiday, as the First Minister said in his answer, is still under discussion. It is not simple; it is a complicated issue. The matter

Llywodraeth Lafur ddiwethaf drwy bleidleisio drosom gan sicrhau mwyafrif o dros 160 o seddau.

Owen John Thomas: Ond cawsoch tua 200,000 yn llai o bleidleisiau.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Waeth beth fo nifer y pleidleisiau, ni allwn ddewis a dethol natur ein democratiaeth. Dyma'r ail dro yn unig yn hanes y wlad hon i Lywodraeth Lafur gael ei hethol gyda mwyafrif o'r maint hwnnw. Rhaid imi ddweud wrth Ieuan fod mandad dros wasanaethau cyhoeddus gwell, a chytunaf na all unrhyw un fod yn hunanfodlon. Fodd bynnag, waeth beth fo canlyniad yr etholiad, mae arian ar gael oherwydd yr economi gref, sydd yn golygu bod yn rhaid inni sicrhau ein bod yn cyflawni o ran gwasanaethau cyhoeddus.

Holodd Ieuan ynglŷn â'r Mesurau eraill. Nid oes unrhyw gwestiwn o wrthod Mesurau. Y broblem yw cynnwys popeth yn y sesiwn gyntaf. Gwnaeth llawer o'm cyd-Aelodau geisiadau am amrywiaeth o Fesurau: y Mesur Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco, y Mesur sydd yn ymwneud â thrwyddedu, Mesur Cyllid Llywodraeth Leol ac ati. Mae pob un o'r rhain yn bwysig ac maent oll yn berthnasol iawn i bobl Cymru. Yr hyn sydd angen ei wneud yw pasio Mesurau yn y sesiwn gyntaf ac yna adeiladu ar eraill.

Fy mhwynt arall i Ieuan yw nad Mesurau i Gymru yn unig yw'r unig ffordd o gyflawni deddfwriaeth sylfaenol i Gymru. Nodais i'r holl system addysg ôl-16 yng Nghymru gael ei thrawsnewid drwy Fesur nad oedd yn Fesur i Gymru yn unig, ond a gynhwysai 37 o gymalau Cymreig. Darparwyd ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru yn y Mesur Safonau Gofal—mewn Mesur ar gyfer Lloegr, os mynnwch—ond bu, serch hynny, yn Fesur i Gymru a Lloegr. Ni chyflawnwn deddfwriaeth sylfaenol drwy Fesurau unigol yn unig; gallwn wneud hynny mewn ffyrdd eraill.

Crybwyllasoch ddau fater, y cyfrifiad a Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r cais i bennu Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl y banc, fel y dywedodd Prif Weinidog Cymru yn ei ateb, yn cael ei drafod o hyd. Nid mater syml ydyw; mae'n

of a Bill on the census is not urgent, because of the amount of time before the next census. It may only require secondary legislation; it may require primary legislation. However, the Government entirely accepts the principle of the Assembly having a much greater say in the nature and formulation of the census, it is just a question of deciding when the best and most convenient time for such legislation will be.

As to privatisation and the mix of private and public money, I say straight away that the Government is not privatising anything. There is a world of difference between what we saw with privatisation schemes in the past—the railways are an example, a bad example—and being able to use a partnership between the public and private sectors so that you can improve service delivery. If I am in hospital waiting for an operation, or I need health care, I do not care—as long as I do not have to pay, and I am dealt with by people working for the national health service—if it is done in a slightly different way. Alan Milburn, the Secretary of State for Health, pointed out recently the restricted ways in which that could occur.

Secondly, it seems that the Assembly has by no means rejected partnership between the public and private sectors. Ten local authorities have contracts with the private sector, including local authorities controlled by Plaid Cymru. They can benefit from the provision of hospitals and primary and secondary schools. No one says that that is wrong. What is wrong with it? It is for the Assembly to decide within the legislation permitted, you may or you may not; it is up to you. It is not novel that the Assembly is building schools and hospitals through a partnership between the public and the private sectors. The hospitals at Chepstow and Baglan, two schools in Caerphilly and a primary school in Pembrokeshire are being built with that method of finance. The Government is not imposing solutions on the Assembly; it is for the Assembly to use this method of finance, if it so wishes.

gymhleth. Nid oes brys cyflwyno Mesur ar y cyfrifiad am fod cymaint o amser cyn y cyfrifiad nesaf. Efallai y bydd ond yn galw am is-deddfwriaeth; efallai y bydd yn galw am deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn llwyr dderbyn yr egwyddor o roi mwy o lais i'r Cynulliad o ran natur y cyfrifiad a'r ffordd y caiff ei lunio, mater o benderfynu ar yr adeg orau a mwyaf cyfleus i gyflwyno deddfwriaeth o'r fath ydyw.

O ran preifateiddio a chyfuniad o arian preifat a chyhoeddus, dywedaf yn blwmp ac yn blaen na fydd y Llywodraeth yn preifateiddio unrhyw beth. Mae byd o wahaniaeth rhwng yr hyn a welsom gyda chynlluniau preifateiddio'r gorffennol—mae'r rheilffyrdd yn enghraifft, yn enghraifft wael—a'r gallu i ddefnyddio partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Pe bawn yn yr ysbyty yn aros am lawdriniaeth, neu pe bai angen gofal iechyd arnaf, ni hidiwn—ar yr amod nad oes rhaid imi dalu, a'm bod yn delio â phobl sydd yn gweithio i'r gwasanaeth iechyd gwladol—pe câi ei wneud mewn ffordd ychydig yn wahanol. Nododd Alan Milburn, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn ddiweddar y ffyrdd cyfyngedig y gallai hynny ddigwydd.

Yn ail, ymddengys nad yw'r Cynulliad wedi gwrthod partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat o bell ffordd. Mae gan ddeg awdurdod lleol contractau gyda'r sector preifat, gan gynnwys awdurdodau lleol a reolir gan Blaid Cymru. Gallant elwa ar y ddarpariaeth o ysbytai ac ysgolion cynradd ac uwchradd. Nid oes unrhyw un yn dweud bod hynny'n amhriodol. Beth sydd o'i le arno? Y Cynulliad fydd yn penderfynu o fewn y ddeddfwriaeth a ganiateir, efallai y byddwch, efallai na fyddwch; chi fydd yn penderfynu. Nid yw'n beth newydd i'r Cynulliad adeiladu ysgolion ac ysbytai drwy bartneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r ysbytai yng Nghas-gwent ac ym Maglan, dwy ysgol yng Nghaerffili ac ysgol gynradd yn Sir Benfro yn cael eu hadeiladu drwy'r dull hwnnw o ariannu. Nid yw'r Llywodraeth yn gorfodi atebion ar y Cynulliad; y Cynulliad fydd yn penderfynu pa un a fydd

yn defnyddio'r dull ariannu hwn ai peidio.

However, it is important, so far as the devolution settlement is concerned, to ensure that enough permissive legislation is passed to give the Assembly the opportunity, if it wishes, to be able to use secondary legislation to do what it wants in order to improve the quality of our services. It is the quality of service that matters to the people whom we jointly represent. It will be for you to decide that, within a framework of permissive, not mandatory, legislation.

As far as specialist schools are concerned, I have no problem with diversity within the comprehensive system. [PLAID CYMRU ASSEMBLY MEMBERS: 'Selection?'] It is not selection. There are eight comprehensive schools in my constituency, two of which are diverse: one is a Catholic school and the other a Welsh-medium school. Both are different to the other schools: one set of parents sends its children to one school because of religion, and the other set wants its children to be taught through the medium of Welsh. I applaud both schools, but they are diverse. However, they are in the comprehensive system and what is wrong with that? I can see nothing wrong with that. Again, it is for you to decide how best you do that, because education is devolved to the Assembly. You decide what suits the nature of Wales and its geography, topography and so on. The opportunity provided in that legislation can only be for the good. I wholly reject any talk of a gulf between the Welsh Labour Party and the Labour Party in the United Kingdom. That was endorsed three-and-a-half weeks ago in the Westminster general election.

The Presiding Officer: I remind Members that this is not Westminster. Some Members may be missing Westminster, but they must not seek to interrupt the Secretary of State when they are seated. If Members want to raise questions they must catch the Presiding Officer's eye.

3:20 p.m.

Alun Pugh: Cartoon characters with daft

Fodd bynnag, o ran y setliad datganoledig, mae'n bwysig sicrhau y caiff digon o ddeddfwriaeth ganiataol ei phasio i roi cyfle i'r Cynulliad, os dymuna, ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i wneud yr hyn y mae am ei wneud er mwyn gwella ansawdd ein gwasanaethau. Ansawdd y gwasanaeth sydd yn bwysig i'r bobl yr ydym yn eu cyd-gynrychioli. Chi fydd yn penderfynu ar hynny, o fewn fframwaith deddfwriaeth ganiataol, ac nid gorfodol.

O ran yr ysgolion arbenigol, nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i amrywiaeth o fewn y system ysgolion cyfun [AELODAU PLAID CYMRU O'R CYNULLIAD: 'Dethol?'] Nid dethol mohono. Mae wyth o ysgolion cyfun yn fy etholaeth i, gyda dwy ohonynt yn wahanol: mae un ohonynt yn ysgol Babyddol a'r llall yn ysgol Gymraeg. Mae'r ddwy yn wahanol i'r ysgolion eraill: mae un grŵp o rieni yn anfon eu plant i'r naill ysgol am resymau crefyddol, ac mae'r grŵp arall yn anfon eu plant i gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymeradwyaf y ddwy ysgol, ond maent yn wahanol. Fodd bynnag, maent o fewn y system ysgolion cyfun a beth sydd o'i le ar hynny? Nid oes dim o'i le ar hynny yn fy marn i. Unwaith eto, chi fydd yn penderfynu ar y ffordd orau o wneud hynny, am fod addysg wedi'i datganoli i'r Cynulliad. Chi sydd yn penderfynu beth fydd yn gweddu â natur Cymru, ei daearyddiaeth, tirwedd ac ati. Mae'r cyfle a roddir yn y ddeddfwriaeth honno ond er gwell. Gwrthodaf yn llwyr y syniad bod agendor rhwng Plaid Lafur Cymru a'r Blaid Lafur yn y Deyrnas Unedig. Ategwyd hynny dair wythnos a hanner yn ôl yn etholiad cyffredinol San Steffan.

Y Llywydd: Atgoffaf yr Aelodau nad San Steffan mo'r Cynulliad. Efallai bod rhai Aelodau yn gweld eisiau San Steffan, ond rhaid iddynt beidio â cheisio ymyrryd ar yr Ysgrifennydd Gwladol pan fyddant ar eu heistedd. Os hoffai'r Aelodau godi cwestiynau rhaid iddynt ddal sylw'r Llywydd.

Alun Pugh: Mae cymeriadau cartŵn gydag

names, in fancy dress, walking backwards are appropriate on Colwyn Bay prom day, but I am not sure what place they have in a twenty-first century democracy. Having said that I can understand why the Queen uses a horse-drawn carriage rather than Railtrack, which was John Major's lasting legacy to the British people. The content of the Queen's Speech was good. During the election campaign in Clwyd West, Gareth Thomas and I listened to the concerns of local people on crime and anti-social behaviour. I am delighted that my colleague, Gareth Thomas MP is in the public gallery today. Crime and public services were much greater concerns on the doorsteps than the euro or asylum seekers.

I welcome the proposals to seize the assets of drug dealers. The north Wales coast has its fair share of drug problems. I also know of someone who is making £100,000 per year from pushing a lethal and highly addictive drug to young girls in the third world. He was busy again last week. Does the Government have any plans to seize Kenneth Clarke's assets?

The Presiding Officer: Order. I called Alun Pugh to ask a serious question of the Secretary of State for Wales. I am afraid that that was not a serious question, and I will not allow it. I will give him an opportunity to ask a serious question—[PLAID CYMRU ASSEMBLY MEMBERS: 'Why?'] Order. He was called to ask a question, he has not yet done so.

Alun Pugh: Does the Secretary of State for Wales understand that crime and public services are of greatest concern to the public, and that the delivery of the agenda on crime and public services will be the major consideration for this Assembly and the UK Government in the future?

The Secretary of State for Wales: I am sure that you would rule me out of order, Presiding Officer, if I were to comment on Mr Kenneth Clarke.

enwau gwirion, mewn gwisg ffansi, yn cerdded wysg eu cefn yn addas ar ddiwrnod prom Bae Colwyn, ond nid wyf yn siŵr a oes lle iddynt mewn gwlad ddemocrataidd yn yr unfed ganrif ar hugain. Wedi dweud hynny gallaf ddeall pam bod y Frenhines yn defnyddio cerbyd â cheffylau yn hytrach na Railtrack, sef gwaddol barhaol John Major i bobl Prydain. Yr oedd cynnwys Araith y Frenhines yn dda. Yn ystod yr ymgyrch etholiadol yng Ngorllewin Clwyd, gwrandawodd Gareth Thomas a minnau ar bryderon pobl leol ynglŷn â throseddu ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Yr wyf yn falch o nodi bod fy nghyd-aelod, Gareth Thomas AS yn yr oriel gyhoeddus heddiw. Yr oedd llawer mwy o bryder ynglŷn â throseddu a gwasanaethau cyhoeddus ar garreg y drws na'r ewro neu geiswyr lloches.

Croesawaf y cynigion i atafaelu asedau gwerthwyr cyffuriau. Gwelir cryn dipyn o broblemau sydd yn ymwneud â chyffuriau ar arfordir gogledd Cymru. Gwn hefyd am rywun sydd yn ennill £100,000 y flwyddyn drwy werthu cyffur marwol, sydd yn peri i'w ddefnyddwyr fynd yn gaeth iawn iddo i ferched ifanc yn y trydydd byd. Bu wrthi drachefn yr wythnos diwethaf. A oes gan y Llywodraeth unrhyw fwriad i atafaelu asedau Kenneth Clarke?

Y Llywydd: Trefn. Gelwais ar Alun Pugh i ofyn cwestiwn difrifol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Nid oedd hwnnw'n gwestiwn difrifol mae arnaf ofn, ac ni fyddaf yn ei ganiatáu. Rhoddaf gyfle iddo ofyn cwestiwn difrifol—[AELODAU PLAID CYMRU O'R CYNULLIAD: 'Pam?'] Trefn. Fe'i galwyd i ofyn cwestiwn, nid yw wedi gwneud hynny eto.

Alun Pugh: A yw Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn deall bod troseddu a gwasanaethau cyhoeddus o'r pwys mwyaf i'r cyhoedd, ac mai cyflawni'r agenda ar droseddu a gwasanaethau cyhoeddus fydd prif ystyriaeth y Cynulliad hwn a Llywodraeth y DU yn y dyfodol?

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Yr wyf yn siŵr y byddech yn dyfarnu fy mod allan o drefn, Lywydd, pe bawn yn rhoi sylwadau ar Mr Kenneth Clarke.

The Presiding Officer: Order. Yes, I would.

Y Llywydd: Trefn. Byddwn.

The Secretary of State for Wales: We will have to wait to see the result of the Conservative leadership contest. Of all the issues that we—from whichever party—encountered during the general election campaign, crime and public services were at the top of the public's list of priorities. I also accept Alun Pugh's elliptical point on tobacco, in the sense that the Tobacco Advertising and Promotion Bill is important. I am sure that it will not be long before it comes before us in the House of Commons. I know that Assembly Members will welcome it.

Nick Bourne: Before I welcome Paul Murphy, I congratulate the leader of Plaid Cymru. The case for socialism needs to be made. I do not agree with it, but it is refreshing to hear it being presented in this Chamber. With the possible, occasional exception of Brian Gibbons, the case for socialism is never made by the party that likes to remind us that it leads the Assembly. Rhodri Morgan said earlier how well PFI worked in relation to the A55 in Anglesey. We also heard from the Secretary of State for Wales on the importance of private finance. I welcome this conversion. There are good parts in the Queen's Speech mostly concerning the adoption of Conservative principles. The Government is to be congratulated on those parts of the speech, if not on others. Congratulations to the leader of Plaid Cymru, we look forward to hearing him put the case for nationalism with equal fervour because that does not seem to happen.

I welcome the Secretary of State for Wales; it is a pleasure to see him here. I endorse the congratulations on becoming Secretary of State for Wales again and extend my congratulations to Gareth Thomas on becoming your Parliamentary Private Secretary. We appreciate your visits. As you know, I have been in correspondence with you and we think that it is vital that you visit us often. I hope that you will be able to take up that opportunity. You have indicated that you would be happy to come here more often, which begs the question of what or

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Bydd yn rhaid inni aros i weld canlyniad gornest arweinyddiaeth y Ceidwadwyr. O'r holl faterion a wynebwyd gennym—o ba blaidd bynnag—yn ystod ymgyrch yr etholiad cyffredinol, troseddu a gwasanaethau cyhoeddus oedd ar frig rhestr blaenoriaethau'r cyhoedd. Derbynïaf hefyd bwynt eliptig Alun Pugh ar dybaco, yn yr ystyr bod y Mesur Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco yn bwysig. Yr wyf yn siŵr na fydd yn rhaid aros yn hir cyn y daw ger ein bron yn Nhŷ'r Cyffredin. Gwn y bydd Aelodau'r Cynulliad yn croesawu hynny.

Nick Bourne: Cyn imi groesawu Paul Murphy, llongyfarchaf arweinydd Plaid Cymru. Mae angen dadlau dros achos sosialaeth. Ni chytunaf â hi, ond mae'n chwa o awyr iach ei chlywed yn cael ei chyflwyno yn y Siambr hon. Ac eithrio Brian Gibbons o bosibl ar adegau, ni ddadleuwyd byth dros sosialaeth gan y blaidd sydd yn hoff o'n hatgoffa ei bod yn arwain y Cynulliad. Dywedodd Rhodri Morgan yn gynharach pa mor dda y gweithiai'r fenter cyllid preifat mewn perthynas â ffordd yr A55 yn Ynys Môn. Clywsom hefyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru am bwysigrwydd cyllid preifat. Croesawaf y dröedigaeth hon. Mae rhannau da yn Araith y Frenhines, yn ymwneud yn bennaf â mabwysiadu egwyddorion Ceidwadol. Rhaid llongyfarch y Llywodraeth am y rhannau hynny o'r araith, os nad ar rai eraill. Llongyfarchiadau i arweinydd Plaid Cymru, edrychwn ymlaen at ei glywed yn dadlau dros genedlaetholdeb yr mor danbaid am nad ymddengys fod hynny'n digwydd.

Croesawaf Ysgrifennydd Gwladol Cymru; mae'n bleser ei weld yma. Atefaff y llongyfarchiadau iddo am gael ei benodi'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru drachefn a llongyfarchaf Gareth Thomas ar ei benodiad fel eich Ysgrifennydd Seneddol Preifat. Yr ydym yn gwerthfawrogi'ch ymweliadau. Fel y gwyddoch, bŵm mewn gohebiaeth â chi a chredwn ei bod yn holl bwysig ichi ymweld â ni yn aml. Gobeithïaf y byddwch yn gallu manteisio ar y cyfle hwnnw. Dywedasochn y byddech yn fodlon dod yma yn amlach, sydd yn codi'r cwestiwn beth neu bwy sydd yn

who is preventing that from happening. We would welcome your presence here because the link between the Assembly and Westminster is vital.

By way of background, and I make no apology for stating the background given that the Secretary of State also did so, I will say that there are important issues facing Wales. We had better remember what they are because the Queen's Speech should be considered against that background. First, the implementation of Objective 1 is of prime importance. Even though I do not move in the same elevated circles as the First Minister and therefore do not speak to officials, I know that on the ground, in the Valleys and in west Wales, people are concerned that it is not operating as well as it should be. I take cold comfort from the fact that Cornwall is even further behind us. It remains a key issue and this Queen's Speech does not seem to do much to help it.

On health, Welsh waiting lists are longer than in England. How to get money to the sharp end of delivery in the health service is still a prime issue. It is not happening. Manufacturing job losses across Wales have already been mentioned. Since you were last with us, job losses have occurred principally at Corus, which is another key issue.

On education, money is not going directly to schools. The Welsh Conservatives believe emphatically that money should go directly to schools and not be creamed off by local education authorities, as is the case at present.

I welcome your commitment to what you call diversity. I hope that that was passed on to the Secretary of State for Education and Skills. I welcome your commitment to involving the private sector in education. I hope that that was also passed on to the Secretary of State for Education and Skills. She, unlike myself, went to a private school, and so knows of the benefits of the private sector. Let us hope that we can harness a partnership between the private and public sector to deliver better education for people in Wales.

atal hynny rhag digwydd. Byddem yn croesawu'ch presenoldeb yma am fod y cyswllt rhwng y Cynulliad a San Steffan yn holl bwysig.

Fel cefndir, ac nid ymddiheuraf am roi'r cefndir o gofio i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud hynny hefyd, dywedaf fod materion pwysig yn wynebu Cymru. Mae'n well inni eu dwyn ar gof oherwydd yn erbyn y cefndir hwnnw y dylid ystyried Araith y Frenhines. Yn gyntaf, mae gweithredu Amcan 1 o'r pwys mwyaf. Er nad wyf yn symud yn yr un byd dyrchafedig â Phrif Weinidog Cymru ac felly nad wyf yn siarad â swyddogion, gwn ar lawr gwlad, yn y Cymoedd ac yng ngorllewin Cymru, fod pobl yn pryderu nad yw'n gweithredu cystal ag y dylai. Nid yw'r ffaith bod Cernyw ar ei hôl hi fwy byth yn rhoi llawer o gysur imi. Erys yn fater allweddol ac ymddengys nad yw Araith y Frenhines eleni yn gwneud ryw lawer i'w helpu.

O ran iechyd, mae'r rhestrau aros yng Nghymru yn hwy na'r rhai yn Lloegr. Mae sut i sicrhau bod arian yn cyrraedd y manau lle y darperir gwasanaethau yn y gwasanaeth iechyd yn fater o'r pwys mwyaf o hyd. Nid yw'n digwydd. Soniwyd am swyddi gweithgynhyrchu a gollwyd ar draws Cymru. Ers y tro diwethaf ichi fod gyda ni, cafwyd diswyddiadau yn bennaf yn Corus, sef mater allweddol arall.

O ran addysg, nid yw'r arian yn mynd yn uniongyrchol i ysgolion. Cred Ceidwadwyr Cymru yn gryf y dylid rhoi'r arian yn uniongyrchol i ysgolion ac ni ddylai gael ei ddargyfeirio gan awdurdodau addysg lleol, fel sydd yn digwydd ar hyn o bryd.

Croesawaf eich ymrwymiad i'r hyn a alwch yn amrywiaeth. Gobeithiaf i hynny gael ei gyfleu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau. Croesawaf eich ymrwymiad i gynnwys y sector preifat ym maes addysg. Gobeithiaf i hynny gael ei drosglwyddo hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau. Mynychodd hi ysgol fonedd, yn wahanol i mi, ac felly mae'n ymwybodol o fanteision y sector preifat. Gobeithio y gallwn feithrin partneriaeth rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus er mwyn darparu addysg well i

bobl Cymru.

Another principal issue that was not mentioned as a backdrop is the rural crisis that currently besets Wales. There is nothing in the Queen's Speech to deal with the dreadful impact of the foot and mouth disease outbreak and the rural post offices that are closing because of automated credit transfer. The Government is still committed to an ACT system, but it is leading to the closure of post offices throughout Wales, in urban and rural areas. The only mention of rurality in this Queen's Speech is the old chestnut of banning fox hunting. It is far more important to deal with the deep-seated problems facing rural Wales. There is nothing in this legislative programme that will do that.

I move to important issues that have not been included in this Queen's Speech, such as a package of assistance for rural Wales. On education, we want money to go directly to schools. We welcome your commitment to involve the private sector. We want St David's Day to be a public holiday in Wales. Can you tell us where we stand on that? There is no mention of it in this legislative programme, as we heard from the Plaid Cymru leader. We requested for it to be included in a Queen's Speech. However, it is not in this one. What is its progress? Will it be forthcoming in the next session?

Similarly, on the census, we do not want a repeat of the dog's dinner, not to mention the pig's breakfast, that we witnessed this year. Where does the Government stand on that? We also requested for that to be included in this Queen's Speech, but it is not present.

Therefore, this Queen's Speech lacks vision. It lacks a guiding light for Wales. While there are items that we welcome, such as the Adoption and Children Bill and, as in the last legislative programme, the Children's Commissioner for Wales Bill, there is nothing that will specifically improve public services in Wales. There is nothing for rural Wales, nothing that will improve public

Mater arall o bwys nas crybwyllwyd fel cefndir yw'r argyfwng yng nghefn gwlad a wyneba Cymru ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw beth yn Araith y Frenhines sydd yn delio ag effaith ofnadwy clwy'r traed a'r genau a'r swyddfeydd post gwledig sydd yn cau oherwydd trosglwyddo credyd wedi'i awtomeiddio. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig o hyd i system o'r fath, ond mae'n arwain at gau swyddfeydd post ar draws Cymru, mewn ardaloedd trefol a gwledig. Yr unig sôn am wledigrwydd yn Araith y Frenhines eleni yw'r hen stori am wahardd hela llwynogod. Mae ymdrin â'r problemau dwys a wyneba Cymru wledig yn llawer pwysicach. Nid oes unrhyw beth yn y rhaglen ddeddfwriaethol a fydd yn gwneud hynny.

Trof at faterion pwysig nas cynhwyswyd yn Araith y Frenhines eleni, megis pecyn cymorth i Gymru wledig. O ran addysg, yr ydym am weld arian yn cael ei roi'n uniongyrchol i ysgolion. Croesawn eich ymrwymiad i gynnwys y sector preifat. Hoffem weld Dydd Gŵyl Dewi yn cael ei bennu'n ŵyl gyhoeddus yng Nghymru. A allwch egluro inni beth yw'r sefyllfa o ran hynny? Nid oes unrhyw sôn amdani yn y rhaglen ddeddfwriaethol hon, fel y nododd arweinydd Plaid Cymru. Gwnaethom gais iddo gael ei gynnwys mewn Araith gan y Frenhines. Fodd bynnag, nid yw wedi'i gynnwys yn yr araith hon. Beth yw'r sefyllfa ynglŷn â hyn? A fydd yn ymddangos yn y sesiwn nesaf?

Yn yr un modd, o ran y cyfrifiad, nid ydym am weld y traed moch y gwelsom y llynedd eto. Beth yw safbwynt y Llywodraeth ar hynny? Gofynasom hefyd i hynny gael ei gynnwys yn Araith y Frenhines eleni, ond nid yw yno.

Felly, nid oes gweledigaeth o fewn Araith hon y Frenhines. Nid oes unrhyw arweiniad i Gymru. Er bod eitemau ynddi a groesawn, megis y Mesur Mabwysiadu a Phlant ac, fel yn y rhaglen ddeddfwriaethol ddiwethaf, Mesur Comisiynydd Plant Cymru, nid oes unrhyw beth a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus yn benodol yng Nghymru. Nid oes unrhyw beth ar gyfer Cymru wledig, nid

services by raising the standard of our health service to the same standard as that of the service in England, and no measure to ensure that schools in Wales receive as much money as English schools enjoy. At the moment, Welsh schools receive less.

Will you comment on those specific matters as well as the general issues that remain of concern? Will you comment on manufacturing jobs, the state of the health and the education services and, in particular, rural Wales?

The Secretary of State for Wales: Thank you for your best wishes on my appointment. There is a strong case for socialism in the Queen's Speech. Socialism is not merely about providing decent public services in education and health. It is also about taking people out of poverty. Many children in the United Kingdom have been freed from poverty because of the Government's actions. Our pensioners have also been freed from poverty. We do not have enough time today to discuss all the issues that require further discussion in this Chamber.

Perhaps I can particularise on the points that you have made. I agree with you that the theme of all of these issues is delivery, whether it is Objective 1, the health service or our schools. I also take your point about job losses, without repeating myself to you. It is of great concern to us, but the Government is pursuing policies that will address that.

I have already referred to St David's Day and the census. There are ongoing discussions about St David's Day, and I agree with your general point about the census. However, the Assembly must have a different role next time, and we must somehow legislate on that matter as soon as we can, although it is not urgent.

3:30 p.m.

Will this legislative programme improve people's lives in Wales? In terms of what the

oes unrhyw beth a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus drwy godi safon ein gwasanaeth iechyd i safon y gwasanaeth yn Lloegr, ac nid oes unrhyw fesur i sicrhau bod ysgolion yng Nghymru yn cael yr un swm o arian ag ysgolion Lloegr. Ar hyn o bryd, mae ysgolion yng Nghymru yn cael llai o arian.

A wnewch roi sylwadau ar y materion penodol hynny yn ogystal â'r materion cyffredinol sydd yn achosi pryder o hyd? A wnewch roi sylwadau ar swyddi gweithgynhyrchu, cyflwr y gwasanaethau iechyd ac addysg ac, yn benodol, ar gyflwr Cymru wledig?

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Diolch ichi am eich dymuniadau gorau ar fy mhenodiad. Mae achos cryf dros sosialaeth yn Araith y Frenhines. Nid darparu gwasanaethau cyhoeddus safonol yw unig nod sosialaeth. Mae'n ymwneud â rhyddhau pobl rhag tlodi. Rhyddhawyd llawer o blant yn y Deyrnas Unedig rhag tlodi drwy weithrediadau'r Llywodraeth. Rhyddhawyd ein pensïynwyr rhag tlodi hefyd. Nid oes gennym ddigon o amser heddiw i drafod yr holl faterion sydd angen eu trafod ymhellach yn y Siambr hon.

Efallai y gallaf fanylu ar y pwyntiau a wnaethoch. Cytunaf â chi mai darparu yw thema'r holl faterion hyn, pa un a sonnir am Amcan 1, y gwasanaeth iechyd neu ein hysgolion. Derbyniaf eich pwysig ynglŷn â diswyddiadau hefyd, er na fyddaf yn ailadrodd yr hyn a ddywedais yn gynharach. Mae'n bryder mawr inni, ond mae'r Llywodraeth yn mynd ar drywydd polisïau a fydd yn mynd i'r afael â hynny.

Cyfeiriais eisoes at Ddydd Gŵyl Dewi a'r cyfrifiad. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ar Ddydd Gŵyl Dewi, a chytunaf â'ch pwynt cyffredinol ar y cyfrifiad. Fodd bynnag, rhaid i'r Cynulliad gael rôl wahanol y tro nesaf, a rhaid inni ddeddfu ryw ffordd neu'i gilydd ar y mater hwnnw cyn gynted ag y gallwn, er nad oes brys.

A fydd y rhaglen ddeddfwriaethol hon yn gwella bywydau pobl yng Nghymru? O ran

English and Welsh Bills propose to do, it certainly will. It is a legislative programme that will ensure that we tackle criminals and seize their assets, and help pensioners and families. The second part of the equation is not for me, but rather it is for the Assembly. Although this is a framework within which the Assembly can work—including a Bill for Wales to implement its own plan for the health service—decisions about how best to deliver services, having provided the finance and the legislative framework, are for the National Assembly. That is probably the most difficult aspect. Even though money and legislation are important, at the end of the day, we always talk about the front line—the people in our hospitals and the children in our schools. That is why it is important for us in Government to work with Jane Hutt and Jane Davidson on those issues.

I welcomed the invitation to address the Assembly today. Although I have a right, as the Presiding Officer will tell you, to take up my seat in the Assembly at any time, I have declined to do so because it would not be right unless it was done in the spirit of consensus and that I was here to discuss issues that you wanted to discuss with me. I would be willing to do that whenever it is practicable. However, it must be done on the basis of how best Assembly Members think it would be for me to work with you to ensure that services are delivered. It would be worthwhile for the Assembly to consider the issue of committees scrutinising Bills. It could be done in the presence of a UK Government Minister, who would be able to explain the Government's point of view, and I would be delighted to visit the Assembly at any time.

Brian Gibbons: I also congratulate Paul on being reappointed Secretary of State for Wales. As Jane Hutt's representative on the miners' compensation monitoring committee, I know that Paul has done a tremendous amount of work to ensure that the process has proceeded apace. People in mining communities owe him a great debt and I am glad that he has been reappointed to continue with that good work.

yr hyn a gynigia'r Mesurau i Gymru a Lloegr, nid oes amheuaeth y gwna. Mae'n rhaglen ddeddfwriaethol a fydd yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â throseddwyd ac yn atafaelu eu hasedau, ac yn helpu pensiynwyr a theuluoedd. Y Cynulliad yn hytrach na mi fydd yn penderfynu ar ail ran y broses. Er bod hwn yn fframwaith y gall y Cynulliad weithio ynddo—gan gynnwys Mesur i Gymru roi ei chynlluniau ei hun ar waith ar gyfer y gwasanaeth iechyd—ar ôl darparu'r fframwaith cyllidol a deddfwriaethol, y Cynulliad fydd yn gwneud y penderfyniadau ar y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau. Dyna'r agwedd anoddaf yn ôl pob tebyg. Er bod arian a deddfwriaeth yn bwysig, yn y pen draw, yr ydym bob amser yn sôn am y rheng flaen—y bobl yn ein hysbytai a'r plant yn ein hysgolion. Dyna pam ei bod yn bwysig inni yn y Llywodraeth gydweithio gyda Jane Hutt a Jane Davidson ar y materion hynny.

Croesewais y gwahoddiad i annerch y Cynulliad heddiw. Er bod gennyf yr hawl i eistedd yn y Cynulliad ar unrhyw adeg, fel y gall y Llywydd ddweud wrthy, nid wyf wedi gwneud hynny am na fyddai'n briodol oni fyddai'n digwydd drwy gonsensws ac ar yr amod fy mod yma i drafod materion yr ydych am eu trafod gyda mi. Byddwn yn fodlon gwneud hynny pa bryd bynnag y bydd yn ymarferol. Fodd bynnag, rhaid gwneud hynny yn unol â'r ffordd orau ym marn Aelodau'r Cynulliad, imi gydweithio â chi, er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu. Byddai'n werth i'r Cynulliad ystyried y mater o bwyllgorau yn craffu ar Fesurau. Gellid gwneud hynny yng ngŵydd Gweinidog o Lywodraeth y DU, a fyddai'n gallu esbonio safbwynt y Llywodraeth, a byddwn yn falch iawn o ymweld â'r Cynulliad unrhyw bryd.

Brian Gibbons: Llongyfarchaf innau Paul ar ei ail-benodiad yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru hefyd. Fel cynrychiolydd Jane Hutt ar bwyllgor monitro iawndal i'r glowyr, gwn fod Paul wedi gwneud gwaith aruthrol i sicrhau bod y broses wedi mynd rhagddi yn briodol. Mae ar bobl mewn cymunedau glofaol ddyled fawr iddo ac yr wyf yn falch ei fod wedi cael ei ailbenodi i barhau â'r gwaith da hwnnw.

Two weeks ago, Peter Black led a short debate in Plenary on drug prevention and treatment. There was a consensus among Members who took part in that debate on the importance of preventing drug-related problems, which are a terrible blight on many Valley communities and council estates throughout Wales. What role do you foresee for the criminal assets recovery agency in dealing with the causes of drug pushing in communities and in ensuring that people who make a fortune on the back of criminality and misery do not benefit from their ill-gotten gains? It is remarkable that Ieuan Wyn Jones referred to a paucity of Bills relating to Wales. All Members should recognise that this piece of legislation is a key element in tackling a problem in communities throughout Wales. Only somebody with a narrow-minded, nationalist vision of Wales would be unable to recognise this proposal for what it is.

The Secretary of State for Wales: Thank you for those comments, Brian. All of us here represent people whose lives have been blighted disastrously—some very young lives—by the menace of drugs. The setting up of the criminal assets recovery agency will have a huge impact on ensuring that we overcome the problem. The Home Secretary announced last July that £254 million will be made available over the next three years to pay for the agency. I hope that the agency, which needs primary legislation, will be effective.

I will deal with an omission in my reply to Nick Bourne. I am conscious that I did not touch upon the rural agenda. Legislation is not always necessary, whether it is intended to improve an urban or rural area. Many of the problems facing rural Wales will not necessarily be alleviated by legislation, but rather by UK Government or Assembly action. The Assembly has done a great deal to help those parts of Wales that have been blighted by foot and mouth disease. The Bills under discussion this afternoon, whether they concern health, crime or schools, apply equally to people in rural and urban areas.

Bythefnos yn ôl, arweiniodd Peter Black ddadl fer mewn Cyfarfod Llawn ar atal cyffuriau a thriniaeth. Bu consensws ymhlith yr Aelod a gymerodd ran yn y ddadl honno ynglŷn â phwysigrwydd atal problemau sydd yn ymwneud â chyffuriau, sydd yn bla ar lawer o gymunedau yn y Cymoedd ac ystadau tai cyngor ledled Cymru. Pa rôl a ragwelwch ar gyfer yr asiantaeth adennill asedau troseddol i ymdrin ag achosion gwerthu cyffuriau mewn cymunedau ac i sicrhau na fydd pobl sydd yn gwneud ffortiwn drwy dor-cyfraith a pheri gofid yn cael y budrelw hwnnw? Mae'n syndod imi fod Ieuan Wyn Jones wedi cyfeirio at brinder Mesurau sydd yn ymwneud â Chymru. Dylai pob Aelod gydnabod bod y darn hwn o ddeddfwriaeth yn elfen allweddol o fynd i'r afael â phroblem mewn cymunedau ar draws Cymru. Dim ond person sydd yn gweld Cymru mewn ffordd gul, genedlaetholgar na fyddai'n gallu gweld y cynnig hwn am yr hyn ydyw.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Diolch ichi am y sylwadau hynny, Brian. Mae pob un ohonom yma yn cynrychioli pobl y mae eu bywydau—rhai ifanc iawn—wedi'u chwalu oherwydd bygythiad cyffuriau. Caiff sefydlu asiantaeth adennill asedau troseddol effaith enfawr o ran sicrhau ein bod yn goresgyn y broblem. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref fis Gorffennaf diwethaf y bydd £254 miliwn ar gael dros y tair blynedd nesaf i dalu am yr asiantaeth. Gobeithiaf y bydd yr asiantaeth, y mae angen deddfwriaeth sylfaenol i'w sefydlu, yn effeithiol.

Ymdriniaf â mater a hepgorais yn fy ateb i Nick Bourne. Yr wyf yn ymwybodol na chyfeiriaais at yr agenda wledig. Nid oes angen deddfwriaeth bob amser o reidrwydd, pa un ai ar gyfer gwella ardal drefol ynteu ardal wledig y'i bwriedir. Ni chaiff llawer o'r problemau a wyneba Cymru wledig eu lleddfu drwy deddfwriaeth o anghenraid, ond drwy weithredu gan Lywodraeth y DU neu'r Cynulliad. Mae'r Cynulliad wedi gwneud cryn dipyn i helpu'r rhannau hynny o Gymru a ddiodefodd yn sgîl clwy'r traed a'r genau. Mae'r Mesurau a drafodir y prynhawn yma, pa un a ydynt yn trafod iechyd, troseddu neu ysgolion, yr un mor berthnasol i bobl mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol.

Administratively, the Government has decided to establish a new Department for Environment, Food and Rural Affairs, to address the problems facing rural areas. The Minister of State with responsibility for rural affairs is the Assembly's former First Secretary, Alun Michael.

Dafydd Wigley: It is good to see the Secretary of State in the Chamber. I trust that he will also be present for the full debate that will be held on the Queen's Speech in due course.

The Secretary of State referred to the mandate given to the Government by the people of Wales in the election. I assure him that there was no mandate for creeping privatisation. Whatever support he may receive from the Conservative Party, which has been evident today, it is not echoed by the Transport and General Workers' Union, Unison or other trade unions. It would be interesting to know to whom the Secretary of State is listening.

The central theme that underpins public services, to which the Secretary of State referred, is resources. No mention was made in the Queen's Speech to any commission to consider the distribution of resources to update or replace the Barnett formula. It is an outmoded formula that is insensitive to the changing needs of the Welsh economy and that has ossified our resources on the basis of the state of the economy in 1978. What is the Government's latest thinking on this? Has the Secretary of State made representations for a formula that will ensure that the same level of money comes through to schools in Wales as for those in England and that will ensure enough resources to cut waiting lists in the national health service? Has the Secretary of State made that case or has it gone by default?

The Secretary of State for Wales: It is good to see you too, Dafydd. Although I have said much about the nature of private-public involvement, I will emphasise it further. An enormous amount of Government time and activity in the Assembly and in

Yn weinyddol, penderfynodd y Llywodraeth sefydlu Adran newydd ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a wyneba ardaloedd gwledig. Alun Michael, cyn-Brif Ysgrifennydd y Cynulliad yw'r Gweinidog Gwladol dros faterion gwledig.

Dafydd Wigley: Mae'n braf gweld yr Ysgrifennydd Gwladol yn y Siambr. Hyderaf y bydd hefyd yn bresennol ar gyfer y ddadl lawn a gynhelir ar Araith y Frenhines maes o law.

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol at y mandad a roddwyd i'r Llywodraeth gan bobl Cymru yn yr etholiad. Rhoddaf sicrwydd iddo na fu mandad ar gyfer preifateiddio graddol. Pa gefnogaeth bynnag a gaiff o'r Blaid Geidwadol, a fu'n amlwg heddiw, ni chaiff ei hategu gan Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol, Unsain nac unrhyw undeb llafur arall. Byddai'n ddiddorol gwybod ar bwy y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwranddo.

Y brif thema sydd yn sail i'r gwasanaethau cyhoeddus, y cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol atynt, yw adnoddau. Nid oedd unrhyw sôn yn Araith y Frenhines am unrhyw gomisiwn i ystyried y ffordd y caiff adnoddau eu dosbarthu i ddiweddarau fformiwla Barnett neu gyflwyno un newydd yn ei lle. Mae'n fformiwla hen ffasiwn sydd yn ansensitif i anghenion cyfnewidiol economi Cymru ac sydd wedi rhewi ein hadnoddau yn ôl sefyllfa'r economi yn 1978. Beth yw safbwynt diweddaraf y Llywodraeth ar hyn? A wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol sylwadau ar gyfer fformiwla a fydd yn sicrhau y rhoddir yr un lefel o arian i ysgolion yng Nghymru ag ysgolion yn Lloegr a fformiwla a fydd yn sicrhau digon o adnoddau i leihau'r rhestrau aros yn y gwasanaeth iechyd gwladol? A ddadleuodd yr Ysgrifennydd Gwladol o blaid hynny neu a fethwyd â rhoi unrhyw sylw iddo?

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Mae'n braf eich gweld chithau hefyd, Dafydd. Er imi ddweud llawer am natur cyfranogiad preifat-cyhoeddus, fe'i pwysleisiaf eto. Mae cryn dipyn o amser a gweithgarwch ar ran y Llywodraeth yn y Cynulliad ac yn San

Westminster does not involve public-private partnership. It is only a small, but nevertheless important, part of our agenda to ensure that we improve public services. We must do much work to ensure that we return confidence to people who work in public services and to ensure that money reaches those services. As I said at the beginning of my statement, we have increased the resources available to the Assembly, as compared to previous years. That money has gone into the public sector, not the private sector. It has gone directly to local authorities, local education authorities, NHS trusts and so on.

I am sure that Dafydd agrees that we must consider the effectiveness and efficiency of those services, so that people benefit from them. This issue has been in the news during the last few days but, important as it is, it is not the only way for us to ensure that we improve services. Dafydd mentioned the TGWU, of which I am a member and which I addressed earlier today. We are in discussion with the trade unions on how we address these issues. That will be taken forward.

Dafydd and I have discussed the Barnett formula several times. I understand several of the points that he made. However, I must include some caveats. I am not convinced that, were we to move to a straight needs formula, it would be much different to the current settlement. Perhaps that situation is different in other parts of the UK. We must also consider the possibility that English regional governments could be established in some years' time. They would also have to be financed.

The Barnett formula has served us well during its existence. Wales is still about 15 per cent above the UK average cost per capita. We are always considering how to finance public services. As was said before the general election, there are no plans to review the formula. However, as time goes by and with the possibility of English devolution, we will have to consider how

Steffan nad yw'n ymwneud â phartneriaeth cyhoeddus-preifat. Dim ond rhan fach, er yn rhan bwysig, o'n hagenda ydyw er mwyn sicrhau ein bod yn gwella gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid inni wneud llawer o waith er mwyn sicrhau ein bod yn adfer hyder pobl sydd yn gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus a bod yr arian yn cyrraedd y gwasanaethau hynny. Fel y dywedais ar ddechrau fy natganiad, yr ydym wedi cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i'r Cynulliad, o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Rhoddwyd yr arian hwnnw i'r sector cyhoeddus, nid y sector preifat. Aeth yn uniongyrchol i awdurdodau lleol, awdurdodau addysg lleol, ymddiriedolaethau NHS ac yn y blaen.

Hyderaf y cytuna Dafydd fod yn rhaid inni ystyried effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau hynny, fel y gall pobl elwa ohonynt. Bu'r mater hwn yn y newyddion yn ystod yr ychydig ddiwrnodau diwethaf ond, er pwysiced, nid hon yw'r unig ffordd o sicrhau ein bod yn gwella gwasanaethau. Cyfeiriodd Dafydd at Undeb y Gweithwyr Trawnidiaeth a Chyffredinol, yr wyf yn aelod ohono. Fe'i hanerchais yn gynharach y bore yma. Yr ydym yn trafod gyda'r unebau llafur sut yr awn i'r afael â'r materion hyn. Gweithredir ar hynny.

Bu Dafydd a minnau'n trafod fformiwla Barnett sawl gwaith. Deallaf sawl un o'r pwyntiau a wnaeth. Fodd bynnag, rhaid imi oleddu ambell beth. Nid wyf yn argyhoeddedig y byddai symud i fformiwla anghenion syml, pe baem yn gwneud hynny, yn gwneud llawer o wahaniaeth i'r setliad presennol. Efallai bod y sefyllfa honno yn wahanol mewn rhannau eraill o'r DU. Rhaid inni ystyried hefyd y posibilrwydd y gallai llywodraethau rhanbarthol gael eu sefydlu yn Lloegr ymhen ychydig flynyddoedd. Byddai'n rhaid eu hariannu hwythau.

Mae fformiwla Barnett wedi ein gwasanaethu'n dda ers ei sefydlu. Mae cost y pen yng Nghymru yn parhau i fod tua 15 y cant yn uwch na chost gyfartalog y pen ar gyfer y DU. Yr ydym bob amser yn ystyried sut i ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Fel y dywedwyd cyn yr etholiad cyffredinol, nid oes unrhyw fwriad i adolygu'r fformiwla. Fodd bynnag, gyda threigl amser a chydau'r

best to deal with those bodies. At this stage, I see no case for change. The Barnett formula has served us well. The match funding for Objective 1 structural funding was over and above Barnett. Over a couple of years, a total of £400 million will come to the Assembly. That money is over and above the Barnett formula, which has never happened before. I was Minister of State in the Northern Ireland Office for two years and I dealt with Objective 1 funding. Every penny of that had to come from the block grant. For the first time ever in the history of the Barnett formula, that money is over and above the block grant. It is the first time that it has occurred and it is for the benefit of the Welsh people.

3:40 p.m.

Mick Bates: I thank the Secretary of State for Wales for his statement and for addressing us today. I also congratulate him on his reappointment. As Mike German is currently representing the Assembly in the rural taskforce in London, he has asked me to respond briefly on behalf of the Liberal Democrat group, which I am delighted to do. I wish that I was as delighted with the content of the UK Government's legislative programme. There is much to welcome, but there are also many missed opportunities, particularly given the devastating re-emergence of foot and mouth disease in Powys. The fact that there is no legislation to promote home-grown food, to reduce red tape for farmers or to provide a greater vision for rurality indicates that the rural economy has been left behind in the Government's thinking. May I be so bold, Secretary of State, as to suggest that you should emulate us and introduce a bill for school milk in England? However, that debate is for another place. We are here to address the impact of this programme on the Assembly's work. To that end, the inclusion of the NHS (Wales) Bill in the Queen's Speech is a significant achievement for you, Secretary of State, and for the National Assembly's Cabinet. For that, you deserve our thanks.

posibilrwydd o ddatganoli yn Lloegr, bydd yn rhaid inni ystyried y ffordd orau o ymdrin â'r cyrff hyn. Ar hyn o bryd, ni welaf fod rheswm dros newid. Bu fformiwla Barnett yn ein gwasanaethu'n dda. Yr oedd yr arian cyfatebol ar gyfer arian strwythurol Amcan 1 yn ychwanegol at arian fformiwla Barnett. Dros ychydig flynyddoedd, daw cyfanswm o £400 miliwn i'r Cynulliad. Mae'r arian hwnnw'n ychwanegol at fformiwla Barnett. Ni ddigwyddodd hynny erioed o'r blaen. Bûm yn Weinidog Gwladol yn Swyddfa Gogledd Iwerddon am ddwy flynedd ac ymdriniais ag arian Amcan 1. Yr oedd yn rhaid i bob ceiniog o hwnnw ddod o'r grant bloc. Am y tro cyntaf erioed yn hanes fformiwla Barnett, mae'r arian hwnnw'n ychwanegol at y grant bloc. Dyma'r tro cyntaf i hynny ddigwydd a digwyddodd er budd pobl Cymru.

Mick Bates: Diolchaf i Ysgrifennydd Gwladol Cymru am ei ddatganiad ac am ein hannerch heddiw. Llongyfarchaf ef hefyd ar ei ail-benodiad. Gan fod Mike German yn cynrychioli'r Cynulliad yn y tasglu gwledig yn Llundain ar hyn o bryd, gofynnodd imi ymateb yn fyr, ar ran grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol ac mae'n bleser mawr gennyf wneud hynny. Hoffwn pe bawn yn gallu ymhyfydu i'r un graddau yng nghynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU. Mae llawer i'w groesawu, ond collwyd llawer o gyfleoedd hefyd, yn enwedig o ystyried yr achosion newydd a thorcalonnus o glwy'r traed a'r genau ym Mhowys. Mae'r ffaith nad oes unrhyw ddeddfwriaeth i hyrwyddo bwyd a dyfir gartref, lleihau'r fiwrocratiaeth i ffermwyr neu roi gwell gweledigaeth i wledigrwydd yn dangos nad yw'r economi wledig ar frig agenda'r Llywodraeth. A gaf fod mor hyf, Ysgrifennydd Gwladol, ag awgrymu y dylech efelychu'r Cynulliad a chyflwyno mesur ar gyfer llaeth ysgol yn Lloegr? Fodd bynnag, mewn lle arall y dylid cynnal y ddadl honno. Yr ydym yma i drafod effaith y rhaglen hon ar waith y Cynulliad. I'r perwyl hwnnw, mae cynnwys Mesur NHS (Cymru) yn Araith y Frenhines yn orchest arwyddocaol ichi, Ysgrifennydd Gwladol, ac i Gabinet y Cynulliad Cenedlaethol. Am hynny, yr ydych yn haeddu ein diolch.

The Liberal Democrats have opposed proposals in England to abolish community health councils and are pleased to have played our part in securing their future in Wales. Your indication that you and your colleagues in the Wales Office are prepared to work with us in scrutinising legislation that impacts directly on our functions here is welcome. As Chair of the Legislation Committee, I would welcome any engagement between Subject Committees and you as Secretary of State and the Parliamentary Under-Secretary of State for Wales that could lead to better, more appropriate and flexible primary legislative provisions being made. Flexibility on draft bills is critical so that we can be increasingly involved in the process of legislation, which in turn, will lead this Assembly to truly control its own destiny. That ongoing dialogue will, I hope, increase our scope to pursue distinctive Welsh policies and solutions where it is in our interest to do so. I would welcome your commitment and comment on that.

Finally—although it has been mentioned—I must ask the Secretary of State, what news of St David? The request for a St David's Day bank holiday is not an idle bid or a cosmetic gesture. It has the potential to impact on cultural life in Wales and embolden us in our identity as a nation within the UK. We are unanimous in our view, and the Secretary of State will need no reminding that this is the key plank of the partnership agreement. We sincerely hope that this will not be overlooked by the UK Cabinet again, and trust that you will continue to make your representations on our behalf to this effect.

The Secretary of State for Wales: I made the point clearly about St David's Day, not so much about St David, for whom I have a great admiration. On foot and mouth disease, I sympathise particularly with the Powys situation. The news over the last couple of days has been a dreadful blow for everybody involved, not only in the farming community, but for those who deal with the tourism industry in that part of Wales, particularly at this time of year. I know that

Gwrthwynebodd y Democratiaid Rhyddfrydol gynigion i ddiddymu cynghorau iechyd cymuned yn Lloegr ac yr ydym yn falch ein bod wedi chwarae rhan i sicrhau eu dyfodol yng Nghymru. Croesewir y ffaith ichi nodi eich bod chi a'ch cyd-Aelodau yn Swyddfa Cymru yn barod i gydweithio â ni yn y gwaith o graffu ar ddeddfwriaeth sydd yn effeithio'n uniongyrchol ar ein swyddogaethau yma. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau, byddwn yn croesawu unrhyw gyswllt rhwng y Pwyllgorau Pwnc a chi fel Ysgrifennydd Gwladol ac Is-Ysgrifennydd Gwladol Cymru a allai arwain at ddarpariaethau mwy addas a hyblyg o ran deddfwriaeth sylfaenol. Mae hyblygrwydd ar fesurau drafft yn holl bwysig er mwyn inni gymryd rhan amlycach yn y broses deddfwriaethol, a fydd yn ei thro, yn galluogi'r Cynulliad i wir reoli ei ddyfodol. Bydd y drafodaeth barhaus honno, gobeithio, yn rhoi mwy o gyfle inni fynd ar drywydd polisïau ac atebion sydd yn unigryw i Gymru lle y bo'n fanteisiol inni wneud hynny. Byddwn yn croesawu eich ymrwymiad a'ch sylwadau ar hynny.

I gloi—er y soniwyd am hyn eisoes—rheid imi ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol beth yw hanes Dewi Sant? Nid yw'r cais am ŵyl y banc ar Ddydd Gŵyl Dewi yn un ofer nac yn arwynebol. Mae'r potensial ganddo i effeithio ar fywyd diwylliannol yng Nghymru ac atgyfnerthu ein hunaniaeth fel cenedl o fewn y DU. Yr ydym yn unfrydol ein barn, ac ni fydd angen atgoffa'r Ysgrifennydd Gwladol fod hon yn rhan allweddol o'r cytundeb partneriaeth. Yr ydym yn mawr obeithio na fydd Cabinet y DU yn esgeuluso hyn eto, a gobeithiaf y byddwch yn parhau i gyflwyno'ch sylwadau ar ein rhan i'r perwyl hwn.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Eglurais y pwynt am Ddydd Gŵyl Dewi ond ni soniais gymaint am Dewi Sant, gŵr yr wyf yn ei edmygu'n fawr iawn. O ran clwy'r traed a'r genau, cydymdeimlaf yn arbennig â'r sefyllfa ym Mhowys. Bu'r newyddion yn ystod yr ychydig ddiwrnodau diwethaf yn ergyd drom iawn i bawb dan sylw, nid yn unig o fewn y gymuned ffermio, ond i'r rhai sydd yn ymwneud â'r diwydiant twristiaeth yn y rhan honno o Gymru, yn enwedig ar yr adeg hon

the Assembly is taking a great deal of time and making a great effort to ensure that the difficulties there are alleviated. I repeat the points that I made to Nick that legislation is not necessarily the answer to the problem of our rural areas. Sometimes it is, but administrative, ministerial and other kinds of decisions are equally valid in that respect.

I thank you particularly for your comments about the way in which we are proceeding with regard to the scrutiny of legislation. As we move forward, day by day, week by week and month by month in this Assembly, because this relationship is new, we can find new ways to improve the methods of ensuring a better service for the people that we jointly represent.

David Melding: I thank the Secretary of State for his generous summary of how the Children's Commissioner for Wales Bill progressed through Parliament. I must say that he has a happier memory than I have of that particular episode. I thank him and his colleagues in the Parliamentary Labour Party for their frequent and warm references to me at the second reading of that Bill. My reputation in the Conservative Party is only now recovering. Perhaps he would be kind enough to pass a message to my colleague, Eric Forth MP, to ensure him that my favourite novel is not *Jude the Obscure*.

The NHS (Wales) Bill is an innovative and welcome development in the use and application of devolution, and a draft Bill will be presented to the Assembly for discussion. I warmly endorse this and I look forward to participating in that process, presumably in the Health and Social Services Committee. However, I press you on what powers the Assembly will have to influence this process. In particular, will it be allowed to look at the Government's definition of nursing and personal care in that Bill? Can we in Wales determine a different way to fund personal and nursing care than is likely to be followed in England? It is appropriate for this Assembly to consider that question and to respond to the wishes of the people of Wales about how social, nursing and

o'r flwyddyn. Gwn fod y Cynulliad yn rhoi cryn dipyn o amser ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y caiff yr anawsterau yno eu lleddfu. Gwnaf yr un pwyntiau ag y gwneuthum i Nick sef nad deddfwriaeth yw'r ateb i broblemau ein hardaloedd gwledig bob amser. Weithiau mae'n ateb y gofyn, ond mae penderfyniadau gweinyddol, gweinidogol a mathau eraill o benderfyniadau yr un mor ddilys yn hynny o beth.

Diolchaf yn arbennig am eich sylwadau ar y ffordd yr ydym yn mynd rhagom yn y gwaith o graffu ar ddeddfwriaeth. Wrth inni symud ymlaen, dydd ar ôl dydd, wythnos ar ôl wythnos a mis ar ôl mis yn y Cynulliad hwn, am fod y berthynas hon yn un newydd, gallwn ddod o hyd i ffyrdd newydd o wella'r dulliau o sicrhau gwell gwasanaeth i'r bobl a gydgyrcholwn.

David Melding: Diolchaf i'r Ysgrifennydd Gwladol am ei grynodeb hael o daith Mesur Comisiynydd Plant Cymru drwy'r Senedd. Rhaid imi ddweud bod ganddo atgofion mwy melys na mi o'r cyfnod hwnnw. Diolchaf iddo ef a'i gyd-Aelodau yn y Blaid Lafar Seneddol am eu cyfeiriadau mynych a charedig ataf yn ystod ail ddarlleniad y Mesur hwnnw. Dim ond dechrau adfer fy enw da o fewn y Blaid Geidwadol yr wyf yn awr. Efallai y byddai mor garedig â rhoi neges i'm cyd-Aelod, Eric Forth AS, i'w sicrhau nad *Jude the Obscure* yw fy hoff nofel i.

Mae Mesur NHS (Cymru) yn un arloesol ac yn ddatblygiad i'w groesawu o ran defnyddio a chymhwyso datganoli, a chaiff Mesur drafft ei gyflwyno i'r Cynulliad i'w drafod. Cefnogaf hynny yn frwd ac edrychaf ymlaen at gymryd rhan yn y broses honno yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gellid tybio. Fodd bynnag, pwysaf arnoch i ddweud wrthym pa bwerau a fydd gan y Cynulliad i ddylanwadu ar y broses hon. Yn arbennig, a gaiff ystyried diffiniad y Llywodraeth o ofal nyrsio a gofal personol yn y Mesur hwnnw? A allwn ni yng Nghymru bennu ffordd wahanol o ariannu gofal personol a gofal nyrsio nag sydd yn debygol o ddigwydd yn Lloegr? Mae'n briodol i'r Cynulliad hwn ystyried y cwestiwn hwnnw ac ymateb i ddymuniadau

personal care is delivered to people.

Secondly, on the issue of tobacco, there are, among your opponents, some that wish you had more guts as a Government and banned the advertising of this product. For far too long, it has blighted the lives of generations of people. I feel that we know so much about this product that we should move swiftly to ban all tobacco advertising.

The Secretary of State for Wales: I fear that the Government of Wales Act 1998 is not intended to act as a conduit between Conservative Assembly Members and Conservative Members of the House of Commons. However, I will pass on your message to Kenneth Clarke.

I take your point about scrutiny. I know that Jane and I will discuss the various details, but as it is a draft Bill, it is not only for her and I to discuss, but it is a question on which all of you can participate.

Lorraine Barrett: I congratulate the Labour Government on its historic second term. I want to raise three points. First, I welcome the commitment to consider improving the legal controls on inter-country adoption, particularly over the internet. Can you assure us that these measures will be robust enough to prevent the harrowing saga of the American twins that were brought to this country under questionable circumstances? The Home Office and the Immigration and Nationality Directorate will clearly be responsible. I hope that they will work with the adoption agencies to tighten the controls. I hope that Jane Hutt, on behalf of the Assembly, can contribute to that debate and to those proposals as they move forward.

Secondly, I welcome the proposal to end the double jeopardy anomaly. With the huge advances in DNA, it is now possible to revisit old murder cases, where the defendant was found not guilty, possibly due to the lack of sound forensic evidence. However, we

pobl Cymru ynghylch sut y caiff gofal cymdeithasol, gofal nyrsio a gofal personol eu darparu i'r bobl.

Yn ail, o ran tybaco, mae rhai, ymhlith eich gwrthwynebwyr, a hoffai ichi fod yn fwy dewr fel Llywodraeth a gwahardd y cynnyrch hwn rhag cael ei hysbysebu. Am lawer gormod o amser, bu'n felltith ar genedlaethau lawer. Teimlaf ein bod yn gwybod cymaint am y cynnyrch hwn fel y dylem brysuero i wahardd pob math o hysbysebu tybaco.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Ofnaf nad diben Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yw bod yn gyswllt rhwng Aelodau Ceidwadol y Cynulliad ac Aelodau Ceidwadol Tŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, rhoddaf eich neges i Kenneth Clarke.

Derbyniaf eich pwynt ynglŷn â chraffu. Gwn y bydd Jane a minnau yn trafod y amrywiol fanylion, ond gan ei fod yn Fesur drafft, nid mater iddi hi a mi yn unig i'w drafod ydyw, ond mae'n fater y gallwch oll gymryd rhan ynddo.

Lorraine Barrett: Llongyfarchaf y Llywodraeth Lafur ar ei hail dymor hanesyddol. Hoffwn godi tri phwynt. Yn gyntaf, croesawaf yr ymrwymiad i ystyried gwella'r rheolaethau cyfreithiol ar fabwysiadu plant rhwng gwledydd, yn arbennig ar y rhyngwlad. A allwch roi sicrwydd inni y bydd y mesurau hyn yn ddigon cadarn i osgoi hanes trist y gefeilliaid a ddygwyd i mewn i'r wlad hon o America o dan amgylchiadau amheus? Mae'n amlwg mai'r Swyddfa Gartref a'r Gyfarwyddiaeth Mewnffudo a Chenedligrwydd fydd yn gyfrifol. Gobeithiaf y byddant yn cydweithio gyda'r asiantaethau mabwysiadu i sicrhau rheolaethau llymach. Gobeithiaf y gall Jane Hutt, ar ran y Cynulliad, gyfrannu at y ddadl honno ac at y cynigion hynny wrth iddynt ddatblygu.

Yn ail, croesawaf y cynnig i ddileu'r anghysondeb o ran erlyniad dwbl. Yn sgŵl datblygiadau enfawr ym maes DNA, mae'n bosibl bellach ddychwelyd at hen achosion o lofruddiaeth lle y canfuwyd y diffynnydd yn ddiuog, am nad oedd tystiolaeth fforensig

need assurances that this will not be used to hold innocent people on remand on spurious reasons, for instance, as some human rights groups have suggested. However, I welcome the proposal, because it cannot be right that a guilty person is allowed to go free and cannot be called to justice if sound information and evidence is brought forward.

Finally, will you look at the Anne Frank exhibition in the milling area today? I appreciate that there are pressures on your time. Will you take back the message to the Home Secretary that we will not tolerate racism in any of its ugly forms in Wales? In particular, when we have all read that the BNP is trying to gain support in Wales. We will not tolerate that. I know that the Cabinet is committed to that, but we look to you for the strongest legislation to deal with racism in all its forms.

3:50 p.m.

The Secretary of State for Wales: I will do my best to view the exhibition afterwards. I am sure that all of us, whatever party we come from, entirely abhor the examples of racism that we have seen across the United Kingdom in the last few weeks. We occasionally see similar situations in Wales. We must always be vigilant about that. Historically, though, we have had good race relations. However, if there are parties such as the one to which you referred in Wales, that can only exacerbate racism.

I welcome the points about double jeopardy. As far as the legal controls on adoption are concerned, part of the reason for introducing the Adoption and Children Bill is to deal with cases of international adoption. If the Parliamentary Under-secretary does not serve on that Bill, I hope that we will have a Welsh Member of Parliament on it to ensure that Welsh aspects are looked after carefully.

Jocelyn Davies: The drafting of primary

gadarn o bosibl. Fodd bynnag, mae angen sicrwydd arnom na chaiff hyn ei ddefnyddio i gadw pobl ddieuog ar remand am resymau annilys, er enghraifft, fel yr awgrymodd rhai grwpiau hawliau sifil. Fodd bynnag, croesawaf y cynnig, oherwydd nid yw'n iawn bod person euog yn cael bod yn rhydd ac na ellir dwyn achos yn ei erbyn os caiff gwybodaeth a thystiolaeth gadarn eu rhoi gerbron.

I gloi, a wnewch chi edrych ar arddangosfa Anne Frank yn y neuadd heddiw? Gwerthfawrogaf y pwysau ar eich amser. A wnewch chi gyfleu'r neges i'r Ysgrifennydd Cartref na fyddwn yn goddef unrhyw hiliaeth ar unrhyw lun yng Nghymru? Yn arbennig, ar ôl inni oll ddarllen bod Plaid Genedlaethol Prydain yn ceisio cael cefnogaeth yng Nghymru. Ni fyddwn yn goddef hynny. Gwn fod y Cabinet yn ymrwymedig i hynny, ond disgwyliwn ichi fynnu'r deddfwriaeth lymaf bosibl i fynd i'r afael â hiliaeth o bob math.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Gwnaf fy ngorau glas i edrych ar yr arddangosfa wedyn. Yr wyf yn siŵr bod yr enghreifftiau o hiliaeth a welsom ar draws y Deyrnas Unedig yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf yn gas gan bob un ohonom, o ba blaid bynnag. Gwelwn sefyllfaoedd tebyg yng Nghymru o bryd i'w gilydd. Rhaid inni bob amser fod yn wyliadwrus ynglŷn â hynny. Ond yn hanesyddol, bu cysylltiadau hiliol da gennym. Fodd bynnag, os ceir unrhyw bleidiau, megis yr un ichi gyfeirio ati, yng Nghymru, mae hynny'n sicr o waethygu'r sefyllfa o ran hiliaeth.

Croesawaf y pwynt ynglŷn ag erlyniad dwbl. O ran y rheolaethau cyfreithiol ar fabwysiadu, cyflwynwyd y Mesur Mabwysiadu a Phlant yn rhannol er mwyn mynd i'r afael ag achosion o fabwysiadu rhyngwladol. Os na fydd yr Is-Ysgrifennydd Seneddol yn gweithredu ar y Mesur hwn, gobeithiaf y bydd gennym Aelod Seneddol o Gymru arno er mwyn sicrhau y caiff yr agweddau Cymreig arno eu hystyried yn ofalus.

Jocelyn Davies: Mae llunio deddfwriaeth

legislation is vital to the National Assembly. You have heard a good deal about that today. After all, the powers that we hold depend upon that, not just in terms of policy content but form. Are you aware that the Labour peer, Lord Gwilym Prys-Davies, has cited the current method of writing primary legislation as the greatest threat to this model of devolution? He justifies that with the claim that the Assembly has lost certain powers. Are you aware of that? They have been lost, in the case of the Local Government Act 2000 and the scrutiny of significant council plans, to you. Is that appropriate and acceptable, post devolution? Does it not drive a coach and horses through your claim that devolution was an event? Can you, as our voice in Westminster, justify allowing that to happen? Will we get an assurance that in future we will not lose any more powers?

While we are on the subject of the processes involved in drawing up primary legislation, are you aware that the Assembly unanimously resolved to convey to you that we want legislation drawn up flexibly? Several Members have raised that today. That is so that we have discretion over the policy content of any secondary legislation that we might choose to draw up under it. Can you tell us why that has not happened yet?

In February of last year, we all supported a Government motion calling for an urgent amendment to the Transport Bill to give us the power to create passenger transport authorities in Wales. However, we did not get it. Can you explain that?

Finally, in your opinion, which is worst, encouraging smoking in the third world, or your Government's failure to introduce the legislation, which David Melding mentioned, to ban tobacco advertising in the UK? Does not the failure to ban that advertising amount to encouraging people to smoke?

The Secretary of State for Wales: The answer to that last question is 'no'. No-one is saying that a tobacco advertising Bill will not come before the House of Commons, because

sylyfaenol yn holl bwysig i'r Cynulliad Cenedlaethol. Clywsoch gryn dipyn am hynny heddiw. Wedi'r cyfan, mae'r pwerau sydd gennym yn dibynnu ar hynny, nid yn unig o ran cynnwys polisi ond ei ffurf. A ydych yn ymwybodol bod yr Arglwydd Llafur, Yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies, wedi nodi mai'r bygythiad mwyaf i'r model hwn o ddatganoli yw'r dull presennol o lunio deddfwriaeth sylfaenol? Mae'n cyfiawnhau dweud hynny drwy'r honiad bod y Cynulliad wedi colli rhai pwerau. A ydych yn ymwybodol o hynny? Fe'u collwyd, yn achos Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r gwaith o graffu cynlluniau cyngor o bwys, i chi. A yw hynny'n briodol ac yn dderbyniol, wedi datganoli? Onid yw'n difetha eich honiad mai digwyddiad oedd datganoli? A allwch chi, fel ein llais yn San Steffan, gyfiawnhau caniatáu i hynny ddigwydd? A gawn sicrwydd na chollwn ragor o bwerau yn y dyfodol?

Tra ein bod yn trafod y prosesau sydd ynghlwm wrth lunio deddfwriaeth sylfaenol, a ydych yn ymwybodol i'r Cynulliad benderfynu'n unfrydol i gyfleu ichi ein bod am i ddeddfwriaeth gael ei llunio'n hyblyg? Codwyd hynny gan sawl Aelod heddiw, er mwyn inni gael disgresiwn ynglŷn â chynnwys polisi unrhyw ddarn o is-ddeddfwriaeth y byddem yn dewis ei llunio o dan ddeddfwriaeth sylfaenol. A allwch ddweud wrthym pam na ddigwyddodd hynny eto?

Yn Chwefror y llynedd, cefnogodd pob un ohonom gynnig gan y Llywodraeth yn galw am welliant brys i'r Mesur Trafnidiaeth er mwyn rhoi'r pŵer inni greu awdurdodau cludiant teithwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, ni wnaethpwyd hynny. A allwch esbonio hynny?

Yn olaf, yn eich barn chi, pa un sydd waethaf, annog ysmegu yn y trydydd byd, ynteu fethiant eich Llywodraeth i gyflwyno'r ddeddfwriaeth, y cyfeiriodd David Melding ati, ar gyfer gwahardd hysbysebion tybaco yn y DU? Onid yw'r methiant hwn i wahardd hysbysebion cystal ag annog pobl i ymysgu?

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: 'Nac ydyw' yw'r ateb i'r cwestiwn olaf hwnnw. Nid oes unrhyw un yn dweud na fydd Mesur ar hysbysebu tybaco yn dod gerbron Tŷ'r

it will. It is a question of when it comes. It may come during the course of the current session. It is a manifesto commitment that we will honour. It was deferred from the previous parliamentary session when, because the election was called, it was not introduced. I am in favour of such a Bill and, like all of our Welsh colleagues, will vote for it.

On the flexibility of legislation, I made it clear in my remarks that considering legislation in a permissive way, and ensuring that legislation is permissive in the way that I described, can be important for the way in which the Assembly operates. That has happened in the past, of course. It is not new, by any stretch of the imagination. There have been a large number of Bills that have had Welsh clauses, which has given legislative powers to the Assembly. We constantly look at all Bills that go through the House of Commons to ensure that that occurs. It will not be the case that 100 per cent of everything that the Assembly may want will be replicated in Parliament. There will be occasions when we disagree. That is the nature of Government and of politics. Generally speaking, however, I am sure that you would be the first to agree that the Welsh clauses in the England and Wales Bills, and the all-Wales Bills, have been based on agreement between this Assembly, the Government and Parliament, whether that be the Children's Commissioner for Wales Bill, the Learning and Skills Bill, or whatever. As for the other questions, I will have a word with Gwilym about the points to which he referred.

Delyth Evans: Could you expand on the Government's proposals on electoral representation, which will enable women to overcome some of the obstacles that have historically made it difficult for them to stand for political office in Wales and in the rest of the United Kingdom? As you know, the Labour Party has a proud record on this issue. It is because of that that the National Assembly is second only to Sweden in terms of female representation in political life, and we are proud of that. Will you join me in urging the other political parties in Wales to use this important piece of proposed legislation to improve their own rather sorry

Cyffredin, oherwydd y bydd. Y mater ydyw pryd y caiff ei gyflwyno. Efallai y caiff ei gyflwyno yn ystod y sesiwn bresennol. Mae'n ymrwymiad maniffesto y byddwn yn cadw ato. Fe'i gohiriwyd o'r sesiwn seneddol flaenorol pan nas cyflwynwyd oherwydd cyhoeddi'r etholiad. Yr wyf o blaid Mesur o'r fath ac, fel pob un o'm cyd-Aelodau o Gymru, byddaf yn pleidleisio drosto.

O ran hyblygrwydd deddfwriaeth, eglurais yn fy sylwadau y gall ystyried deddfwriaeth mewn modd caniataol, a sicrhau bod deddfwriaeth yn ganiataol fel y disgrifiais, fod yn bwysig i'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithredu. Digwyddodd hynny yn y gorffennol, wrth gwrs. Nid yw'n beth newydd, o bell ffordd. Bu nifer fawr o Fesurau ac iddynt gymalau Cymreig, sydd wedi rhoi pwerau deddfwriaethol i'r Cynulliad. Yr ydym bob amser yn edrych ar bob un o'r Mesurau sydd yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd. Ni chaiff 100 y cant o bopeth y mae'r Cynulliad am ei gael o bosibl ei adlewyrchu yn y Senedd. Bydd adegau pan fyddwn yn anghytuno. Dyna natur Llywodraeth, a natur gwleidyddiaeth. Yn gyffredinol, fodd bynnag, yr wyf yn siŵr mai chi fyddai'r cyntaf i gytuno bod y cymalau Cymreig yn y Mesurau ar gyfer Mesurau Cymru a Lloegr a'r Mesurau i Gymru yn unig wedi bod yn seiliedig ar gytundeb rhwng y Cynulliad hwn, y Llywodraeth a'r Senedd, pa un a sonnir am Fesur Comisiynydd Plant Cymru, y Mesur Dysgu a Sgiliau neu pa fesur bynnag. O ran y cwestiynau eraill, siaradaf â Gwilym ynglŷn â'r pwyntiau y cyfeiriodd atynt.

Delyth Evans: A allech ymhelaethu ar gynigion y Llywodraeth ar gynrychiolaeth etholiadol, a fydd yn galluogi merched i oresgyn rhai o'r rhwystrau sydd, yn hanesyddol, wedi ei gwneud yn anodd iddynt sefyll am swyddi gwleidyddol yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig? Fel y gwyddoch, mae'r Blaid Lafur yn ymfalchïo yn ei henw da ar y mater hwn. Dyna pam bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ail i Sweden o ran cynrychiolaeth merched yn y byd gwleidyddol, ac ymfalchiwn yn hynny. A ymunwch â mi i annog y pleidiau gwleidyddol eraill yng Nghymru i ddefnyddio'r darn pwysig hwn o

performance on this issue?

The Secretary of State for Wales: It would not be right for me to comment on other parties and how they deal with their own business. However, the Bill that is in the Queen's Speech refers to all-women shortlists and removing the criminal penalties that may have existed for those shortlists in the past. It is then up to each individual party to decide how best to deal with that. I echo what you say regarding the Assembly. The representation of women is second to none—even if Sweden is in the frame—in terms of the Cabinet and Assembly Members. We lead the way in Europe.

Rod Richards: It is a pleasure to see the Secretary of State here. He is a person for whom I have a high regard. I am glad that the Prime Minister took my advice and re-appointed him.

My concern, and the point that I would like the Secretary of State to take away, is that over the next few years, bearing in mind that we have a Government that is looking forward 10 years, Wales will be left behind. It will be left behind in health and education, because the UK Government in Westminster will pursue policies that are different to the policies that the Cabinet here in Cardiff wishes to pursue. Those differences will manifest themselves over the next few years. I must warn the Secretary of State that the success or failure of devolution will be measured by the people of Wales according to the differences in the delivery of public services. In six years' time, the people of Wales will have an opportunity to judge this Assembly according to those services.

Finally, I congratulate the Secretary of State—and would appreciate it if you also conveyed my congratulations to the new Prime Minister—on the fact that, for New Labour, we now read New Thatcher. That is wonderful. It is not quite going far enough, but I congratulate you on some of the policies that you are now pursuing.

ddeddfwriaeth arfaethedig i wella eu perfformiad truenus eu hunain yn y mater hwn?

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Ni fyddai'n briodol imi wneud sylwadau ar bleidiau eraill a sut yr ymdriniant â'u busnes eu hunain. Fodd bynnag, mae'r Mesur yn Araith y Frenhines yn cyfeirio at restrau byr o ferched yn unig gan gael gwared ar y cosbau troseddol a fodolai o bosibl ar gyfer y rhestrau byr hynny yn y gorffennol. Penderfyniad pob plaid unigol wedyn yw penderfynu ar y ffordd orau i ddelio â hynny. Ategap yr hyn a ddywedwch ynghylch y Cynulliad. Mae cynrychiolaeth merched heb ei ail—hyd yn oed os yw Sweden yn y darlun—o ran y Cabinet ac Aelodau'r Cynulliad. Yr ydym yn arwain y ffordd yn Ewrop.

Rod Richards: Mae'n bleser gweld yr Ysgrifennydd Gwladol yma. Mae'n berson y mae gennyf barch mawr tuag ato. Yr wyf yn falch fod y Prif Weinidog wedi cymryd fy nghyngor a'i ailbenodi.

Fy mhryder i, a'r pwynt yr hoffwn i'r Ysgrifennydd Gwladol ei ystyried yw hwn: dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, o gofio bod gennym Lywodraeth sydd yn edrych ymlaen 10 mlynedd, bydd Cymru'n cael ei gadael ar ôl. Caiff ei gadael ar ôl mewn iechyd ac addysg, gan y bydd Llywodraeth y DU yn San Steffan yn mynd ar drywydd polisïau sydd yn wahanol i'r polisïau y mae'r Cabinet yma yng Nghaerdydd am fynd ar eu trywydd. Daw'r gwahaniaethau hynny yn amlwg dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rhaid imi rybuddio'r Ysgrifennydd Gwladol y caiff llwyddiant neu fethiant datganoli ei fesur gan bobl Cymru yn ôl y gwahaniaethau yn y ffordd y cyflwynir gwasanaethau cyhoeddus. Ymhen chwe mlynedd, caiff pobl Cymru y cyfle i farnu'r Cynulliad yn ôl y gwasanaethau hynny.

Yn olaf, llongyfarchaf yr Ysgrifennydd Gwladol—a hoffwn ichi gyfleu fy llongyfarchiadau hefyd i'r Prif Weinidog newydd—ar y ffaith ein bod bellach yn dehongli Llafur Newydd fel Thatcher Newydd. Mae hynny'n wych. Nid â yn ddigon pell, ond fe'ch llongyfarchaf ar rai o'r polisïau yr ydych bellach yn mynd ar eu

trywydd.

The Secretary of State for Wales: Thank you, Rod. I will convey your points to the Prime Minister when he next has a Cabinet reshuffle. On your point about Wales being left behind, devolution is devolution. The policies that you, collectively, decide for the people of Wales are the policies that you believe are best in terms of delivering those services. There may well be differences between what the United Kingdom delivers for England and what the Assembly delivers for Wales. That is part of devolution. However, I would not exaggerate that, because there are many examples, which I cannot go through today, but which I would be able to list, where there are enormous similarities in the way in which we tackle our public services in Wales and in England. People in England can learn from some of the ways our public services are delivered, for example, in telemedicine. I remember going to a Joint Ministerial Committee with colleagues from Northern Ireland, Scotland and England, where they looked at what we were doing in that service. Similarly, we can learn from our colleagues in Scotland, Northern Ireland and England. I hope that whatever happens in terms of policy development, we always look elsewhere in the UK—to our devolved administrations and to the United Kingdom Government—to see if there are policies of best practice that we can adopt and vice versa. I agree that people measure politicians—Assembly Members before Members of Parliament because we have just had our election, therefore the next election will be to the Assembly—on how we deliver our public services. There is no question about that, and it applies to us all. That was the message we received during the general election.

4:00 p.m.

Peter Law: I am delighted to see my friend, the Secretary of State for Wales, here. Having heard Mick Bates, the German emissary, he will understand what it is like to work on a day to day basis with a bunch of Liberal Democrat hokey-cokey artists who are in-out-in-out-shake-it-all-about as far as

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Diolch, Rod. Byddaf yn cyfleu eich pwyntiau i'r Prif Weinidog y tro nesaf y bydd yn ad-drefnu'r Cabinet. Ynglŷn â'ch pwynt y caiff Cymru ei gadael ar ôl, datganoli yw datganoli. Y polisiau yr ydych chi, gyda'ch gilydd, yn penderfynu arnynt ar gyfer pobl Cymru yw'r polisiau y credwch sydd orau o ran cyflwyno'r gwasanaethau hynny. Efallai y bydd gwahaniaethau rhwng yr hyn a gyflwyna'r Deyrnas Unedig ar gyfer Lloegr a'r hyn a gyflwyna'r Cynulliad ar gyfer Cymru. Rhan o ddatganoli yw hynny. Fodd bynnag, ni fyddwn am orlywio hynny, gan fod nifer o enghreifftiau, na allaf eu trafod heddiw, ond y gallwn eu rhestru, lle mae tebygrwydd mawr yn y ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â'n gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr. Gall pobl yn Lloegr ddysgu o rai o'r ffyrdd y cyflwynir ein gwasanaethau cyhoeddus ni, er enghraifft, mewn telefeddygaeth. Cofiaf fynychu Cydbwyllgor y Gweinidogion gyda chyd-Aelodau o Ogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr, lle yr edrychwyd ar yr hyn yr oeddem yn ei wneud yn y gwasanaeth hwnnw. Yn yr un modd, gallwn ninnau ddysgu oddi wrth ein cyd-Aelodau yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Gobeithiaf, beth bynnag a ddigwydd o ran datblygu polisi, y byddwn bob amser yn edrych ar fannau eraill yn y DU—ein gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y Deyrnas Unedig—i weld a oes unrhyw bolisiau arfer da y gallwn eu mabwysiadu ac i'r gwrthwyneb. Cytunaf fod pobl yn mesur gwleidyddion—Aelodau'r Cynulliad cyn Aelodau Seneddol gan fod ein hetholiad newydd gael ei gynnal, felly yr etholiad nesaf fydd un y Cynulliad—ar sut y cyflwynwn ein gwasanaethau cyhoeddus. Nid oes amheuaeth am hynny, ac mae'n berthnasol i bob un ohonom. Dyna'r neges a gawsom yn ystod yr etholiad cyffredinol.

Peter Law: Yr wyf yn falch o weld fy nghyfaill, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yma. Ar ôl clywed Mick Bates, cennad German, fe wŷr sut deimlad yw gweithio o ddydd i ddydd gyda chriw o artistiaid Democratiaidd Rhyddfrydol anwadal sydd yn chwarae mig yn gyson ynghylch partneriaeth.

the partnership is concerned.

Mick Bates: Would you like to dance now?

Mick Bates: Hoffech chi gêm yn awr?

Peter Law: I thought he was going to hit me then.

Peter Law: Credais ei fod yn mynd i'm taro.

The Presiding Officer: Order.

Y Llywydd: Trefn.

Peter Law: This is a dynamic programme. We have positive developments with the UK Government regarding health, pensioners and families. We also have hard-hitting measures to deal with criminals to ensure that our streets are safer, measures on education and, importantly, homelessness which I was pleased to hear the Secretary of State mention. We are all concerned about homelessness, some of us particularly so. I was delighted to hear that foxhunting will be debated again in the House of Commons. That is excellent because in Wales we have managed to keep down the political vermin—we still have a Tory-free zone. You need a séance to contact the Tories.

Peter Law: Mae hon yn rhaglen ddeinamig. Mae gan Lywodraeth y DU ddatblygiadau cadarnhaol o ran iechyd, pensïynwyr a theuluoedd. Mae gennym hefyd fesurau llym i ymdrin â throseddwy'r er mwyn sicrhau bod ein strydoedd yn fwy diogel, mesurau ar addysg ac, yn bwysicaf oll, digartrefedd, yr oeddwn yn falch iawn o glywed yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei grybwyll. Yr ydym oll yn pryderu am ddigartrefedd, rhai ohonom yn arbennig. Yr oeddwn wrth fy modd o glywed y cynhelir dadl unwaith eto ar hela llwynogod yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae hynny'n wych gan ein bod ni yng Nghymru wedi llwyddo i atal y fermin gwleidyddol—yr ydym yn parhau i fod yn ardal ddi-Dori. Mae angen seans i gysylltu â'r Torïaid.

The Presiding Officer: Order. I ask Peter Law to reconsider that metaphor for one of the Assembly groups, unless he was quoting Aneurin Bevan.

Y Llywydd: Trefn. Gofynnaf i Peter Law ailystyried y metaffor hwnnw ar gyfer un o grwpiau'r Cynulliad, oni bai ei fod yn dyfynnu Aneurin Bevan.

Peter Law: One far greater than I, Llywydd, made that comment many years ago. The Tories understand the point.

Peter Law: Un sydd yn llawer mwy na mi, Lywydd, a wnaeth y sylw hwnnw flynyddoedd yn ôl. Mae'r Torïaid yn deall y pwynt.

The Presiding Officer: Order. Will you ask a question to the Secretary of State?

Y Llywydd: Trefn. A ofynnwch gwestiwn i'r Ysgrifennydd Gwladol?

Peter Law: I am coming to the question, but the Tories needed the preamble and the therapy. You need a séance to contact the Tories in Wales. People talk of socialism from the Tory side of the Chamber and I say to them that there are socialists in this Chamber without a doubt. Socialism is still alive. Last week we had to listen to William Graham speaking here wanting to perpetuate squalor in my constituency—

Peter Law: Yr wyf ar fin gofyn y cwestiwn, ond yr oedd angen y rhagymadrodd a'r therapi ar y Torïaid. Mae angen seans arnoch i gysylltu â'r Torïaid yng Nghymru. Mae pobl yn sôn am sosialaeth o ochr y Torïaid o'r Siambr a dywedaf wrthynt bod sosialwyr yn y Siambr hon yn ddi-os. Mae sosialaeth yn dal yn fyw. Yr wythnos diwethaf gorfu inni wrando ar William Graham yn siarad yma am yr awydd i gynyddu aflendid yn fy etholaeth—

The Presiding Officer: Order. This is not a debate between the Welsh Conservative group and you. This is the questions session

Y Llywydd: Trefn. Nid dadl rhwng grŵp Ceidwadwyr Cymru â chi yw hon. Sesiwn gwestiynau i'r Ysgrifennydd Gwladol ydyw,

to the Secretary of State, who is our guest today.

Peter Law: I was reminding myself of the time William Graham told my constituents last week to eat concrete.

This is a good Queen's Speech. We need not be alarmed by comments about creeping privatisation because we are talking about partnership, not privatisation. We are talking about working together to make things better for the people of Wales. Does the Secretary of State agree that it is only through Labour that we are able to provide that future for the people of Wales? The UK Government, following two years of devolution, recognises the great benefit of working with this National Assembly by providing us with permissive, enabling legislation in these Bills which will be for the good of all the people of Wales.

The Secretary of State for Wales: I cannot disagree with much of that. The only matter on which I may disagree with Peter is hokey-cokey. I learned that as a child but I have forgotten it. I thank Peter for his points about the Homelessness Bill because the Assembly put a great deal of work into that prior to the general election, and was anxious that it would return to the House of Commons. I agree with Peter that it is a question of a partnership between us in the UK Government and Assembly Members, cross-party, to deliver for the people of Wales.

Owen John Thomas: Un mis ar bymtheg yn ôl, cefais y fraint o osod cynnig gerbron fy nghyd-Aelodau o'r Cynulliad Cenedlaethol, ar Ddydd Gŵyl Dewi, yn datgan y dylai 1 Mawrth fod yn ŵyl gyhoeddus. Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol, gyda chefnogaeth pob Aelod o bob plaid yn y Siambr. Yr oeddwn yn disgwyl i chi, fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru, gyfleu dymuniadau'r Cynulliad i Gabinet San Steffan a, mwy na hynny, sicrhau ei fod yn gweithredu ewyllys ddemocrataidd y bobl. Rhag ofn bod Cabinet San Steffan yn ystyried hyn fel mater dibwys, gobeithiaf y byddwch yn ei atgoffa o eiriau olaf Dewi, 'Cofiwch wneud y pethau olaf.' A wnewch chi adrodd hanes eich

sef ein gwestai heddiw.

Peter Law: Yr oeddwn yn atgoffa fy hun o'r adeg y dywedodd William Graham wrth fy etholwyr yr wythnos diwethaf am fwyta concrit.

Mae hon yn Araith y Frenhines dda. Nid oes angen inni gael ein brawychu gan sylwadau ynghylch preifateiddio llechwraidd gan ein bod yn sôn am bartneriaeth, nid preifateiddio. Yr ydym yn sôn am gydweithio er mwyn gwella pethau i bobl Cymru. A gytuna'r Ysgrifennydd Gwladol mai dim ond drwy Lafur y gallwn ddarparu'r dyfodol hwnnw ar gyfer pobl Cymru? Mae Llywodraeth y DU, yn dilyn dwy flynedd o ddatganoli, yn cydnabod y manteision mawr o weithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol hwn drwy ddarparu deddfwriaeth oddefol, alluogol i ni yn y Mesurau hyn a fydd er budd holl bobl Cymru.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Ni allaf anghytuno â llawer o hynny. Yr unig fater y gallaf anghytuno arno gyda Peter yw'r chwarae mig. Dysgais hynny pan yn blentyn ond fe'i hanghofiais. Diolchaf i Peter am ei bwyntiau ynghylch y Mesur Digartrefedd gan fod y Cynulliad wedi gwneud llawer iawn o waith ar hynny cyn yr etholiad cyffredinol, ac yr oedd yn awyddus iddo ddychwelyd i Dŷ'r Cyffredin. Cytunaf â Peter ei fod yn gwestiwn o bartneriaeth rhyngom ni o fewn Llywodraeth y DU ac Aelodau'r Cynulliad, ar draws pob plaid, i gyflwyno hynny i bobl Cymru.

Owen John Thomas: Sixteen months ago, I had the honour of proposing a motion before my Assembly colleagues, on St David's Day, that 1 March should be a public holiday. The motion was carried unanimously, with the support of every Member of every party in the Chamber. I expected you, as Secretary of State for Wales, to convey the Assembly's wishes to the Westminster Cabinet and, in addition to that, to ensure that it implemented the democratic will of the people. In case the Westminster Cabinet considers this to be an unimportant matter, I hope that you will remind it of Dewi's last words, 'Remember to do the little things.' Will you tell us of your efforts to date on this matter?

ymdrechion hyd yma ar y mater hwn?

The Secretary of State for Wales: I cannot add much more to what I have already said. The matter is still being debated and discussed by the Government. I conveyed the Assembly's wishes to my Government colleagues but, as this matter requires legislation in the Westminster Parliament, it is more complicated than it might seem on the surface. I accept your point about St David's words but I am sure that he would have agreed that some of the other issues that we are discussing today are equally important to the people of Wales.

Tom Middlehurst: I also welcome Paul to the Assembly. I am delighted that the Prime Minister reappointed you as Secretary of State for Wales and I am certain that the good work will continue.

In your speech, you referred to the Learning and Skills Bill, which has been enacted. I record my thanks to you, and to the former Parliamentary Under-Secretary of State for Wales, David Hanson, for your contribution to that Bill. It secured many Welsh clauses that enabled us to give birth to ELWa and Careers Wales and to provide a platform for services to young people, among others. This demonstrates clearly the opportunity that exists for us to develop primary legislation that gives maximum flexibility for us in Wales to secure the sorts of measures that we want to take to deliver services on behalf of our people.

On the partnership between the public and private sectors, I believe that the Government's position is misunderstood and misrepresented by many. I have not spent a lifetime in the trade union and labour movement fighting injustice, particularly with regard to employment rights for workers, to see those hard-won gains sacrificed, particularly in the public sector. I am sure that I speak for many colleagues in that movement. However, I admit that, like you, I do not recognise the huge Berlin wall that some envisage between the public and private sectors in the future delivery of public services in Wales. Do you agree that there are many good examples of private sector involvement in the public sector, particularly

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Ni allaf ychwanegu llawer mwy at yr hyn a ddywedais eisoes. Mae'r mater yn parhau i gael ei ddadlau a'i drafod gan y Llywodraeth. Cyfleais ddymuniadau'r Cynulliad i'm cyd-Aelodau yn y Llywodraeth ond, gan fod y mater hwn yn gofyn am ddeddfwriaeth yn Senedd San Steffan, mae'n fwy cymhleth nag y gall ymddangos ar yr wyneb. Derbynïaf eich pwynt am eiriau Dewi Sant ond yr wyf yn credu y byddai wedi cytuno bod rhai o'r materion eraill a drafodwn heddiw yr un mor bwysig i bobl Cymru.

Tom Middlehurst: Croesawaf innau hefyd Paul i'r Cynulliad. Yr wyf yn falch fod y Prif Weinidog wedi eich ailbenodi fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yr wyf yn sicr y bydd y gwaith da yn parhau.

Yn eich araith, cyfeiriasoch at y Mesur Dysgu a Sgiliau, a ddeddfwyd. Cofnodaf fy niolch i chi, ac i gyn Is-Ysgrifennydd Seneddol Cymru, David Hanson, am eich cyfraniad i'r Mesur hwnnw. Sicrhaodd sawl cymal Cymreig er mwyn creu ELWa a Gyrfa Cymru a rhoi llwyfan i wasanaethau ar gyfer pobl ifanc, ymysg eraill. Dengys hyn yn glir y cyfle sydd yn bodoli inni ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol sydd yn rhoi yr hyblygrwydd mwyaf i ni yng Nghymru i sicrhau y mathau o fesurau yr ydym am eu cymryd er mwyn cyflwyno gwasanaethau ar ran ein pobl.

O ran y bartneriaeth rhwng y cyhoedd a sectorau preifat, credaf y camddeallir ac y camgyfleir safbwynt y Llywodraeth gan lawer. Nid wyf wedi treulio oes yn yr undeb llafur a'r mudiad llafur yn brwydro yn erbyn anghyfiawnder, yn arbennig o ran hawliau cyflogaeth i weithwyr, er mwyn gweld yr enillion hynny, a gafwyd drwy ymdrech, yn cael eu haberthu, yn arbennig yn y sector cyhoeddus. Yr wyf yn siŵr fy mod yn siarad ar ran sawl cyd-Aelod yn y mudiad hwnnw. Fodd bynnag, cyfaddefaf nad wyf fi na chwithau yn cydnabod y mur Berlin enfawr y mae rhai yn dychmygu sydd yn rhannu'r sectorau cyhoeddus a phreifat o ran cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol. A gytunwch fod llawer o

in local government? Such practice is not new in local government. Many people who have worked in local government for years can testify to that. It has had a long and healthy relationship with the private sector and has contracted with it to deliver a range of goods and services to the people, in partnership with public sector workers and often working alongside those workers, many of whom are employed by small companies. Sometimes, individuals are employed directly by local authorities. This is not about big predatory companies that gaze upon the public sector as an area of rich pickings, but about individuals who are important to the local economy.

Do you agree that partnership driven by the public sector in Wales can, and does, provide a highly-valued service to our people? It is the quality of the service delivered and the fair treatment of the workers delivering that service that matters. That means ensuring resources and investment in the public sector for the continuing development of those services.

The Secretary of State for Wales: Thank you for your kind words and for mentioning David Hanson, who served for two years as the Parliamentary Under-Secretary of State for Wales. He did a good job, enjoyed meeting Assembly Members and is now taking Wales to the heart of Government, as Parliamentary Private Secretary to the Prime Minister.

The most important aspect of your comments was about your experience in local government. I was in local government for 14 years and we built roads, shopping centres, schools and hospitals through partnerships between the public and private sectors, which have never been regarded as unusual. As long as you provide proper safeguards for the people who work in the public sector, firms that employ people locally can often benefit enormously from such partnerships and we can give employment to the people whom we represent. The words of wisdom, when you spoke of your experiences, are important

enghreiffiau da o gyfranogiad sector preifat yn y sector cyhoeddus, yn enwedig mewn llywodraeth leol? Nid yw arfer o'r fath yn newydd mewn llywodraeth leol. Gall llawer o bobl sydd wedi gweithio mewn llywodraeth leol ers blynyddoedd dystio i hynny. Cafodd berthynas hir ac iach gyda'r sector preifat ac mae wedi ymgymryd ag ef i gyflwyno ystod o nwyddau a gwasanaethau i'r bobl, mewn partneriaeth â gweithwyr y sector cyhoeddus ac yn aml yn gweithio ochr yn ochr â'r gweithwyr hynny, llawer ohonynt yn cael eu cyflogi gan gwmnïau bach. Weithiau, cyflogir unigolion yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol. Nid yw hyn yn ymwneud â chwmnïau mawr rheibus sydd yn syllu ar y sector cyhoeddus fel maes ysbail. Yn hytrach, mae'n ymwneud ag unigolion sydd yn bwysig i'r economi leol.

A gytunwch y gall partneriaeth wedi'i llywio gan y sector cyhoeddus yng Nghymru ddarparu gwasanaeth gwerthfawr i'n pobl, ac y gwneir hynny? Ansawdd y gwasanaeth a thriniaeth deg o'r gweithwyr sydd yn cyflwyno'r gwasanaeth hwnnw sydd yn bwysig. Golyga hynny sicrhau adnoddau ar gyfer y sector cyhoeddus a buddsoddi ynddo er mewn parhau i ddatblygu'r gwasanaethau hynny.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Diolch i chi am eich geiriau caredig ac am grybwyll David Hanson, a wasanaethodd am ddwy flynedd fel Is-Ysgrifennydd Seneddol Cymru. Gwnaeth waith da, mwynhaodd gwrdd ag Aelodau'r Cynulliad ac mae bellach yn sicrhau fod Cymru wrth wraidd y Llywodraeth, fel Ysgrifennydd Seneddol Preifat i'r Prif Weinidog.

Yr agwedd bwysicaf ar eich sylwadau oedd eich profiad mewn llywodraeth leol. Yr oeddwn mewn llywodraeth leol am 14 mlynedd ac adeiladasom ffyrdd, canolfannau siopa, ysgolion ac ysbytai drwy bartneriaethau rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, nad ydynt erioed wedi cael eu hystyried fel rhywbeth anarferol. Cyhyd ag y byddwch yn darparu'r diogelwch priodol ar gyfer y bobl sydd yn gweithio yn y sector cyhoeddus, gall cwmnïau sydd yn cyflogi pobl yn lleol yn aml elwa'n fawr ar bartneriaethau o'r fath a gallwn roi cyflogaeth i'r bobl a gynrychiolwn. Mae'r

ones.

geiriau doeth a lefarasoch wrth siarad am eich profiadau yn eiriau pwysig.

4:10 p.m.

David Davies: I welcome you here today and I congratulate you on your belated recognition that the private sector can often deliver better services in health, education and transport. The private sector should be encouraged to deliver wherever it can. I know that you and many of your colleagues prefer not to use the word 'private' or 'privatisation'. If you want to call it partnership or something else, then that is fine with us. You will continue to have our full support because you are merely continuing with good Conservative policy. We were elected four times with a mandate to deliver that policy throughout Wales and the rest of the United Kingdom. Before this becomes too consensual, I will express my dismay—

The Presiding Officer: Order. You must ask a question before it becomes too consensual.

David Davies: Does the Secretary of State for Wales share my dismay at the lack of any measures to help the ailing transport industry in Wales? Does he share my concern that although Gordon Brown, under the glare of the media spotlight, promised £5 million in last year's budget for the haulage industry in Wales, we have just learned that, not only is there no extra money available for Wales in that budget, but the money in that budget has already been allocated, and therefore not one penny is likely to come to the haulage industry despite that promise? Will he return to Parliament and ask Gordon Brown to honour that promise to deliver £5 million for the road haulage modernisation fund? Will he ask the Prime Minister to ensure that next year's Queen's Speech will contain legislation that will enable the transport industry in Wales to continue?

The Secretary of State for Wales: As you know, giving help to the transport industry is not just a question of legislation. We have ensured that vehicle excise duties have been

David Davies: Fe'ch croesawaf yma heddiw a'ch llongyfarch ar eich cydnabyddiaeth hwyr y gall y sector preifat yn aml gyflwyno gwell gwasanaethau ym maes iechyd, addysg a thrafnidiaeth. Dylid annog y sector preifat i gyflwyno ble bynnag y gall. Gwn ei bod yn well gennych chi a llawer o'ch cyd-Aelodau beidio â defnyddio'r gair 'preifat' neu 'preifateiddio'. Os ydych am ei alw'n bartneriaeth neu'n rhywbeth arall, yna mae hynny'n iawn gyda ni. Parhawn i roi ein cefnogaeth lawn ichi gan eich bod ond yn parhau gyda pholisi Ceidwadol da. Fe'n hetholwyd bedair gwaith gyda mandad i gyflwyno'r polisi hwnnw ledled Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Cyn i hyn ddod yn rhy gydsyniol, mynegaf fy siom—

Y Llywydd: Trefn. Rhaid ichi ofyn cwestiwn cyn iddo fynd yn rhy gydsyniol.

David Davies: A yw Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rhannu fy siom ynghylch diffyg unrhyw fesurau i helpu'r diwydiant trafndiaeth gwantan yng Nghymru? A ranna fy mhryder, er i Gordon Brown, pan oedd llygad y cyfryngau arno, addo £5 miliwn yng nghyllideb y llynedd ar gyfer y diwydiant cludo nwyddau yng Nghymru, ein bod newydd gael gwybod nid yn unig nad oes arian ychwanegol ar gael i Gymru yn y gyllideb honno, ond bod yr arian yn y gyllideb honno eisoes wedi'i ddyrannu, ac felly nid oes yr un geiniog yn debygol o gyrraedd y diwydiant cludo nwyddau er gwaethaf yr addewid honno? A wnaiff ddychwelyd i'r Senedd a gofyn i Gordon Brown anrhydeddu'r addewid honno i roi £5 miliwn i'r gronfa moderneiddio cludo nwyddau ar y ffordd? A ofynna i'r Prif Weinidog sicrhau y bydd Araith y Frenhines y flwyddyn nesaf yn cynnwys deddfwriaeth a fydd yn galluogi i'r diwydiant trafndiaeth yng Nghymru barhau?

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Fel y gwyddoch, nid mater o ddeddfwriaeth yn unig yw rhoi help i'r diwydiant trafndiaeth. Yr ydym wedi sicrhau gostyngiadau

dramatically reduced. That has been of enormous help to the haulage industry. On the conversion towards using the private sector, you did not listen to Tom who talked about local authorities of all parties using the partnership between the public and the private sector over many years to build roads and so on. There is nothing new in that. However, as a nation we saw the disastrous privatisation of the railways. We do not intend to follow that kind of policy.

Richard Edwards: I add my congratulations to you on your richly deserved re-appointment. A second full-term for a Labour Government is unprecedented and many of us have waited for all our political lives for it. At last there is a chance to achieve fundamental change for the benefit of the many and not the few, in contrast to decades of Conservative Government. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. Richard is about to ask the question, I believe.

Richard Edwards: I assure you that this preamble does inform the question. Paul, according to the Leader of the Welsh Conservatives, Labour now espouses Conservative principles, in which case he would be out of a job, but Nigel Evans has already demonstrated that he is. Also according to him, the nationalists are no longer nationalists as they espouse socialist principles. However, what do the Conservatives stand for? The answer is nationalism, if David Melding has his way.

David Melding *rose*—

Richard Edwards: Come on David, we all know that you are not a Tory. I apologise if that is another death knell for your reputation. On a serious note, Labour in the Assembly has a socialist agenda, Paul—

The Presiding Officer: Order, as you know, this is a statement. I would welcome questions. Nearly an hour and 28 minutes has been spent on this. We are grateful to the Secretary of State for his time. He is a guest

sylweddol mewn trethi cerbyd. Bu hynny o gymorth mawr i'r diwydiant cludo nwyddau. O ran newid i ddefnyddio'r sector preifat, ni wrandawsoch ar Tom a siaradodd am awdurdodau lleol o bob plaid yn defnyddio partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat dros lawer o flynyddoedd er mwyn adeiladu ffyrdd ac ati. Nid oes unrhyw beth yn newydd yn hynny. Fodd bynnag, fel cenedl gwelsom y drychineb o breifateiddio'r rheilffyrdd. Ni fwriadwn ddilyn y math hwnnw o bolisi.

Richard Edwards: Ychwanegaf fy llongyfarchiadau i chi ar eich ailbenodiad cwbl haeddiannol. Mae ail dymor llawn i Lywodraeth Lafur yn ddiglyffelyb ac mae llawer ohonom wedi aros drwy gydol ein bywydau gwleidyddol am hyn. O'r diwedd mae cyfle i gyflawni newid sylfaenol er budd y mwyafrif ac nid y lleiafrif, sydd yn groes i'r degawdau o Lywodraeth Geidwadol. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Mae Richard ar fin gofyn y cwestiwn, fe gredaf.

Richard Edwards: Fe'ch sicrhaf fod y rhagymadrodd hwn yn gysylltiedig â'r cwestiwn. Paul, yn ôl Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, mae Llafur bellach yn coleddu egwyddorion Ceidwadol, ac os felly ni fyddai ganddo swydd, ond mae Nigel Evans eisoes wedi dangos hynny. Hefyd, yn ôl ef, nid yw'r cenedlaetholwyr bellach yn genedlaetholwyr, gan eu bod yn coleddu egwyddorion sosialaidd. Fodd bynnag, dros beth y saif y Ceidwadwyr? Yr ateb yw cenedlaetholdeb, os caiff David Melding ei ffordd.

David Melding *a gododd*—

Richard Edwards: Dewch, dewch David, gwyddom oll nad Tori mohonoch. Ymddiheuraf os yw hynny yn hoelen arall yn arch eich enw da. Ar nodyn difrifol, mae gan y blaid Lafur yn y Cynulliad agenda sosialaidd, Paul—

Y Llywydd: Trefn, fel y gwyddoch, datganiad yw hwn. Byddwn yn croesawu cwestiynau. Treuliwyd bron i awr a 28 munud ar hyn. Yr ydym yn ddiolchgar i'r Ysgrifennydd Gwladol am ei amser. Mae ef

here in our constitution. Therefore, I ask Members from now on to ask specific questions.

Richard Edwards: I accept that, Llywydd. Several other Members have had long preambles—

The Presiding Officer: They should not have.

Richard Edwards: I accept your guidance. Paul, do you agree that, although the private sector may have a role to play, it is also important that traditional Welsh socialist values guide how we deliver public services in Wales and that that is the socialist agenda for Labour and the Labour Government in Wales?

The Secretary of State for Wales: I will not comment on the remarks that you should not have made, but I agree with every word. On how delivery occurs, that, of course, is a matter for the Assembly. I do not doubt that the Labour Assembly Members abide by, as I do, clause four of our constitution that states that the Labour Party is a democratic, socialist party.

Janet Ryder: I will ask some questions on building regulations, which is not always an interesting subject, but is vital nonetheless. The Assembly has few powers with regard to building regulations, although we are represented on the Building Regulations Advisory Committee. Edwina Hart has told us that she has made representations to the Westminster Government, asking for building regulation powers to be transferred to the National Assembly. Therefore, it is disappointing that nothing has come forward regarding the transfer of these powers. Why has that not happened, and when can we expect to hear something from you in that regard? We have heard today about how vital it is to retain public services. As local government is already required to charge for building regulation services, will you give an assurance that your Government will not privatise these services, as it seems to be keen to privatise all other public services?

yn westai yma yn ein cyfansoddiad. Felly, gofynnaf i'r Aelodau ofyn cwestiynau penodol o hyn ymlaen.

Richard Edwards: Derbyniaf hynny, Lywydd. Mae sawl Aelod arall wedi cael rhagymadroddion hir—

Y Llywydd: Ni ddylent fod wedi cael hynny.

Richard Edwards: Derbyniaf eich arweiniad. Paul, a gytunwch, er bod gan y sector preifat rôl i'w chwarae, ei bod hefyd yn bwysig bod gwerthoedd sosialaidd Cymreig traddodiadol yn llywio'r ffordd y cyflwynwn wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac mai dyna'r agenda sosialaidd ar gyfer Llafur a'r Llywodraeth Lafur yng Nghymru?

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Ni wnaif sylw ar y sylwadau na ddylech fod wedi eu gwneud, ond cytunaf â phob gair. O ran sut y cyflwynir y gwasanaethau, mater i'r Cynulliad yw hynny, wrth gwrs. Nid oes amheuaeth gennyf fod Aelodau Llafur y Cynulliad yn glynu, fel y gwnaf i, wrth gymal pedwar ein cyfansoddiad sydd yn nodi fod y Blaid Lafur yn blaid ddemocrataidd, sosialaidd.

Janet Ryder: Gofynnaf rai cwestiynau ar reoliadau adeiladu, nad yw bob amser yn bwnc diddorol, ond hanfodol serch hynny. Prin yw pwerau'r Cynulliad o ran rheoliadau adeiladu, er inni gael ein cynrychioli ar y Pwyllgor Ymgynghorol ar Reoliadau Adeiladu. Dywedodd Edwina Hart wrthym ei bod wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth San Steffan, yn gofyn i bwerau rheoleiddio adeiladu gael eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol. Felly, mae'n siomedig nad oes dim wedi digwydd ynghylch trosglwyddo'r pwerau hyn. Pam na ddigwyddodd hynny, a phryd y gallwn ddisgwyl clywed rhywbeth gennych yn ymwneud â hynny? Clywsom heddiw pa mor hanfodol bwysig yw cadw gwasanaethau cyhoeddus. Gan fod gofyn i lywodraeth leol eisoes godi tâl am wasanaethau rheoleiddio adeiladu, a roddwch sicrwydd i mi na fydd eich Llywodraeth yn preifateiddio'r gwasanaethau hyn, gan yr ymddengys yn awyddus i breifateiddio pob gwasanaeth cyhoeddus arall?

The Secretary of State for Wales: I cannot agree with the comments about privatising all public services. In terms of building regulations, I will make it my business to talk to Edwina Hart and the new Secretary of State for Transport, Local Government and the Regions, Stephen Byers, about the issues that you have raised.

Eleanor Burnham: The Liberal Democrat Assembly Members pressed for the Rees commission on student hardship. However, as the Liberal Democrats' spokesperson on education, I had hoped that the Government might announce changes in funding for student support. In any event, I hope that the Government will, in next year's Queen's Speech, take the findings of the Rees report fully into account and introduce the changes that it suggests.

The Secretary of State for Wales: This issue received a great deal of attention during the recent general election campaign. I do not think that I should pre-empt Jane Davidson's statement today. The Assembly's reaction to the report, which I have read, will be conveyed to my Whitehall colleagues and me. I will, therefore, wait to see what the Minister and the Assembly says in response to that.

William Graham: I add my welcome to that already extended to you. I am grateful to you for saying that you will engage with the Assembly's Committees. That is important and novel and we look forward to that.

In the gracious speech, it was said that the Police Bill proposes to create an independent police complaints commission and reform police working practices. That is to be welcomed. However, during your period of Government, you will acknowledge that the police service experienced additional bureaucracy, plummeting morale and stretched resources. There are now 1,600 less police officers and 7,000 less special constables. The latter amounts to one third of the total number of special constables. Your Government has allowed the early release of

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Ni allaf gyuno â'r sylwadau am breifateiddio pob gwasanaeth cyhoeddus. O ran rheoliadau adeiladu, byddaf yn sicr o siarad ag Edwina Hart a'r Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, Stephen Byers, am y materion a godasoch.

Eleanor Burnham: Pwysodd Aelodau Democratiaid Rhyddfrydol y Cynulliad i sefydlu comisiwn Rees ar galedi myfyrwyr. Fodd bynnag, fel llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar addysg, yr oeddwn wedi gobeithio y byddai'r Llywodraeth yn cyhoeddi newidiadau mewn cyllid ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Beth bynnag fo'r sefyllfa, gobeithio y bydd y Llywodraeth, yn Araith y Frenhines y flwyddyn nesaf, yn ystyried canfyddiadau adroddiad Rees yn llawn ac yn cyflwyno'r newidiadau a argymhellir ganddo.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Cafodd y mater hwn gryn sylw yn ystod ymgyrch ddiweddar yr etholiad cyffredinol. Ni chredaf y dylwn achub y blaen ar ddatganiad Jane Davidson heddiw. Caiff ymateb y Cynulliad i'r adroddiad, a ddarllenais, ei gyfleu i'm gyd-Aelodau yn Whitehall a minnau. Felly, arhosaf i weld beth a ddywed y Gweinidog a'r Cynulliad mewn ymateb i hynny.

William Graham: Ychwanegaf fy nghroeso at y croeso a gawsoch eisoes. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am ddweud y byddwch yn cysylltu â Phwyllgorau'r Cynulliad. Mae hynny'n bwysig ac yn beth newydd ac edrychwn ymlaen ato.

Yn yr araith raslon, dywedwyd mai nod Mesur yr Heddlu yw creu comisiwn cwynion yr heddlu annibynnol a diwygio arferion gwaith yr heddlu. Croesewir hynny. Fodd bynnag, yn ystod eich cyfnod o Lywodraeth, byddwch yn cydnabod i wasanaeth yr heddlu brofi biwrocratiaeth ychwanegol, gan ostwng morâl yn sylweddol a rhoi cryn bwysau ar adnoddau. Bellach mae 1,600 yn llai o swyddogion yr heddlu a 7,000 yn llai o gwnstabiliaid arbennig. Mae'r olaf yn cynrychioli traean o gyfanswm y cwnstabiliaid arbennig. Mae eich Llywodraeth

35,000 criminals of all ages. What prospects does that have for crime reduction in Wales?

The Secretary of State for Wales: Thank you for your comments. I look forward to the start of my work with Assembly Committees.

If you look at the measures that will be published in the Criminal Justice Bill, you will see that its purpose is to reform sentences and rules of evidence, introduce measures to tackle corruption and sex offenders and, at the end of the day, ensure that Wales is a safer place. As a consequence, we must work with the police and the courts to ensure that they have the necessary powers to do the job. Above all, as was noted earlier in terms of the Proceeds of Crime Bill, people who profit from ill-gotten gains will be dealt with.

Alun Cairns: I also congratulate the Secretary of State on his re-election and reappointment to the UK Cabinet. No-one would question his long-term objectives, no matter how misguided the interim steps might be. In relation to the Secretary of State's comments on private sector involvement in the delivery of services, it is heartening to hear that Thatcherism prevails in the twenty-first century.

The Presiding Officer: Order. As I have said before and especially as you are almost the last Member to contribute, I would welcome a question to the Secretary of State.

Alun Cairns: I accept your guidance. The business community has endured 15 pieces of employment legislation and increasing costs, which have driven Welsh manufacturers, in particular, out of business. We now hear about an Enterprise Bill, which you say will stimulate innovation, productivity and growth. Is it not the case that the Chancellor and the Prime Minister are acting schizophrenically? On the one hand, they are happy to preach the rhetoric and talk about the virtues of the free market, but on the other hand, they are happy to introduce criminal laws to prevent cartels, which healthy competition would prevent in the first instance. What can he tell us about the

wedi caniatáu i 35,000 o droseddwyr o bob oed gael eu rhyddhau'n gynnar. Pa obaith a rydd hynny i leihau troseddau yng Nghymru?

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Diolch i chi am eich sylwadau. Edrychaf ymlaen i ddechrau ar fy ngwaith gyda Phwyllgorau'r Cynulliad.

Os edrychwch ar y mesurau a gyhoeddir yn y Mesur Cyfiawnder Troseddol, fe welwch mai ei bwrpas yw diwygio dedfrydau a rheolau tystiolaeth, cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â llygredd a throseddwyr rhyw ac, yn y pen draw, sicrhau bod Cymru'n lle mwy diogel. O ganlyniad, rhaid inni weithio gyda'r heddlu a'r llysoedd i sicrhau bod ganddynt y pwerau angenrheidiol i wneud y gwaith. Yn anad dim, fel y nodwyd yn gynharach o ran y Mesur Enillion Troseddu, ymdrinnir â phobl a fydd yn elwa ar fudrelw.

Alun Cairns: Llongyfarchaf innau hefyd yr Ysgrifennydd Gwladol am gael ei ailethol a'i ailbenodi i Gabinet y DU. Ni fyddai unrhyw un yn amau ei amcanion hirdymor, waeth pa mor gamarweiniol fo'r camau interim tuag at hynny. O ran sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfranogiad y sector preifat yn y broses o gyflwyno gwasanaethau, mae'n galonogol clywed fod Thatcheriaeth wedi goroesi i'r unfed ganrif ar hugain.

Y Llywydd: Trefn. Fel y dywedais o'r blaen ac yn arbennig gan mai chi yw'r Aelod olaf bron i gyfrannu, byddwn yn croesawu cwestiwn i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Alun Cairns: Derbyniat eich arweiniad. Mae'r gymuned fusnes wedi dioddef 15 darn o ddeddfwriaeth cyflogaeth a chostau cynyddol, sydd wedi peri i weithgynhyrchwyr Cymreig, yn arbennig, fynd i'r wal. Yn awr clywn am Fesur Menter, y dywedwch y bydd yn ysgogi arloesedd, cynhyrchiant a thwf. Onid yw'n wir bod y Canghellor a'r Prif Weinidog yn gweithredu'n sgitsoffrenig? Ar un llaw, maent yn hapus i bregethu'r rhethreg a sôn am rinweddau'r farchnad rydd, ond ar y llaw arall, maent yn fodlon cyflwyno cyfreithiau troseddol er mwyn atal cartelau, y byddai cystadleuaeth iach yn eu hatal yn y lle cyntaf. Beth y gall ddweud wrthym am y Mesur

Enterprise Bill? Will it cut red tape or is it yet more rhetoric similar to what we have heard over the last four years?

4:20 p.m.

The Secretary of State for Wales: It is certainly not about rhetoric. It is about ensuring, especially in Wales, that we build up the entrepreneurial skills of the people who live and work here. We all agree that that is needed. The Bill will do much to achieve that aim. The First Minister has welcomed the measures in that Bill. I will not go through all the details, as we do not have the time. However, in general, I believe that encouraging enterprise and productivity in the way that we do will have a particular resonance in Wales. However, we must ensure that enterprise is developed.

Peter Rogers: I also welcome the Secretary of State for Wales to the Assembly. My question regards the foot and mouth disease crisis. Is it possible to implement a full inquiry into the foot and mouth disease crisis? There was a foot and mouth disease crisis in 1967, which was not quite on this scale. However, there was a comprehensive report, known as the Northumberland report, on that disaster. One of our great concerns is that many of the recommendations made at that time were not implemented immediately. It is imperative that we call for a full inquiry into the foot and mouth disease crisis.

The Secretary of State for Wales: There is bound to be an inquiry. However, before we embark on an inquiry, our first priority is to ensure that we overcome the present problems. When we have overcome those difficulties, it will be important for the Government and the Assembly to consider what has happened, see what lessons can be learnt and consider what recommendations could be put forward.

The Presiding Officer: I am grateful to the Secretary of State for taking questions from all the Members who wished to contribute and for his substantial statement.

Menter? A fydd yn lleihau biwrocratiaeth neu ai hyd yn oed mwy o rethreg ydyw fel yr hyn a glywsom dros y pedair blynedd diwethaf?

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Yn sicr, nid yw'n ymwneud â rhyethreg. Mae'n ymwneud â sicrhau, yn arbennig yng Nghymru, ein bod yn datblygu sgiliau entrepreneuriaidd y bobl sydd yn byw ac yn gweithio yma. Cytunwn oll bod angen gwneud hynny. Bydd y Mesur yn gwneud llawer i gyflawni'r nod hwnnw. Mae Prif Weinidog Cymru wedi croesawu'r mesurau yn y Mesur hwnnw. Ni nodaf yr holl fanylion, gan nad oes amser gennym. Fodd bynnag, yn gyffredinol, credaf y bydd annog menter a chynhyrchiant yn y ffordd a wnawn yn taro deuddeg yng Nghymru yn arbennig. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau y datblygir menter.

Peter Rogers: Croesawaf innau hefyd Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Cynulliad. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud ag argyfwng clwy'r traed a'r genau. A yw'n bosibl cynnal ymchwiliad llawn i argyfwng clwy'r traed a'r genau? Yr oedd argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 1967, nad oedd ar y raddfa hon. Fodd bynnag, cafwyd adroddiad cynhwysfawr, a adwaenir fel adroddiad Northumberland, ar y trychineb hwnnw. Un o'n pryderon mawr yw na chafodd llawer o'r argymhellion a wnaethpwyd y pryd hwnnw eu gweithredu ar unwaith. Mae'n holl bwysig ein bod yn galw am ymchwiliad llawn i argyfwng clwy'r traed a'r genau.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Bydd ymchwiliad yn sicr o gael ei gynnal. Fodd bynnag, cyn inni ddechrau ar ymchwiliad, ein blaenoriaeth gyntaf yw sicrhau ein bod yn goresgyn y problemau presennol. Pan fyddwn wedi goresgyn yr anawsterau hynny, bydd yn bwysig i'r Llywodraeth a'r Cynulliad ystyried beth sydd wedi digwydd, gweld pa wersi y gellir eu dysgu ac ystyried pa argymhellion y gellid eu cyflwyno.

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Ysgrifennydd Gwladol am gymryd cwestiynau gan yr holl Aelodau a oedd am gyfrannu ac am ei ddatganiad sylweddol.

Datganiad ar Galedi Myfyrwyr Statement on Student Hardship

The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson): The report of the independent investigation group on student hardship was published on Thursday 14 June. I was glad that so many Members were able to join me and the group in the milling area on the day of publication. Copies have been circulated to all Members, placed in the Library and on the National Assembly website. However, this is my first opportunity to formally present the report.

It is right that I should make a statement at this stage, even though there is much work to do before I shall be in a position to respond to all the group's recommendations. I commissioned the undertaking of an independent investigation into student hardship and funding in Wales, following on from the partnership agreement and announced the remit and formation of the group in Plenary in December last year. I previously invited suggestions from the parties on membership of the group and, at the time of the announcement, I expressed my gratitude to those appointed and for their willingness to undertake the important task with which they were being charged.

I now wish, on behalf of the National Assembly, to record our thanks to Professor Teresa Rees and her fellow investigation group members for their work in producing this report. It will be a major contribution to the Assembly's consideration of the way ahead for higher and further education in Wales. That is especially true as regards our keen strategic interest in increasing participation and improving access to learning, particularly among those from disadvantaged groups. Teresa and her colleagues have done a remarkable job. They have fully justified our commitment to establishing this inquiry, which was first set out in the partnership agreement.

As a genuinely independent group acting in an unpaid capacity, the group has brought together its experience and expertise for the

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson): Cyhoeddwyd adroddiad y grŵp ymchwilio annibynnol ar galedi myfyrwyr ddydd Iau 14 Mehefin. Yr oeddwn yn falch fod cynifer o'r Aelodau wedi llwyddo i ymuno â mi a'r grŵp yn y neuadd ar ddiwrnod ei gyhoeddi. Dosbarthwyd copïau i bob Aelod, fe'i rhoddwyd yn y Llyfrgell ac ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, dyma fy nghyfle cyntaf i gyflwyno'r adroddiad yn ffurfiol.

Mae'n briodol imi wneud datganiad ar yr adeg hon, er bod llawer o waith i'w wneud cyn y byddaf mewn sefyllfa i allu ymateb i holl argymhellion y grŵp. Comisiynais ymchwiliad annibynnol i galedi a nawdd i fyfyrwyr yng Nghymru, ar ôl y cytundeb partneriaeth a chyhoeddais y câi grŵp ei ffurfio a nodais ei gylch gwaith mewn Cyfarfod Llawn fis Rhagfyr y llynedd. Cyn hynny gofynnais am awgrymiadau gan y pleidiau ar aelodaeth o'r grŵp ac, ar adeg y cyhoeddiad, mynegais fy niolchgarwch i'r rheini a benodwyd ac am eu parodrwydd i ymgymryd â'r dasg bwysig a roddwyd iddynt.

Dymunaf, bellach, ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, gofnodi ein diolch i'r Athro Teresa Rees a'i chyd-aelodau ar y grŵp ymchwilio am eu gwaith wrth lunio'r adroddiad hwn. Bydd yn gyfraniad sylweddol i ystyriaeth y Cynulliad o'r ffordd ymlaen ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru. Mae hynny yn arbennig o wir o ran ein diddordeb strategol brwd mewn cynyddu nifer y bobl sydd yn cymryd rhan mewn dysgu a gwella'r mynediad iddo, yn arbennig ymhlith y rheini sydd â chefnidir mewn grwpiau diffreintiedig. Gwnaeth Teresa a'i chydweithwyr waith hynod. Maent wedi llwyr gyfiawnhau ein hymrwymiad i sefydlu'r ymchwiliad hwn, a amlinellwyd yn gyntaf yn y cytundeb partneriaeth.

Fel grŵp gwirioneddol annibynnol yn gweithio'n ddi-dâl, dygodd y grŵp ynghyd ei brofiad a'i arbenigedd er budd cymuned

benefit of the community of Wales. In a relatively short period of time, it has consulted widely, taken evidence, and conducted or commissioned some valuable research. All in all it has produced precisely the kind of evidence base which the Assembly needs to inform its discussion of the issues bearing on student hardship. In short, this is another example of our capacity to bring freshness and originality to public business in Wales through the Assembly, hitting the targets that really matter to people throughout the country.

The group was asked to consider evidence of student hardship and public perception of it, to assess the impact of tuition fees on participation rates in higher education, to identify gaps in student support systems and to suggest possible interventions by the Assembly. I am glad to see that the report acknowledges and welcomes the additional resources that the Assembly has put into access and hardship funds in the past two years. It echoes the most recent reports from the funding councils on the use of access and hardship funds, which show that in both the higher and further education sectors the institutions are helping more students and making larger individual awards. Interestingly, the report notes that the number of participants in higher education is not falling. It acknowledges frankly that evidence suggesting that hardship is causing learners to drop out is largely inconclusive. However, hardship and debt aversion matter a great deal, especially among potential and actual learners from the least advantaged groups. We must face up to the implications of that, as I have made clear in my own contact with the National Union of Students, among other bodies.

A recent report from Education and Learning Wales on reducing the number of students dropping out, noted that higher education performance indicators published for the UK show that, on the whole, Welsh institutions stand up well against the benchmarks for student retention and come close to, match or exceed them. That is particularly so for those

Cymru. Mewn cyfnod cymharol fyr, ymgynghorodd yn eang, derbyniodd dystiolaeth, a chynhaliodd neu gomisiynodd gryn dipyn o waith ymchwil gwerthfawr. At ei gilydd cynhyrchodd yr union fath o sail dystiolaethol sydd ei hangen ar y Cynulliad i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y drafodaeth ar faterion yn ymwneud â chaledi myfyrwyr. Yn fyr, dyma enghraifft arall o'n gallu i ddod â newydd-deb a gwreiddioldeb i fusnes cyhoeddus yng Nghymru drwy gyfrwng y Cynulliad, gan fwrw'r targedau sydd o bwys i bobl ledled y wlad.

Gofynnwyd i'r grŵp ystyried tystiolaeth ynghylch caledi myfyrwyr a chanfyddiad y cyhoedd ohono, asesu effaith ffioedd dysgu ar y cyfraddau sydd yn cymryd rhan mewn addysg uwch, nodi bylchau mewn systemau cynnal myfyrwyr ac awgrymu ymyriadau posibl gan y Cynulliad. Yr wyf yn falch i weld bod yr adroddiad yn cydnabod ac yn croesawu'r adnoddau ychwanegol a ddarparodd y Cynulliad i gronfeydd mynediad a chaledi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'n ategu'r adroddiadau diweddaraf gan y cynghorau cyllido ar y defnydd o gronfeydd mynediad a chaledi, sydd yn dangos bod sefydliadau yn y sector addysg uwch a'r sector addysg bellach yn cynorthwyo mwy o fyfyrwyr ac yn dyfarnu gwobrau unigol mwy. Yn ddi-ddorol, mae'r adroddiad yn nodi nad yw'r nifer o bobl sydd yn cymryd rhan mewn addysg uwch yn gostwng. Mae'n cydnabod yn onest bod y dystiolaeth sydd yn awgrymu bod caledi yn peri i ddysgwyr adael addysg, ar y cyfan, yn amhendant. Fodd bynnag, mae caledi a gwrthwynebiad i ddyled yn bwnc sydd o bwys mawr, yn arbennig ymhlith dysgwyr presennol a'r rheini sydd â'r potensial i fod yn ddysgwyr o'r grwpiau lleiaf breintiedig. Rhaid inni wynebu goblygiadau hynny, fel y pwysleisiais drwy gyfrwng fy nghyswllt personol ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, ymhlith cyrff eraill.

Nododd adroddiad diweddar gan Ddysgu ac Addysgu Cymru ar leihau'r nifer o fyfyrwyr sydd yn gadael addysg, fod dangosyddion perfformiad addysg uwch ar gyfer y DU yn dangos, ar y cyfan, fod sefydliadau yng Nghymru yn dal eu tir yn effeithiol yn erbyn y meincnodau ar gyfer cadw myfyrwyr ac yn dod yn agos atynt, yn cyfateb â hwy, neu'n

institutions that draw a substantial proportion of students from disadvantaged neighbourhoods or groups where participation in higher education is low. However, if these levels of student retention are to be maintained, and, indeed, improved upon, there can be no let-up in the efforts and resources we apply, as we endeavour to expand the social and cultural base from which the institutions draw their students.

There is little benefit in attracting students from under-represented groups into higher education if they face hardship and then disillusionment. That message is not likely to encourage others to consider further and higher education. The independent investigation group was set up to take forward the partnership agreement commitment to ensure that the greatest number of people, young people in particular, have access to the widest possible opportunities. I welcome the fact that the group has considered not only higher, but further education. Further education is increasingly of critical importance to providing effective progression routes to higher education. The financial pressures on learners in both further and higher education should be considered fairly, side by side.

The report's 54 recommendations are divided into those which the group would like to see addressed at UK central government level, those which the Assembly may be able to use its existing powers to pursue and those which call for joint action between the Assembly and other bodies. The report acknowledges that in terms of the upcoming academic year, there is too little time in which to make fundamental changes to the existing support system. However, we are already pressing ahead with initiatives that naturally fit with the group's report. We have been making additional resources available for access and hardship funds. They have increased to £11.525 million for 2001 and are set to rise further. The institutions are already looking at ways of tracking learners' progress so that they can identify more precisely where drop-out is occurring, seek to find out the reasons behind it, and put remedies in place. Building on that, two projects have been established

rhagori arnynt. Mae hynny'n arbennig o wir am y sefydliadau hynny sydd yn denu cyfran sylweddol o fyfyrwyr o ardaloedd difreintiedig neu grwpiau lle mae'r nifer y bobl sydd yn astudio ar lefel addysg uwch yn isel. Fodd bynnag, os yw'r lefelau hyn o gadw myfyrwyr i gael eu cynnal, ac, yn wir, i gael eu gwella, ni ddylai'r ymdrechion a'r adnoddau a ddarparwn bylu, wrth inni wneud ein gorau glas i ehangu'r sail gymdeithasol a diwylliannol y mae'r sefydliadau'n denu eu myfyrwyr ohonynt.

Prin yw'r budd a ddaw o ddenu myfyrwyr o grwpiau a gaiff eu tangynrychioli i addysg uwch os ydynt yn wynebu caledi ac yna ddadrithiad. Ni fydd y neges honno yn debygol o annog eraill i ystyried addysg bellach ac uwch. Sefydlwyd y grŵp ymchwilio annibynnol er mwyn datblygu'r ymrwymiad yn y cytundeb partneriaeth i sicrhau y gall y nifer fwyaf o bobl, a phobl ifanc yn benodol, fanteisio ar y cyfleoedd ehangaf posibl. Croesawaf y ffaith fod y grŵp wedi ystyried addysg bellach yn ogystal ag addysg uwch. Mae addysg bellach yn gynyddol o bwysigrwydd hanfodol er mwyn darparu llwybrau datblygu effeithiol at addysg uwch. Dylid ystyried y pwysau ariannol ar ddysgwyr mewn addysg bellach ac uwch yn deg, ochr yn ochr.

Rhennir y 54 o argymhellion yn yr adroddiad i'r rheini yr hoffai'r grŵp weld llywodraeth ganolog ar lefel y DU yn mynd i'r afael â hwy, y rheini y gallai'r Cynulliad fynd i'r afael â hwy drwy ddefnyddio'i bwerau presennol, a'r rheini sydd yn galw am gamau gweithredu ar y cyd rhwng y Cynulliad a chyrff eraill. Mae'r adroddiad yn cydnabod, o ran y flwyddyn academaidd nesaf, nad oes digon o amser i wneud newidiadau hanfodol i'r system gymorth bresennol. Fodd bynnag, yr ydym eisoes yn bwrw iddi â mentrau sydd yn cyd-fynd yn naturiol ag adroddiad y grŵp. Yr ydym wedi darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer cronfeydd mynediad a chaledi. Maent wedi cynyddu i £11.525 miliwn ar gyfer 2001 a dylent gynyddu ymhellach. Mae'r sefydliadau eisoes yn edrych ar ddulliau o ddilyn cynnydd dysgwyr fel bod modd iddynt ganfod yn fwy penodol pryd mae'r myfyrwyr yn gadael addysg, ceisio canfod y rhesymau dros hynny, a gosod

with a view to introduce unique learner numbers for those in pre- and post-16 education.

The report also covers matters of general policy dealt with by the Department for Education and Skills. I have already drawn those recommendations to the attention of Ministers at DES. I note that the group has agreed that the mixed economy for funding should continue. It challenges the current approach to upfront tuition fees in higher education. It recommends an end-loaded, income-contingent graduate endowment contribution. Its approach to balancing contributions from state and student deserves to be pressed home.

4:30 p.m.

The report also makes recommendations specific to Wales, covering issues for which the Assembly has devolved responsibility. In particular, it suggests a reform of access and hardship funds, rolling them all into two new schemes: learner maintenance bursaries and financial contingency funds. Obviously, an agenda so large and with such significant financial implications cannot be dealt with overnight. I look forward to discussion in the Education and Lifelong Learning Committee and to further consideration of the inquiry's recommendations as they relate to the higher education policy review. Those discussions will inform the Cabinet's final decisions. We will examine all the recommendations in proper detail. They will be tested rigorously and realistically from every standpoint, including the financial standpoint, as colleagues will expect. I hope that all bodies, including the higher and further education institutions and ELWa, will let us have their views on the report. I will be interested to learn of the Education and Lifelong Learning Committee's views on the priorities in the report. The Committee will have an opportunity to discuss the report with members of the inquiry group on 11 July. As we give thorough and prompt consideration to the group's recommendations, we shall address funding issues at successive budget planning rounds, taking full account of the

datrysiadau yn eu lle. Gan adeiladu ar hynny, sefydlwyd dau brosiect gyda'r bwriad o gyflwyno rhifau dysgwyr unigryw ar gyfer y myfyrwyr hynny mewn addysg cyn ac ar ôl 16 oed.

Mae'r adroddiad hefyd yn cwmpasu materion polisi cyffredinol yr ymdrinnir â hwy gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Yr wyf eisoes wedi tynnu sylw'r Gweinidogion yn yr Adran at yr argymhellion hynny. Nodaf fod y grŵp wedi cytuno y dylai'r economi gymysg ar gyfer cyllido barhau. Mae'r adroddiad yn herio'r ymagwedd bresennol tuag at ffioedd dysgu ymlaen llaw mewn addysg uwch. Mae'n argymhell cyfraniad gwaddol i fyfyrwyr ar ddiwedd addysg yn ddiybennol ar incwm. Dylid pwysleisio ei ymagwedd tuag at ennill cydbwysedd rhwng cyfraniadau gan y wladwriaeth a'r myfyriwr.

Gwna'r adroddiad hefyd argymhellion penodol i Gymru, yn cwmpasu materion y mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb datganoledig drostynt. Yn benodol, awgryma ddiwygio'r cronfeydd mynediad a chaledi, a'u cyfuno'n ddau gynllun newydd: bwrsariaethau cynnal dysgwyr a chronfeydd ariannol wrth gefn. Yn amlwg, ni ellir mynd i'r afael ag agenda mor fawr gyda goblygiadau ariannol mor sylweddol dros nos. Edrychaf ymlaen at y drafodaeth yn y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ac ystyried argymhellion yr ymchwiliad ymhellach fel y maent yn gysylltiedig â'r adolygiad addysg uwch. Bydd y trafodaethau hynny yn llywio penderfyniadau terfynol y Cabinet. Byddwn yn archwilio pob un o'r argymhellion yn eu manylder llawn. Cânt eu profi'n drylwyr ac yn realistig, o bob safbwynt, gan gynnwys y safbwynt ariannol, fel y byddai cyd-Aelodau'n ei ddisgwyl. Gobeithiaf y bydd pob corff, gan gynnwys y sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach ac ELWa, yn rhoi eu safbwyntiau inni ar yr adroddiad. Bydd gennyf ddiddordeb clywed safbwyntiau'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar flaenoriaethau'r adroddiad. Caiff y Pwyllgor gyfle i drafod yr adroddiad gydag aelodau'r grŵp ymchwiliad ar 11 Gorffennaf. Wrth inni ystyried argymhellion y grŵp yn drylwyr ac yn ddioed, byddwn yn mynd i'r afael â materion cyllido mewn

interests of learners and the competing priorities facing the Assembly. Discussions with the Minister for Finance, Local Government and Communities are ongoing with regard to the group's recommendation for an increase in access and hardship funds for this financial year. There are practical considerations in relation to the start of the academic year and we acknowledge the concern expressed in the report about the late notification of funds. The aim is to indicate the Cabinet's response as soon as possible.

The inquiry report presents us with a significant challenge. We should rise to it. We have been given a great opportunity to improve the structure of incentives and remove barriers to learning in Wales. We should seize it with both hands.

Gareth Jones: Diolchaf i'r Gweinidog am y datganiad ac am gomisiynu'r adroddiad. Nid oes amheuaeth bod y grŵp ymgynghorol, dan arweiniad yr Athro Teresa Rees, wedi cyflawni ei briod waith a dylem ei longyfarch am y gwaith hwnnw. Tynnwyd sylw'r Cynulliad at galedi ariannol, a'r anghyfiawnder cymdeithasol sydd yn bodoli ymhlith myfyrwyr. Dylem hefyd groesawu'r syniadau newydd sydd yn yr adroddiad a'r adnoddau ariannol ychwanegol—er efallai'n annigonol—a fuddsoddwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Fodd bynnag, cyn inni or-longyfarch, dylem ystyried y ffaith fod 14 o awgrymiadau'r adroddiad yn dibynnu ar ba mor effeithiol y bydd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn pwyso ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau am yr adnoddau ac am yr hawl i unioni'r anghyfiawnder amlwg yn ein gwlad y cyfeirir ato yn yr adroddiad. O ystyried bod Llywodraeth Cymru yn amcanu i Gymru fod yn wlad sydd yn dysgu ac yn meithrin hunan hyder, pa neges y mae'r math hwnnw o gardota gwleidyddol yn ei gyfleu i'n myfyrwyr a'n pobl ifanc ni? Onid yw'n dangos gwendid sylfaenol setliad cyfansoddiadol Cymru o'i gymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon? Onid yw'n enghraifft arbennig o'r angen am ragor o rym deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol? A

cylchoedd cynllunio cyllideb dilynol, gan ystyried buddiannau dysgwyr yn llawn a'r blaenoriaethau sydd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn y Cynulliad. Mae trafodaethau gyda'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn parhau o ran argymhelliad y grŵp am gynnydd yn y cronfeydd mynediad a chaledi ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Ceir ystyriaethau ymarferol yn ymwneud â dechrau'r flwyddyn academiaidd a chydnabyddwn y pryder a fynegwyd yn yr adroddiad ynghylch yr hysbysiad hwyr o gyllid. Y nod yw nodi ymateb y Cabinet cyn gynted â phosibl.

Rhydd adroddiad yr ymchwiliad her sylweddol inni. Dylem ymateb i'r her honno. Rhoddwyd cyfle gwych inni wella'r strwythur cymhellion a chael gwared ar rwystrau rhag dysgu yng Nghymru. Dylem achub ar y cyfle o ddifrif.

Gareth Jones: I thank the Minister for her statement and for commissioning the report. There is no doubt that the group, under the leadership of Professor Teresa Rees, has completed the work expected of it and we should congratulate it for that work. The Assembly's attention has been drawn to student hardship and the social injustice that exists among students. We should also welcome the new ideas in this report and the additional financial resources—although possibly insufficient—that have been invested over the past two years.

However, before we go overboard in our admiration, we should consider the fact that 14 of the report's suggestions depend on the effectiveness of the Minister for Education and Lifelong Learning in pressing the Secretary of State for Education and Skills for the resources and for the right to rectify the obvious injustice in our country to which this report refers. Given the Government of Wales's aim for Wales to be a country that learns and fosters self-confidence, what message does that kind of political begging convey to our students and young people? Does it not display a basic weakness in the Welsh constitutional settlement compared to that in Scotland and Northern Ireland? Is it not an example of the need for more legislative power for the National Assembly? Will the Minister use this opportunity to put

yw'r Gweinidog am ddefnyddio'r cyfle hwn i bwysu ar Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol am fwy o hawliau i'r Cynulliad, fel y gallwn wireddu ac arddel yr hyn y mae Llafur Newydd wedi cyfeirio ato droeon, sef datrysiad Cymreig i broblemau Cymreig? Neu ai yr un hen stori fydd hi, sef datrysiad Seisnig i broblemau Cymreig?

Jane Davidson: One key message in this report for people of any age who want to be learners in Wales is that the Assembly takes the issue of debt and hardship seriously. That is the important message in this report. The group had an open remit in terms of what it presented to us. Clearly, there are some recommendations that can only be implemented with the assistance of the UK Government. I made clear on the day that the report was launched in the Assembly, and in my statement, that I have taken seriously the recommendations about considering abolishing the upfront tuition fees and replacing them with a deferred graduate endowment scheme. I am keen to press for that and so are other parties in the Assembly. With regard to the other recommendations in the report, we must now consider them properly. This report has only been on my desk for seven working days; it took the group seven months to compile. We need to give it proper consideration. That is why I am so pleased that there will be an opportunity for members of the commission to talk to members of the Education and Lifelong Learning Committee so that we can consider what the Committee wants to prioritise in terms of recommendations for our own higher education review in relation to student support.

Eleanor Burnham: On behalf of the Liberal Democrat group I welcome your statement and place on record our thanks and appreciation of the hard work, commitment and expertise that the members of the commission poured into this report. They have done future generations of learners in Wales a great service.

From what you said, Jane, it is clear that there is a growing sense of common purpose across the political spectrum on these issues. Your personal commitment to drive forward a radical learning agenda gives me great

pressure on the United Kingdom Government to give more rights to the Assembly, so that we can fulfil and uphold what New Labour has often referred to, namely, a Welsh solution to a Welsh problem? Or will it be the same old story of an English solution to a Welsh problem?

Jane Davidson: Un neges allweddol yn yr adroddiad hwn ar gyfer pobl o bob oed sydd yn dymuno bod yn ddysgwyr yng Nghymru yw bod y Cynulliad yn ystyried mater dyled a chaledi o ddifrif. Dyna'r neges bwysig yn yr adroddiad hwn. Yr oedd gan y grŵp gyloch gwaith agored ynglŷn â'r hyn a gyflwynai inni. Yn amlwg, ceir rhai argymhellion y gellir ond eu rhoi ar waith gyda chymorth Llywodraeth y DU. Eglurais ar ddiwrnod lansio'r adroddiad yn y Cynulliad, ac yn fy natganiad, fy mod wedi ystyried yr argymhellion o ddifrif ynghylch cael gwared ar y ffioedd dysgu ymlaen llaw a rhoi cynllun gwaddol gohiriedig i raddedigion yn eu lle. Yr wyf yn awyddus i bwysu am hynny fel y mae pleidiau eraill yn y Cynulliad. O ran yr argymhellion eraill yn yr adroddiad, rhaid inni eu hystyried yn iawn yn awr. Dim ond ers saith diwrnod gwaith y bu'r adroddiad hwn ar fy nesg; treuliodd y grŵp saith mis yn ei lunio. Rhaid inni roi ystyriaeth deilwng iddo. Dyna pam fy mod mor falch y bydd cyfle i aelodau o'r comisiwn siarad ag aelodau'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes fel bod modd inni ystyried beth mae'r Pwyllgor yn dymuno rhoi blaenoriaeth iddo o ran yr argymhellion ar gyfer ein hadolygiad ni ein hunain o addysg uwch mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr.

Eleanor Burnham: Ar ran grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol croesawaf eich datganiad a chofnodaf ein diolch a'n gwerthfawrogiad am yr holl waith caled, ymroddiad ac arbenigedd a gyfrannodd aelodau'r comisiwn i'r adroddiad hwn. Gwnaethant gymwynas fawr â chenedlaethau o ddysgwyr yn y dyfodol yng Nghymru.

O'r hyn a ddywedaso, Jane, mae'n amlwg bod ymdeimlad cynyddol o amcan cyffredin ar draws y sbectrum gwleidyddol ar y materion hyn. Mae eich ymrwymiad personol at ddwyn agenda ddysgu radical ymlaen yn

confidence that we can live up to the stiff challenge that Professor Rees and her colleagues have set us.

As a Liberal Democrat, I am also delighted that this report gives us the opportunity, not just to mimic the proposals implemented by the Liberal Democrat and Labour partnership in Scotland, but to take them forward and apply them to Wales, and to our situation and circumstances. That was the intention of instigating the commission in the partnership agreement. We are delighted that thus far our aspirations have been fulfilled.

I want to pick up on some specific points. You mentioned the inclusion of further education in the report's considerations; for too long further and higher education have been viewed separately, to the detriment of both. Can I assume, from what you said, that in taking this report forward, you are committed to dismantling the Chinese walls between the two sectors? Bearing in mind the Committee's work on this issue, I would be interested in how you see Professor Rees's recommendations impacting upon that agenda.

You also spoke of the Committee's direct involvement in these proposals. While I welcome that, and look forward to playing my part, will you give an assurance that you will not wait for the Committee's consideration before pursuing the recommendation of increased hardship funds for this coming year with the Minister for Finance, Local Government and Communities? Time is short and I would hate to see us losing valuable weeks of providing extra help to students in the coming year because of the vagaries of the Education and Lifelong Learning Committee's timetable.

Finally, the Liberal Democrats' stance on tuition fees and maintenance grants is well-known. However, we need to put on record our support for your approach to feed a detailed discussion of the recommendations into next year's budget planning round. Will you give an assurance that in that discussion you will take Teresa Rees's words into full

rhoi llawer o hyder imi y gallwn ateb yr her anodd a bennwyd gan yr Athro Rees a'i chydweithwyr inni.

Fel Democrat Rhyddfrydol, yr wyf hefyd yn falch iawn fod yr adroddiad hwn yn rhoi'r cyfle, nid yn unig i efelychu'r cynigion a roddwyd ar waith gan y bartneriaeth rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur yn yr Alban, ond hefyd i'w datblygu a'u gwneud yn berthnasol i Gymru, ac i'n sefyllfa a'n hamgylchiadau. Dyna oedd bwriad sefydlu'r comisiwn yn y cytundeb partneriaeth. Yr ydym wrth ein bodd fod ein dyheadau hyd yn hyn wedi'u gwireddu.

Hoffwn ymateb i rai pwyntiau penodol. Bu ichi grybwyll cynnwys addysg bellach o fewn ystyriaethau'r adroddiad; am gyfnod llawer yn rhy hir ystyriwyd addysg bellach ac uwch ar wahân, a hynny er niwed i'r ddau sector. A allaf gymryd yn ganiataol, ar sail yr hyn a ddywedaso, eich bod, wrth ddatblygu'r adroddiad hwn, yn ymrwymedig i gael gwared ar y muriau diadlam hyn rhwng y ddau sector? Gan gadw mewn cof waith y Pwyllgor ar y mater hwn, byddai gennyf ddiddordeb gwybod sut y credwch y bydd argymhellion yr Athro Rees yn effeithio ar yr agenda honno.

Bu ichi siarad hefyd am gyfraniad uniongyrchol y Pwyllgor yn y cynigion hyn. Er fy mod yn croesawu hynny, ac yn edrych ymlaen at chwarae fy rhan innau, a wnewch chi roi sicrwydd na fyddwch yn aros am ystyriaeth y Pwyllgor cyn gwireddu'r argymhelliad o gynyddu cronfeydd caledi ar gyfer y flwyddyn i ddod gyda'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau? Nid oes llawer o amser ar ôl a byddai'n atgas gennyf ein gweld yn colli wythnosau gwerthfawr o ddarparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn i ddod o ganlyniad i fypwys amserlen y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

I gloi, mae safbwynt y Democratiaid Rhyddfrydol ar ffioedd dysgu a grantiau cynhaliaeth yn hysbys i bawb. Fodd bynnag, mae angen inni gofnodi ein cefnogaeth i'ch ymagwedd o gyfrannu at drafodaeth fanwl o'r argymhellion i gylch cynllunio cyllideb y flwyddyn nesaf. A wnewch chi roi sicrwydd y byddwch chi yn y drafodaeth honno yn rhoi

account, when she said that without the increased investment recommended in the report, the cost to Wales would be greater?

Jane Davidson: An interesting point arising from going around the British Isles, looking at other British countries, as we did recently in the Committee, when we went to Northern Ireland and Scotland, was that different parts of the UK implement issues concerning support for students in further and higher education differently. They do so according to the individual country's needs, as decided by their political system. We have much to learn from other parts of the UK, but I welcome what you said about this report focusing on Wales. It focuses on the needs of students in Wales, and on the ways in which we can tackle those needs in Wales. Although the recommendations in the third part of the report, about the relationship between the Assembly and other organisations, are probably far less interesting to the press, many of those will be the practical steps that will make a difference to students' lives. It is important that we give that proper consideration. I am happy to confirm, as I did in my statement, that I am in ongoing discussions with the Minister for Finance. The aim is to indicate the Cabinet's response as soon as possible. However, as Members will be aware, the Minister for Finance intends to make her own statement about budgets and out-turn figures later this week, and we need to examine the budget in the round in terms of making substantial investment in individual Cabinet portfolios.

Jonathan Morgan: First, on behalf of the Welsh Conservative Party, I thank the advisory panel, in particular Professor Teresa Rees, for the hard work that she and her team put into this inquiry. It is a welcome report, not only in terms of its analysis of the current situation, but also in terms of the recommendations and the great food for thought that lies within it.

ystyriaeth lawn i eiriau Teresa Rees, pan ddywedodd y byddai'r gost i Gymru hyd yn oed yn fwy, heb y cynnydd mewn buddsoddiad a argymhellwyd yn yr adroddiad?

Jane Davidson: Pwynt diddorol a gododd tra'n teithio o amgylch Ynysoedd Prydain, yn edrych ar wledydd eraill ym Mhrydain, fel y gwnaethom yn ddiweddar yn y Pwyllgor, pan aethom i Ogledd Iwerddon a'r Alban, oedd bod rhannau gwahanol o'r DU yn rhoi materion yn ymwneud â chymorth i fyfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch ar waith mewn dulliau gwahanol. Gwnânt hynny yn unol ag anghenion y wlad unigol, fel y pennwyd gan eu system wleidyddol. Mae llawer gennym i'w ddysgu o rannau eraill o'r DU, ond croesawaf yr hyn a ddywedasocho am yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Gymru. Canolbwyntia ar anghenion myfyrwyr yng Nghymru, ac ar y ffyrdd y gallwn fynd i'r afael â'r anghenion hynny yng Nghymru. Er bod yr argymhellion yn nhrydedd rhan yr adroddiad, ynglŷn â'r berthynas rhwng y Cynulliad a sefydliadau eraill, fwy na thebyg yn llawer llai diddorol i'r wasg, bydd llawer o'r rheini yn gamau ymarferol a fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau myfyrwyr. Mae'n bwysig ein bod yn rhoi ystyriaeth lawn i hynny. Yr wyf yn hapus i gadarnhau, fel y gwneuthum yn fy natganiad, fy mod yn cynnal trafodaethau parhaus gyda'r Gweinidog dros Gyllid. Y nod fydd nodi ymateb y Cabinet cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, fel y gŵyr yr Aelodau, mae'r Gweinidog dros Gyllid yn bwriadu gwneud ei datganiad ei hun ynglŷn â chyllidebau a ffigurau alldro yn ddiweddarach yr wythnos hon, ac mae angen inni archwilio cylch y gyllideb o ran buddsoddi'n sylweddol ym mhortffolios Cabinet unigol.

Jonathan Morgan: Yn gyntaf, ar ran Plaid Geidwadol Cymru, diolchaf i'r panel ymgynghorol, ac yn arbennig i'r Athro Teresa Rees a'i thîm, am eu gwaith caled yn yr ymchwiliad hwn. Mae'n adroddiad a groesewir, nid yn unig o ran ei ddadansoddiad o'r sefyllfa bresennol, ond hefyd o ran yr argymhellion a wneir a'r materion eraill i gnoi cil arnynt a geir ynddo.

4:40 p.m.

The Minister said that we need to seize this opportunity with both hands. I remind the Assembly, and the Government of Wales in particular, that that could have been done two years ago. At that time, I tabled a statement of opinion calling for an independent committee of inquiry into student hardship. The statement was jointly sponsored by Jocelyn Davies and Sue Essex, who was a backbencher at the time. I remind the main governing party that only two Labour Members signed that statement. We could have done this two years ago. We did not have to wait for a partnership agreement. This report could have been initiated two years ago and the recommendations implemented; the students of Wales would now be, hopefully, benefiting from them. As a result of the delay, considerable hardship has been caused and the number of applications to Welsh higher education institutions has fallen. I am sure that the people of Wales will be disappointed that the Minister did not support that statement of opinion two years ago.

The Minister claims that she wants to widen access and improve participation. However, the Minister and her colleagues in the governing party have supported the UK Government line over the last two years. It was the Minister's party that introduced tuition fees and abolished maintenance grants. Although the governing party may try to seize credit for this report and its recommendations, it is the Labour Party that is to blame for the disaster that we currently face in Wales. The Labour Party abolished grants and introduced fees. The students of Wales will remember that for a long time.

In her statement, the Minister referred to participation rates. There has been a drop of 7 per cent in applications to Welsh higher education institutions. In Lampeter, there has been a drop of about 15 per cent. People will draw the conclusion that it is student hardship and its causes that ensure that many students stay away from further education, and from Welsh higher education institutions in particular.

Dywedodd y Gweinidog fod angen inni achub ar y cyfle hwn o ddifrif. Atgoffaf y Cynulliad, a Llywodraeth Cymru yn arbennig, y gallai hynny fod wedi'i wneud ddwy flynedd yn ôl. Bryd hynny, cyflwynais ddatganiad o farn yn galw am bwyllgor ymchwilio annibynnol i galedi myfyrwyr. Cefnogwyd y datganiad hwnnw ar y cyd gan Jocelyn Davies a Sue Essex, a oedd yn feinciwr cefn ar y pryd. Atgoffaf y brif blaid lywodraethol mai dim ond dau Aelod Llafur a lofnododd y datganiad hwnnw. Gallem fod wedi gwneud hyn ddwy flynedd yn ôl. Nid oedd angen inni aros am gytundeb partneriaeth. Gallai'r adroddiad hwn fod wedi'i ysgogi ddwy flynedd yn ôl a rhoi'r argymhellion ar waith; byddai myfyrwyr Cymru bellach, gobeithio, yn elwa arnynt. O ganlyniad i'r oedi, achoswyd caledi sylweddol ac mae'r nifer o geisiadau i sefydliadau addysg bellach yng Nghymru wedi gostwng. Yr wyf yn siŵr y bydd pobl Cymru'n siomedig na chefnogodd y Gweinidog y datganiad hwnnw o farn ddwy flynedd yn ôl.

Honna'r Gweinidog ei bod yn dymuno ehangu mynediad a gwella cyfranogiad. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog a'i chyd-Aelodau yn y blaid lywodraethol wedi cefnogi safbwynt Llywodraeth y DU dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Plaid y Gweinidog a gyflwynodd ffioedd dysgu a diddymu'r grantiau cynhaliaeth. Er y gall y blaid lywodraethol geisio ennill clod am yr adroddiad hwn a'i argymhellion, y Blaid Lafur sydd ar fai am y drychineb yr ydym yn ei hwynebu yng Nghymru ar hyn o bryd. Diddymodd y Blaid Lafur grantiau a chyflwynwyd ffioedd ganddynt. Bydd myfyrwyr Cymru yn cofio hynny am gyfnod maith.

Yn ei datganiad, cyfeiriodd y Gweinidog at y cyfraddau cyfranogi. Bu gostyngiad o 7 y cant mewn ceisiadau i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Yn Llanbedr Pont Steffan bu gostyngiad o tua 15 y cant. Bydd pobl yn dod i'r casgliad mai caledi myfyrwyr a'i achosion sydd yn sicrhau bod llawer o fyfyrwyr yn osgoi addysg bellach, a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn benodol.

While the Welsh Conservatives welcome the rather woolly commitments made by the Minister this afternoon, the Assembly must make serious commitments. If the proposals are to be accepted and implemented, we must make a financial commitment for the next academic year—that is, for September of this year. The Welsh Conservatives hope that new students going into university this year would benefit from the proposals that will be implemented. What commitment will the Minister give to the Assembly and the people of Wales in terms of implementing these proposals?

My second question relates to the graduate endowment scheme. How much will each student be expected to repay after graduation and after they have reached the £25,000 salary requirement, as outlined in the report? How much should students have to repay?

Would the learner maintenance bursaries require primary legislation? If not, when will you design an appropriate scheme relating to them, as outlined in the independent report?

Will the contingency funds be available for Welsh domiciled students or for both Welsh and non-Welsh students? If not, the contingency funds, which would be made available for severe hardship and emergency, would cause serious concern.

My fifth question relates to the Minister's point about drawing the attention of Ministers in the Department for Education and Skills to the contents of the report. Has the Minister done anything more than that? Has she actively lobbied Ministers and argued in support of the report's recommendations, or did she merely send them a copy in the post?

I am sure that the people of Wales and the National Union of Students will take this statement for what it is. It is an apology for the disastrous situation that we face, for the damage that the Minister and her party have inflicted on Wales and across the UK in recent years and for the fact that the Assembly could have done this two years ago. Members could have supported the

Tra bod Ceidwadwyr Cymru yn croesawu'r ymrwymïadau eithaf niwlog a wnaethpwyd gan y Gweinidog y prynhawn yma, rhaid i'r Cynulliad wneud ymrwymïadau difrifol. Os yw'r cynigion i gael eu derbyn a'u gweithredu, rhaid inni wneud ymrwymïad ariannol ar gyfer y flwyddyn academiaidd nesaf—hynny yw, ar gyfer Medi eleni. Mae Ceidwadwyr Cymru yn gobeithio y byddai myfyrwyr newydd sydd yn mynd i'r brifysgol eleni yn gallu elwa ar y cynigion a gaiff eu gweithredu. Pa ymrwymïad a rydd y Gweinidog i'r Cynulliad a phobl Cymru o ran gweithredu'r cynigion hyn?

Mae fy ail gwestiwn yn ymwneud â'r cynllun gwaddol i raddedigion. Faint y bydd disgwyl i bob myfyriwr ei ad-dalu ar ôl graddio ac ar ôl cyrraedd y gofyniad cyflog o £25,000, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad? Faint fydd yn rhaid i fyfyrwyr ei ad-dalu?

A fyddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar y bwrsariaethau cynhaliaeth i ddysgwyr? Os na fyddai, pryd y byddwch yn creu cynllun priodol yn ymwneud â hwy, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad annibynnol?

A fydd y cronfeydd wrth gefn ar gael ar gyfer myfyrwyr sydd yn byw yng Nghymru neu ar gyfer myfyrwyr Cymru ac ar gyfer myfyrwyr nad ydynt o Gymru? Os na fyddant, byddai'r cronfeydd wrth gefn, a fyddai ar gael ar gyfer caledi ac argyfwng difrifol, yn peri pryder difrifol.

Mae fy mhumed cwestiwn yn ymwneud â phwynt y Gweinidog ynglŷn â thynnu sylw Gweinidogion yn yr Adran Addysg a Sgiliau at gynnwys yr adroddiad. A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw beth yn fwy na hynny? A ydyw wedi lobio Gweinidogion yn weithredol ac wedi dadlau o blaid argymhellion yr adroddiad, neu ai'r unig beth a wnaeth oedd anfon copi atynt yn y post?

Yr wyf yn siŵr y bydd pobl Cymru ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn cymryd y datganiad hwn am yr hyn ydyw. Ymddiheuriad ydyw am y sefyllfa drychinebus yr ydym yn ei hwynebu, am y niwed a wnaeth y Gweinidog a'i phlaid i Gymru ac ar draws y DU dros y blynyddoedd diwethaf ac am y ffaith y gallai'r Cynulliad fod wedi gwneud hyn ddwy flynedd yn ôl.

statement of opinion, but they chose not to do so. This could have been done two years ago. I am sure that the people of Wales will see this for what it truly is—an apology.

Jane Davidson: Thank you, Jonathan. I knew that consensus had to break down somewhere. I have a few points in response. One key accusation that is levelled in the report is that although many people in Wales would never have to pay tuition fees, they perceive that they would have to do so. Who has created that perception, I wonder? Who has suggested that all people must pay tuition fees, and therefore put people off going on to higher education? It is an important point that the perception— *[Interruption.]* I would be grateful, Presiding Officer, if I could be allowed to finish my sentence instead of having to cope with the rabble.

The Presiding Officer: Order. The Minister is replying to a question from Jonathan Morgan.

Jane Davidson: As the report states several times, it is perception, in many ways, that is the problem. When we consider who has created that perception, you need to examine your consciences also. On a small constitutional point, you clearly do not remember that prior to my becoming Minister, I was Deputy Presiding Officer, and therefore not able to sign statements of opinion. That is an interesting point.

The report's timing could not be better for two reasons. First, the Assembly has been able to give proper consideration to these issues through the work of the independent group. Secondly, we have a new Government in place. In my conversation with Margaret Hodge, to whom I have talked at length about this issue, there has been a positive response to the fact that messages are coming in from the whole of the student community, as well as from different parts of the UK, that we need to look at this issue. Margaret Hodge has indicated that she is a listening Minister, and I will press the case for this hard. I was not suggesting that we just send the recommendations to the Department for

Gallai'r Aelodau fod wedi cefnogi'r datganiad o farn, ond dewisasant beidio â gwneud hynny. Gallai hyn fod wedi'i wneud ddwy flynedd yn ôl. Yr wyf yn siŵr y bydd pobl Cymru yn ei weld am yr hyn ydyw—ymddiheuriad.

Jane Davidson: Diolch, Jonathan. Gwyddwn y byddai'r consensws yn gorfod dod i ben yn rhywle. Mae gennyf ychydig bwyntiau mewn ymateb. Un cyhuddiad allweddol a wneir yn yr adroddiad yw er na fyddai'n rhaid i lawer o bobl yng Nghymru fyth dalu ffioedd dysgu, maent yn amgyffred y byddai'n rhaid iddynt wneud hynny. Pwy a greodd yr amgyffrediad hwnnw, tybed? Pwy awgrymodd y dylai pawb dalu ffioedd dysgu, a thrwy hynny newid meddyliau pobl ynglŷn ag astudio ar lefel addysg uwch? Mae'n bwynt pwysig bod yr amgyffrediad—*[Torri ar draws.]* Byddwn yn ddiolchgar, Lywydd, pe caniateir imi orffen fy mrawddeg yn hytrach na gorfod ymdopi â'r dorf.

Y Llywydd: Trefn. Mae'r Gweinidog yn ateb cwestiwn gan Jonathan Morgan.

Jane Davidson: Fel y noda'r adroddiad sawl gwaith, yr amgyffrediad, ar sawl gwedd, yw'r broblem. Pan ystyriwn pwy a greodd yr amgyffrediad hwn, mae angen ichi hefyd archwilio eich cydwybod. Ar bwynt cyfansoddiadol bach, mae'n amlwg nad ydych yn cofio cyn imi ddod yn Weinidog, imi fod yn Ddirprwy Lywydd, ac felly nid oedd modd imi lofnodi datganiadau o farn. Mae hwnnw'n bwynt diddorol.

Ni allai amseriad yr adroddiad fod yn well am ddau reswm. Yn gyntaf, llwyddodd y Cynulliad roi ystyriaeth wirioneddol i'r materion hyn drwy waith y grŵp annibynnol. Yn ail, mae gennym Lywodraeth newydd yn ei lle. Yn fy sgwrs gyda Margaret Hodge, y siaredais â hi'n helaeth ynglŷn â'r mater hwn, cafwyd ymateb cadarnhaol i'r ffaith fod negeseuon yn cyrraedd o gymuned gyfan y myfyrwyr, yn ogystal â rhannau gwahanol o'r DU, fod angen inni edrych ar y mater hwn. Nododd Margaret Hodge ei bod yn Weinidog sydd yn gwranddo, a byddaf yn pwyso'n galed am hyn. Nid oeddwn yn awgrymu mai dim ond anfon ein hargymhellion y dylem ei wneud at yr Adran Addysg a Sgiliau. Ar y

Education and Skills. On the day that this report was launched, I indicated that I was extremely happy to press the case hard for that particular recommendation.

On the other recommendations, I have introduced the report to the Assembly today. If you have questions about their implementation, you will have a chance to put them to the independent investigation group when it attends the Education and Lifelong Learning Committee on 11 July. I indicated in my statement that I look forward to hearing the outcome of those Committee deliberations in terms of the Cabinet response to the report. However, I have already given an assurance to Eleanor Burnham, and in this statement, that I am currently in discussion with the Minister for Finance on the recommendations for next year.

Huw Lewis: I welcome the report's publication. There is much food for thought for us all in it—we can all agree on that, at least. This is an interesting discussion, because it highlights the stark differences in approach between all parties in the Chamber on this issue. I would like to raise the social justice, or socialist, issue. We have the nationalists on one side who do not mind who gets to go to higher education in Wales, as long as higher education in Wales is Welsh enough, is run from Wales and is independent of Westminster and all the rest of it. The issue of who gets to benefit and whose life chances are enhanced by the opportunities of higher education is of little relevance to a nationalist party. That came across in Gareth Jones's remarks.

Rhodri Glyn Thomas: Oh, go on.

Huw Lewis: Well, you sit there and defend the biggest bung for the middle classes since mortgage interest tax relief in quite a relaxed manner—

Rhodri Glyn Thomas *rose*—

Huw Lewis: I am not giving way just now, Rhodri.

diwrnod y lansiwyd yr adroddiad hwn, nodais fy mod yn fodlon iawn i bwysu'n galed am yr argymhelliaid arbennig hwnnw.

Ynglŷn â'r argymhellion eraill, yr wyf wedi cyflwyno'r adroddiad i'r Cynulliad heddiw. Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'u gweithredu, cewch gyfle i'w cyflwyno gerbron y grŵp ymchwiliad annibynnol pan fo'n mynychu'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 11 Gorffennaf. Nodais yn fy natganiad fy mod yn edrych ymlaen at glywed canlyniad y trafodaethau hynny yn y Pwyllgor o ran ymateb y Cabinet i'r adroddiad. Fodd bynnag, yr wyf eisoes wedi rhoi sicrwydd i Eleanor Burnham, ac yn y datganiad hwn, fy mod ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau gyda'r Gweinidog dros Gyllid ar yr argymhellion ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Huw Lewis: Croesawaf gyhoeddiad yr adroddiad. Mae llawer o ddeunydd i gnoi cil arno ynddo—gall pawb gytuno ar hynny, o leiaf. Mae hon yn drafodaeth ddiddorol, am ei bod yn tanlinellu'r gwahaniaethau mawr mewn ymagwedd rhwng y pleidiau yn y Siambr ar y mater hwn. Hoffwn godi pwnc cyfiawnder cymdeithasol, neu sosialaidd. Ar un ochr mae'r cenedlaetholwyr nad oes ots ganddynt pwy sydd â mynediad i addysg uwch yng Nghymru, gyhyd â bod addysg uwch yng Nghymru yn ddigon Cymreig, ac yn cael ei drefnu o Gymru ac yn annibynnol ar San Steffan a'r gweddill. Nid yw pwy sydd yn elwa ar addysg uwch a chyfleoedd bywyd pwy a gaiff eu gwella gan gyfleoedd addysg uwch yn berthnasol iawn i blaid genedlaetholgar. Yr oedd hynny'n amlwg yn sylwadau Gareth Jones.

Rhodri Glyn Thomas: O, dewch o'na.

Huw Lewis: Wel, eisteddwch yn y fan honno ac amddiffyn y cil-dwrn mwyaf i'r dosbarthiadau canol ers y rhyddhad treth incwm ar forgais mewn dull eithaf hamddenol—

Rhodri Glyn Thomas *a gododd*—

Huw Lewis: Nid ildiaf ar hyn o bryd, Rhodri.

4:50 p.m.

The Presiding Officer: Order. You cannot give way because you are asking a question, not making a statement. It would help if you asked the question, Huw. I will call for points of order after this statement.

Huw Lewis: Also—and this is revealing—we have from the Liberals, who graft themselves to the nearest piece of electioneering claptrap they can, ‘Let us ban up-front tuition fees and follow the Scots’. In fact, the Scottish system is not without problems and is not self-evidently good. There are more people paying more money at the end of their courses in Scotland than is the case with those who have up-front tuition fees in Wales. That is a more regressive system in terms of people on low income than the system that we have now. Jonathan tries hard with material of little worth when he defends the Tory record.

Jonathan Morgan *rose*—

Huw Lewis: The Tory Party is the party of the most screaming inequitable unfairness when it comes to access to higher education. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. I am still waiting for the question.

Huw Lewis: I keep being interrupted, Llywydd. The Tory Party introduced the cap on student numbers to debar thousands of people in communities like that which I represent from ever having any chance of entering higher education. Will you agree, Minister, that it is important, as we consider this report, that we do not lose sight of the significant social justice issue, which is not just about how many people are subsidised through higher education, but who participates?

Jane Davidson: The point about who participates is particularly important. We have a large agenda on widening participation. I was pleased to see that agenda endorsed on three or four occasions in this report. If we want to achieve that agenda, we

Y Llywydd: Trefn. Ni allwch ildio am eich bod yn gofyn cwestiwn, ac nid yn gwneud datganiad. Byddai o gymorth pe baech yn gofyn y cwestiwn, Huw. Galwaf am bwyntiau o drefn ar ôl y datganiad hwn.

Huw Lewis: Hefyd—ac mae hyn yn ddadlennol—clywn gan y Rhyddfrydwyr, sydd yn glynu at unrhyw ddarn o lol lecsiyna, ‘Gadewch inni wahardd ffioedd dysgu ymlaen llaw a dilyn esiampl yr Albanwyr’. Mewn gwirionedd, nid yw system yr Alban yn ddiffwdan ac nid yw’n hollol eglur ei bod yn dda. Mae mwy o bobl yn talu mwy o arian ar ddiwedd eu cyrsiau yn yr Alban o’i gymharu â’r rheini sydd yn talu ffioedd ymlaen llaw yng Nghymru. Mae honno’n system fwy atchweliadol o ran y nifer o bobl ar incwm isel na’r system sydd gennym ar hyn o bryd. Ymdrecha Jonathan yn galed gyda deunydd diwerth wrth iddo geisio amddiffyn record y Toriaid.

Jonathan Morgan *a gododd*—

Huw Lewis: Y Blaid Doriaidd yw’r blaid fwyaf cyforiog o annhegwch ac anghyfiawnder o ran mynediad i addysg uwch. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf yn dal i aros am y cwestiwn.

Huw Lewis: Mae pobl yn torri ar fy nhraws o hyd, Lywydd. Cyflwynodd y Blaid Doriaidd gap ar niferoedd myfyrwyr i atal miloedd o bobl mewn cymunedau tebyg i’r gymuned honno a gynrychiolaf rhag cael cyfle byth o gael mynediad i addysg uwch. A gytunwch, Weinidog, ei bod yn bwysig, wrth inni ystyried yr adroddiad hwn, nad ydym yn colli golwg ar fater pwysig cyfiawnder cymdeithasol, nad yw’n ymwneud yn unig â faint o bobl y rhoddir cymhorthdal iddynt drwy addysg uwch, ond â phwy fydd yn cymryd rhan?

Jane Davidson: Mae’r pwynt ynglŷn â phwy sydd yn cymryd rhan yn arbennig o bwysig. Mae gennym agenda fawr ar ehangu’r niferoedd cyfranogi. Yr oeddwn yn falch i weld fod yr agenda honno yn derbyn sêl bendith ar dri neu bedwar achlysur yn yr

must encourage everybody to go on to either further or higher education. We must look particularly at ways of encouraging our further education institutions to undertake more higher education. They are local institutions and people often feel safer in their local environment than when they go away. We have a good relationship between many of our further and higher education institutions. Only last week, I was in north Wales celebrating the strategic alliance between the University of Wales, Bangor and the North East Wales Institute of Higher Education, but also looking at a partnership with the local further education institutions and the Community University of North Wales. The work that has been carried out by the Education and Lifelong Learning Committee will enable us to take some exciting action to drive the learning agenda forward in Wales.

We must remember that we have a large number of people in the system at the moment. Well over 200,000 people go through further education and well over 100,000 through higher education. We want to see those numbers increase. I am sure that everybody in the Assembly would like to see numbers of students increase from those areas that have low or no participation at the moment. I hope that we will also be able to use other Assembly programmes, like Communities First, for example, as ways of encouraging better access to better qualifications.

Cynog Dafis: Gofynnaf i'r Gweinidog ynglŷn â chyfanswm cost y cronfeydd ariannol wrth gefn a'r bwrsariaethau, sydd yn werth hyd at £1,500 yn ôl argymellion comisiwn Teresa Rees. Beth mae'r Gweinidog yn meddwl fydd y cynnydd net yn y gost i'r Cynulliad pe gweithredid y ddau argymhelliad hynny, a sut y mae'n gweld y byddid yn cwrdd â'r gost honno? A rydd sicrwydd i'r Cynulliad na fyddai'r gost ychwanegol honno yn cael ei thalu ar draul gweddill y gwariant ar addysg? Pe bai'n digwydd ar draul y gwariant hwnnw, byddai hynny yn creu straen o fewn y gwasanaeth addysg mewn perthynas ag addysg uwch. Mae addysg uwch eisoes yn teimlo ei bod yn

adroddiad hwn. Os ydym am wireddu'r agenda honno, rhaid inni annog pawb i fynd ymlaen naill ai i addysg bellach neu addysg uwch. Rhaid inni edrych yn arbennig ar y dulliau o annog ein sefydliadau addysg bellach i ymgymryd â mwy o addysg uwch. Maent yn sefydliadau lleol ac mae pobl yn aml yn teimlo'n fwy diogel yn eu hamgylchedd lleol na phan ânt i ffwrdd. Mae gennym berthynas dda rhwng llawer o'n sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Dim ond yr wythnos diwethaf, yr oeddwn yng ngogledd Cymru yn dathlu'r gynghrair strategol rhwng Prifysgol Cymru, Bangor ac Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru, a hefyd yn edrych ar bartneriaeth gyda'r sefydliadau addysg bellach lleol a Phrifysgol y Gymuned Gogledd Cymru. Bydd y gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ein galluogi i gymryd rhai camau cyffrous i ddatblygu'r agenda ddysgu yng Nghymru.

Rhaid inni gofio bod gennym nifer fawr o bobl yn y system ar hyn o bryd. Mae ymhell dros 200,000 o bobl yn mynd drwy addysg bellach ac mae ymhell dros 100,000 yn mynd drwy addysg uwch. Yr ydym am weld y niferoedd hynny yn cynyddu. Yr wyf yn siŵr y byddai pawb yn y Cynulliad yn dymuno gweld y niferoedd o fyfyrwyr yn cynyddu yn yr ardaloedd hynny lle nad oes llawer neu lle nad oes neb yn cymryd rhan ar hyn o bryd. Gobeithiaf hefyd y gallwn ddefnyddio rhaglenni eraill y Cynulliad, megis Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, er enghraifft, fel dulliau o annog mynediad gwell i gymwysterau gwell.

Cynog Dafis: I ask the Minister about the total cost of the contingency funds and bursaries, which are worth up to £1,500 according to Teresa Rees's commission's recommendations. What does the Minister think the net increase in cost to the Assembly would be if those two recommendations were implemented, and how does she envisage that that cost would be met? Will she reassure the Assembly that that additional cost would not be paid at the expense of the rest of education expenditure? If it were to happen at the expense of that expenditure, that would create a strain within the education service in terms of higher education. Higher education already feels that it is underfunded. If the cost

cael ei thangyllido. Pe bai'r gost i gael ei thalu o gyllideb ysgolion neu o gyllideb darpariaeth cyn-ysgol, byddai'n anfantais i'r union bobl y mae eisiau eu targedu er mwyn cryfhau eu gallu i wella eu hunain yn addysgol ac i gael mynediad i addysg uwch. A yw'n fodlon cysylltu gweithredu'r argymhellion hyn gyda chais am adnoddau ychwanegol i addysg ac, o bosibl, adnoddau ychwanegol i gyllideb y Cynulliad?

Jane Davidson: The cost proposed in the report is up to £1,500 per annum, but no learning maintenance bursary is payable when residual income is above £15,000 per annum. It is important to set the record straight on that. In a sense, you identified why I could not present a more comprehensive response today. The report has major implications, which must be properly tested. They must be tested against the Committee's priorities in the higher education review. They must be tested against other Assembly priorities. When that process is complete, we will present something more comprehensive before the Assembly.

were paid from the budget for schools or from the budget for pre-school provision, that would be disadvantageous for exactly those people we need to target in order to strengthen their ability to improve themselves through education and to access higher education. Is she willing to link the implementation of these recommendations with a request for additional resources for education and, possibly, additional resources for the Assembly's budget?

Jane Davidson: Mae'r gost arfaethedig yn yr adroddiad hyd at £1,500 y flwyddyn, ond nid oes unrhyw fwrariaeth cynnal dysgu yn daladwy pan fo incwm gweddilliol yn uwch na £15,000 y flwyddyn. Mae'n bwysig rhoi darlun eglur o hynny. Mewn ffordd, yr ydych wedi nodi pam na allwn gyflwyno ymateb mwy cynhwysfawr heddiw. Mae goblygiadau mawr i'r adroddiad, ac mae'n rhaid eu profi'n gywir. Rhaid eu profi yn erbyn blaenoriaethau'r Pwyllgor yn yr adolygiad addysg uwch. Rhaid eu profi yn erbyn blaenoriaethau eraill y Cynulliad. Pan fo'r broses honno wedi'i chwblhau, byddwn yn cyflwyno rhywbeth mwy cynhwysfawr gerbron y Cynulliad.

Datganiad Busnes Statement Business

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies): The Business Committee agreed at its meeting this morning the business for the next three weeks, which is shown on the Chamberweb under 'supporting documents'. Following this morning's meeting of the Business Committee, the Deputy Presiding Officer has determined, under Standing Order No. 22.5, that the following Orders need not be referred to a Subject Committee for extended consideration: the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2001; the Sweeteners in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2001; the Street Works (Inspection Fees) (Amendment) (Wales) Regulations 2001; the Children (Protection from Offenders) (Amendment) (Wales) Regulations 2001; the Care Standards Act 2000 (Commencement No. 7) (Wales) Order 2001; the Children's Commissioner for Wales Act 2001

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod y bore yma ar y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf, a ddangosir ar we'r Siambr o dan 'dogfennau ategol'. Ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Busnes y bore yma, penderfynodd y Dirprwy Lywydd, o dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, nad oes angen i'r Gorchmynion canlynol gael eu cyfeirio at Bwyllgor Pwnc ar gyfer ystyriaeth estynedig: Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2001; Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001; Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2001; Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn rhag Tramgwyddwyr) (Diwygio) (Cymru) 2001; Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2001; Gorchymyn Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a'r Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2001.

(Commencement) Order 2001 and the Education (Assisted Places) (Amendment) (Wales) Regulations 2001.

I bring to Members' attention the motion on 19 July to approve the Children's Commissioner for Wales Regulations 2001. A determination has not been made under Standing Order No. 22.5. The original regulations, which were posted on the intranet, did not contain a reference to the United Nations Convention on the Rights of the Child. The amended regulations do that, which is why we made that decision.

A copy of this statement will be made available on the intranet and the internet.

The Presiding Officer: Are there any objections to the business statement? I see that there are none. Are there any comments on the business statement?

Jocelyn Davies: The Business Committee was informed this morning by the Minister for Assembly Business that the Queen's Speech debate has been scheduled for a time when the Secretary of State for Wales has a Cabinet meeting. On behalf of the Plaid Cymru group, I ask Andrew to make the strongest representations to the Secretary of State for Wales to attend the Assembly for that important debate as a priority. I remind Andrew that it is generally known that the UK Cabinet meets on Thursdays and it might serve the Assembly well to avoid that day when inviting the Secretary of State here to attend any of our proceedings and especially important debates on the Queen's Speech. Our deliberations here on this matter are enhanced by the involvement of the Office of the Secretary of State for Wales. We should facilitate that if we can and I hope it will then be a priority for the Secretary of State for Wales.

William Graham: I endorse those remarks, which were the substance of what I said last week. We like having the Secretary of State here. I am sure that Andrew will take those remarks on board and will make every facility for the Secretary of State to be here whenever possible.

Dygaf y cynnig ar 19 Gorffennaf i gymeradwyo'r Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 at sylw'r Aelodau. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto o dan Reol Sefydlog Rhif 22.5. Nid oedd y rheoliadau gwreiddiol, a osodwyd ar y fewnwyd, yn cynnwys cyfeiriad at Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Gwna'r rheoliadau diwygiedig hynny, a dyna pam y gwnaethom y penderfyniad hwnnw.

Rhoddir copi o'r datganiad hwn ar y fewnwyd a'r rhyngwyd.

Y Llywydd: A oes unrhyw wrthwynebiadau i'r datganiad busnes? Gwelaf nad oes. A oes unrhyw sylwadau ar y datganiad busnes?

Jocelyn Davies: Hysbyswyd y Pwyllgor Busnes y bore yma gan y Trefnydd fod y ddadl ar Araith y Frenhines wedi'i hamserlennu ar adeg pan fo gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyfarfod Cabinet. Ar ran grŵp Plaid Cymru, gofynnaf i Andrew bwysu'n drwm ar Ysgrifennydd Gwladol Cymru i roi blaenoriaeth i fynychu'r Cynulliad ar gyfer y ddadl bwysig honno. Atgoffaf Andrew ei fod yn hysbys yn gyffredinol fod Cabinet y DU yn cyfarfod ar ddydd Iau ac y gallai fod o fudd i'r Cynulliad osgoi'r diwrnod hwnnw wrth wahodd yr Ysgrifennydd Gwladol yma i fynychu unrhyw un o'n trafodion ac yn arbennig ddadleuon pwysig ar Araith y Frenhines. Caiff ein trafodaethau ar y mater hwn eu cyfoethogi drwy gynnwys Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Dylem hwyluso hynny os y gallwn a gobeithiaf y bydd wedyn yn flaenoriaeth i Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

William Graham: Cymeradwyaf y sylwadau hynny, sef swm a sylwedd yr hyn a ddywedais innau yr wythnos diwethaf. Yr ydym yn hoff o gael yr Ysgrifennydd Gwladol yma. Yr wyf yn siŵr y bydd Andrew yn ystyried y sylwadau hynny ac yn darparu pob cyfle i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yma pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

5.00 p.m.

Andrew Davies: As Paul Murphy made clear earlier this afternoon, he is more than happy to engage with us, whether in Plenary or in Subject Committees, in terms of liaison or working together on producing legislation. It was not possible, as I reported to the Business Committee this morning, for Paul Murphy to be here on 12 July. Part of the problem was that, given the general election in June, there was little time left between then and the summer recess in which to schedule this important debate and for Paul Murphy to be here at the same time. As I reported to Business Committee, I intend no disrespect to the Secretary of State for Wales or the Parliamentary Under-Secretary of State for Wales. Paul Murphy has made a commitment that he and Don Touhig are willing to come to speak to Subject Committees on legislation contained in the Queen's Speech. Once the Subject Committees have considered that legislation, there will be an opportunity for the Subject Committees' responses to be discussed in Plenary. I am confident that either the Secretary of State for Wales or his junior Minister will be available on that occasion.

Andrew Davies: Fel yr eglurodd Paul Murphy yn gynharach y prynhawn yma, mae'n fwy na bodlon cydweithredu â ni, naill ai mewn Cyfarfod Llawn neu mewn Pwyllgorau Pwnc, o ran cysylltu â ni neu gydweithio wrth lunio deddfwriaeth. Nid oedd yn bosibl, fel yr adroddais yn ôl wrth y Pwyllgor Busnes y bore yma, i Paul Murphy fod yma ar 12 Gorffennaf. Rhan o'r broblem oedd, am fod yr etholiad cyffredinol ym Mehefin, nad oedd llawer o amser ar ôl rhwng hynny a thoriad yr haf i drefnu'r ddadl bwysig hon ac i Paul Murphy fod yma ar yr un pryd. Fel yr adroddais wrth y Pwyllgor Busnes, nid wyf yn bwriadu unrhyw amharch i Ysgrifennydd Gwladol Cymru nac i Is-Ysgrifennydd Seneddol Cymru. Gwnaeth Paul Murphy ymrwymiad ei fod ef a Don Touhig yn fodlon siarad â'r Pwyllgorau Pwnc ar ddeddfwriaeth a gynhwysir yn Araith y Frenhines. Pan fydd y Pwyllgorau Pwnc wedi ystyried y ddeddfwriaeth honno, bydd cyfle i drafod ymatebion y Pwyllgorau Pwnc mewn Cyfarfod Llawn. Yr wyf yn ffyddiog y bydd naill ai Ysgrifennydd Gwladol Cymru neu ei Is-Weinidog ar gael ar yr achlysur hwnnw.

Pwynt o Drefn Point of Order

Rhodri Glyn Thomas: Pwynt o drefn. Codaf hyn ar sail eich arweiniad ynglŷn â'r ffordd y dylid cyfeirio at grwpiau gwleidyddol o fewn y Siambr. Defnyddiodd Huw Lewis y term '*nationalists*' i'n disgrifio ni, yn hytrach na theitl cywir y blaid, sef Plaid Cymru—The Party of Wales. Yr oedd ei ddefnydd o'r term yn gyson â'r sylwadau camarweiniol eraill yn ei ddatganiad, ond nid yw'n ddisgrifiad cywir ohonom ni.

Rhodri Glyn Thomas: Point of order. I raise this on the basis of your guidance on how political groups should be referred to in the Chamber. Huw Lewis used the term '*nationalists*' to describe us, rather than the correct party title, which is Plaid Cymru—The Party of Wales. His use of the term was in line with other misleading comments in his statement, but it is not a correct description of us.

Y Llywydd: Nodwyd y pwynt hwnnw. Mae Huw yn ofalus iawn ynglŷn â defnyddio'r term 'Llywodraeth Llundain'. Ar ymweliad diweddar â'r ddinas honno sylwais y sefydlwyd corff newydd i gynrychioli llywodraethu Llundain. Byddai, felly, yn gwbl gamarweiniol defnyddio'r term 'Llywodraeth Llundain' yn y Siambr hon yn dyfodol.

The Presiding Officer: That point has been noted. Huw is very careful when using the term 'London Government'. I noted during a recent visit to that city that a new body has been established to represent the governance of London. Therefore, it would be entirely misleading to use the term 'London Government' in this Chamber in future.

Rod Richards: Point of order. I seek your

Rod Richards: Pwynt o drefn. Ceisiaf eich

guidance on composite motions. I draw on an example that particularly concerns me. It is the Potatoes Originating in Egypt (Amendment) (Wales) Regulations 2001, which is included in the composite motion for today. I do not know much about potatoes, let alone Egyptian potatoes. I do not even know how many eyes they have. However, we need to know whether the voice of the traditional Welsh eater of Egyptian potatoes has been heard in this matter, before we vote on it.

I am also concerned that this Order was voted on in England on 30 November 2000. For eight months there have been hostile Egyptian organisms running amok in Wales, possibly infecting chip shops from Hay-on-Wye to Ruthin and putting our consumers at a disadvantage. The First Minister is trying to build bilateral relations with Egypt, as he mentioned earlier. What will happen in that respect? I am concerned that this Order may damage the good work of the First Minister.

The Presiding Officer: Order. This is not a point of order for me. If Rod Richards was so concerned about this Order, why did he not object to it under Standing Order No. 22.25?

Rod Richards: That is a good point, Llywydd. It has come to my attention primarily because I am concerned that, in Egypt, they may believe this to be a retaliatory strike for pyramid building in west Wales. Finally, this may be small potatoes to all of us, but for the Egyptian spud-farmer it is a living.

The Presiding Officer: Order. I draw your attention to Standing Order No. 22.25(ii), which requires three Members to object. As there are no other objections, we will move on.

arweiniad ar gynigion cyfansawdd. Tynnaf ar enghraifft sydd o bryder arbennig imi. Y Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2001 ydyw, a gynhwysir yn ein cynnig cyfansawdd ar gyfer heddiw. Nid wyf yn gwybod llawer am datws, a llai fyth am datws o'r Aifft. Nid wyf hyd yn oed yn gwybod sawl tyfiant sydd ganddynt. Fodd bynnag, mae angen inni wybod a gafodd llais y Cymry traddodiadol sydd yn bwyta tatws o'r Aifft ei glywed ar y mater hwn, cyn inni allu pleidleisio arno.

Yr wyf hefyd yn bryderus am y ffaith y pleidleisiwyd ar y Gorchymyn hwn yn Lloegr ar 30 Tachwedd 2000. Am wyth mis mae organebau o'r Aifft wedi rhedeg yn wyllt yng Nghymru, o bosibl gan heintio siopau sglodion o'r Gelli Gandryll i Ruthun ac yn peri anfantais i'n defnyddwyr ni. Mae Prif Weinidog Cymru yn ceisio sefydlu perthynas ddwyochrog gyda'r Aifft, fel y crybwyllodd yn gynharach. Beth a fydd yn digwydd o ran hynny? Yr wyf yn bryderus y gallai'r Gorchymyn hwn niweidio gwaith da Prif Weinidog Cymru.

Y Llywydd: Trefn. Nid yw hwn yn bwynt o drefn i mi. Os oedd Rod Richards mor bryderus ynghylch y Gorchymyn hwn, pam na wrthwynebodd iddo o dan Reol Sefydlog Rhif 22.25?

Rod Richards: Mae hwnnw'n bwynt da, Lywydd. Daeth i'm sylw yn bennaf oherwydd fy mod yn bryderus y gallai pobl yn yr Aifft gredu bod hyn yn ergyd ddialgar dros adeiladu pyramidiau yng ngorllewin Cymru. I gloi, efallai mai peth bach yw hyn i ni, ond i ffermwyr tatws o'r Aifft, mae'n fywoliaeth.

Y Llywydd: Trefn. Tynnaf eich sylw at Reol Sefydlog Rhif 22.25(ii), sydd yn ei gwneud yn ofynnol i dri Aelod wrthwynebu. Gan nad oes unrhyw wrthwynebiadau eraill, fe symudwn ymlaen.

Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Composite Motion: Approval of Orders

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 22.25, nid yw'r cynnig hwn yn destun dadl.

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 22.25, this motion is not subject to

debate.

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies): I propose that

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiau fod

the National Assembly, acting under Standing Order No. 22.25,

y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.25,

1. approves the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Amendment) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 1 May 2001;

1. yn cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001;

considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Amendment) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 15 May 2001;

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn destun pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2001;

2. approves the Potatoes Originating in Egypt (Amendment) (Wales) Regulations 2001 laid in the Table Office on 1 May 2001;

2. yn cymeradwyo'r Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001;

considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Potatoes Originating in Egypt (Amendment) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 15 May 2001;

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn destun pryder yn y Gorchymyn drafft, y Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2001;

3. approves the Valuation for Rating (Plant and Machinery) (Wales) Regulations 2001 laid in the Table Office on 8 May 2001; and

3. yn cymeradwyo'r Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2001; ac

considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Valuation for Rating (Plant and Machinery) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 15 May 2001. (NDM707)

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn destun pryder yn y Gorchymyn drafft, y Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2001. (NDM707)

Cynnig: O blaid 41, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion: For 41, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter

Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Richards, Rod
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Y Llywydd: Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw. Diolch i Aelodau am eu cydweithrediad.
The Presiding Officer: That brings us to the end of today's proceedings. I thank Members for their co-operation.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.02 p.m.
The session ended at 5.02 p.m*

